



Asiantaeth  
Safonau  
Bwyd

[food.gov.uk](http://food.gov.uk)

Food  
Standards  
Agency

---

# **Adroddiad ar y Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid**

Cyngor Sir Ddinbych  
15-19 Gorffennaf 2013

# Rhagair

Mae archwiliadau o wasanaethau gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid awdurdodau lleol yn rhan o drefniadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd i wella diogelwch a hyder defnyddwyr o ran bwyd a bwyd anifeiliaid. Mae'r trefniadau hyn yn cydnabod mai cyfrifoldeb awdurdodau lleol yn bennaf yw gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid y Deyrnas Unedig sy'n ymwneud â diogelwch bwyd, hylendid, cyfansoddiad, labelu, a bwyd anifeiliaid a bwyd a fewnforiwyd. Mae'r swyddogaethau rheoleiddio hyn sydd gan awdurdodau lleol yn cael eu cyflawni'n bennaf drwy eu Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach.

Mae'r adroddiad archwilio atodedig yn edrych ar Wasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid yr awdurdod lleol. Mae'r asesiad yn cynnwys ystyriaeth o'r systemau a'r gweithdrefnau sydd wedi'u sefydlu ar gyfer arolygu busnesau bwyd a bwyd anifeiliaid, samplu bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolaeth fewnol, rheoli ac ymchwilio i achosion a chlefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd, cyngor i fusnesau, gorfodi, a hybu diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid. Dylid cydnabod y gallai fod cryn amrywiaeth yn y ffordd a'r modd y mae awdurdodau'n darparu eu gwasanaethau gorfodi bwyd, gan adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau lleol.

Mae archwiliadau'r Asiantaeth yn asesu cydymffurfiaeth awdurdodau lleol â'r Safon Gorfodi Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid "(Y Safon)", a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth fel rhan o'r Cytundeb Fframwaith ar Reolaethau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Swyddogol Awdurdodau Lleol (a ddiwygiwyd ym mis Ebrill 2010), ac mae ar gael ar wefan yr Asiantaeth drwy:

[www.food.gov.uk/enforcement/enforcework/frameagree](http://www.food.gov.uk/enforcement/enforcework/frameagree)

Prif nod y cynllun archwilio yw cynnal a gwella diogelwch a hyder defnyddwyr drwy sicrhau bod awdurdodau'n darparu gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid effeithiol. Mae'r cynllun hefyd yn rhoi cyfle i amlygu a lledaenu arfer da, ac mae'n darparu gwybodaeth i lywio polisi'r Asiantaeth ar ddiogelwch bwyd, safonau a bwyd anifeiliaid, sydd ar gael drwy:

[www.food.gov.uk/enforcement/auditandmonitoring](http://www.food.gov.uk/enforcement/auditandmonitoring)

Mae'r adroddiad yn cynnwys rhywfaint o ddata ystadegol, er enghraifft am nifer yr arolygiadau a gynhaliwyd o safleoedd bwyd. Mae gwefan yr Asiantaeth yn cynnwys data am weithgarwch gorfodi ar gyfer pob awdurdod lleol yn y Deyrnas Unedig, ac mae ar gael drwy: [www.food.gov.uk/enforcement/auditandmonitoring](http://www.food.gov.uk/enforcement/auditandmonitoring)

Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys cynllun gweithredu, a baratowyd gan yr awdurdod, i fynd i'r afael â chanfyddiadau'r archwiliad.

Er hwylustod, ceir rhestr o dermau technegol a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad archwilio yn Atodiad C.

<b>CYNNWYS</b>		<b>Tud.</b>
1	<b>Cyflwyniad</b>	<b>6</b>
	Y Rheswm dros yr Archwiliad	<b>6</b>
	Cwmpas yr Archwiliad	<b>6</b>
	Cefndir	<b>7</b>
2	<b>Crynodeb Gweithredol</b>	<b>11</b>
	<b>Canfyddiadau'r Archwiliad</b>	<b>15</b>
3	Trefniadaeth a Rheolaeth	<b>15</b>
4	Adolygu a Diweddarau Polisiâu a Gweithdrefnau Cofnodedig	<b>20</b>
5	Swyddogion Awdurdodedig	<b>22</b>
6	Cyfleusterau ac Offer	<b>26</b>
7	Ymyriadau ac Arolygiadau Sefydliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid	<b>29</b>
8	Cwynion am Fwyd, Bwyd Anifeiliaid a Sefydliadau Bwyd	<b>42</b>
9	Cynllun y Prif Awdurdod ac Egwyddor yr Awdurdod Cartref	<b>45</b>
10	Cyngor i Fusnesau	<b>46</b>
11	Cronfa Ddata Sefydliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid	<b>47</b>
12	Arolygu a Samplu Bwyd a Bwyd Anifeiliaid	<b>49</b>
13	Rheoli ac Ymchwilio i Achosion a Chlefydau Heintus sy'n Gysylltiedig â Bwyd	<b>52</b>
14	Digwyddiadau Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid	<b>54</b>
15	Gorfodi	<b>55</b>
16	Cofnodion ac Ymyriadau/Adroddiadau Arolygu	<b>60</b>
17	Cwynion am y Gwasanaeth	<b>64</b>
18	Cyswllt â Sefydliadau Eraill	<b>65</b>
19	Monitro Mewnol	<b>66</b>
20	Adolygiad gan Drydydd Parti neu Gymheiriaid	<b>69</b>
21	Hybu Safonau a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid	<b>70</b>
	<b>Atodiadau</b>	
A	Cynllun Gweithredu ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych	<b>72</b>
B	Dull/Methodoleg yr Archwiliad	<b>91</b>



## 1 Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cofnodi canlyniadau archwiliad o hylendid bwyd, a safonau bwyd a bwyd anifeiliaid yng Nghyngor Sir Ddinbych o dan benawdau Safon Gorfodi Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Mae ar gael i'r cyhoedd ei weld ar wefan yr Asiantaeth drwy [www.food.gov.uk/enforcement/auditandmonitoring/auditreports](http://www.food.gov.uk/enforcement/auditandmonitoring/auditreports)

### ***Y Rheswm dros yr Archwiliad***

- 1.2 Rhoddwyd y grym i'r Asiantaeth Safonau Bwyd osod safonau, monitro ac archwilio gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid awdurdodau lleol gan Ddeddf Safonau Bwyd 1999 a Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009. Cynhaliwyd yr archwiliad o'r gwasanaeth bwyd a bwyd anifeiliaid yng Nghyngor Sir Ddinbych o dan adran 12(4) y Ddeddf a Rheoliad 7 y Rheoliadau.
- 1.3 Mae Rheoliad (CE) Rhif 882/2004 ar reolaethau swyddogol, a gyflawnir i sicrhau y dilysir cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, yn cynnwys gofyniad i awdurdodau cymwys gynnal archwiliadau mewnol neu i drefnu bod archwiliadau allanol yn cael eu cynnal. Diben yr archwiliadau hyn yw dilysu pa un a yw rheolaethau swyddogol sy'n ymwneud â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid yn cael eu gweithredu'n effeithiol. I gyflawni'r gofyniad hwn, mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd, sef yr awdurdod cymwys canolog ar gyfer cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid yn y Deyrnas Unedig, wedi sefydlu trefniadau archwilio allanol. Wrth ddatblygu'r rhain, mae'r Asiantaeth wedi ystyried arweiniad y Comisiwn Ewropeaidd ar sut y dylai archwiliadau o'r fath gael eu cynnal.<sup>1</sup>
- 1.4 Cynhaliwyd archwiliad o'r awdurdod fel rhan o raglen tair blynedd (2013 – 2016) o archwiliadau llawn o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

### ***Cwmpas yr Archwiliad***

---

<sup>1</sup> Penderfyniad y Comisiwn ar 29 Medi 2006 sy'n amlinellu'r canllawiau sy'n gosod meini prawf ar gyfer cynnal archwiliadau o dan Reoliad (CE) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor o reolaethau swyddogol i ddilysu cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, a rheolau iechyd anifeiliaid a lles anifeiliaid (2006/677/EC).

- 1.5 Roedd yr archwiliad yn ymdrin â threfniadau Sir Ddinbych ar gyfer darparu gwasanaethau gorfodi cyfraith hylendid bwyd, a safonau bwyd a bwyd anifeiliaid. Cynhaliwyd yr elfen 'ar y safle' o'r archwiliad yn swyddfeydd yr awdurdod yn y Rhyl rhwng 15 a 19 Gorffennaf 2013, ac roedd yn cynnwys ymweliadau dilysu â busnesau bwyd a bwyd anifeiliaid i asesu effeithiolrwydd y rheolaethau swyddogol a weithredir gan yr awdurdod ac, yn fwy penodol, y gwiriadau a gynhelir gan swyddogion yr awdurdod, i ddilysu cydymffurfiaeth gweithredwr busnes bwyd a bwyd anifeiliaid â gofynion deddfwriaethol.
- 1.6 Roedd yr archwiliad hefyd yn rhoi cyfle i drafod gyda swyddogion sy'n ymwneud â gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, gyda'r nod o archwilio materion allweddol a chael safbwyntiau i lywio polisi'r Asiantaeth.
- 1.7 Roedd yr archwiliad yn asesu cydymffurfiaeth yr awdurdod â'r "Safon". Mabwysiadwyd y Safon gan Fwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar 21 Medi 2000 (ac fe'i diwygiwyd am y pumed tro ym mis Ebrill 2010), ac mae'n ffurfio rhan o Gytundeb Fframwaith yr Asiantaeth ag awdurdodau lleol. Mae'r Cytundeb Fframwaith ar gael ar wefan yr Asiantaeth drwy [www.food.gov.uk/enforcement/enforcework/frameagree](http://www.food.gov.uk/enforcement/enforcework/frameagree)

### **Cefndir**

- 1.8 Awdurdod unedol yng ngogledd-ddwyrain Cymru yw Cyngor Sir Ddinbych. Mae'n cynnwys ardal o 844 o gilomedrau sgwâr ac yn ffinio â phum ardal awdurdod lleol arall – Conwy, Sir y Fflint, Wrecsam, Gwynedd a Phowys.
- 1.9 Mae gan Sir Ddinbych 13 cilometr o arfordir ac mae'n cynnwys ardal sy'n ymestyn o gyrchfannau arfordirol y Rhyl a Phrestatyn yn y gogledd, i lawr drwy Ddyffryn Clwyd, i'r de cyn belled â Chorwen a thref Llangollen sy'n boblogaidd gyda thwristiaid. Ar hyd y ffordd, mae'n cynnwys trefi hanesyddol Rhuddlan, Dinbych a Rhuthun, sydd oll â'u cestyll eu hunain, a dinas gadeiriol fechan Llanelwy.
- 1.10 Sir wledig yn bennaf yw Sir Ddinbych, a thwristiaeth ac amaethyddiaeth yw'r prif ddiwydiannau. Mae Parc Busnes Llanelwy, sydd ar gyrion yr A55, yn tyfu ac yn gartref i nifer o gwmnïau a sefydliadau.

- 1.11 Mae gan Sir Ddinbych boblogaeth o 93,734. Y prif ganolfannau poblogaeth yw'r Rhyl (25,500 o breswylwyr) a Phrestatyn (19,600 o breswylwyr). Mae cyfanswm o 96.1% o'r boblogaeth yn wyn Prydeinig/Gwyddelig ac mae 24.6% yn siarad Cymraeg.
- 1.12 Ceir parc gwyliau mawr ym Mhrestatyn ac yn ystod yr haf mae poblogaeth y sir yn cynyddu i 154,000 yn sgil y mewnlifiad o dwristiaid. Mae hyn yn gosod galwadau tymhorol ychwanegol ar y gwasanaeth gorfodi cyfraith bwyd.
- 1.13 Ceir lefelau isel o amddifadedd yn Sir Ddinbych yn ei chyfanrwydd. Fodd bynnag, ceir pocedi o amddifadedd; ardal Rhyl West 2 yw'r ardal fwyaf difreintiedig yng Nghymru, yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2011.
- 1.14 Roedd gwaith gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid yn cael ei wneud gan swyddogion yn Adran Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd yr awdurdod. Roedd y Tîm Bwyd yn gorfodi deddfwriaeth diogelwch bwyd ac roedd y Tîm Safonau Masnach yn gorfodi deddfwriaeth safonau bwyd a bwyd anifeiliaid.
- 1.15 Yn sgil proses ailstrwythuro trefniadau staffio a gynhaliwyd yn ddiweddar, penodwyd Rheolwr Diogelu'r Cyhoedd a oedd hefyd yn swyddog arweiniol ar gyfer hylendid bwyd a rheoli clefydau heintus. Y swyddog arweiniol ar gyfer safonau bwyd a bwyd anifeiliaid oedd y Rheolwr Safonau Masnach Dros Dro. Ar adeg yr archwiliad, roedd y Rheolwr Diogelu'r Cyhoedd yn adolygu strwythur staffio'r adran Diogelu'r Cyhoedd, ac roedd yn bwriadu defnyddio canfyddiadau'r archwiliad i lywio'r broses hon.
- 1.16 Roedd y swyddogion a'r staff cymorth a oedd yn gyfrifol am hylendid bwyd, a safonau bwyd a bwyd anifeiliaid yn gweithio yn Nhŷ Russell, Ffordd Churton, y Rhyl. Roedd gwasanaethau ar gael rhwng 09:00 a 17:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener.
- 1.17 Yn ei Gynllun Gwasanaeth Bwyd ar gyfer 2013/14 (y Cynllun Gwasanaeth), adroddodd yr awdurdod fod ganddo wasanaeth brys y tu allan i oriau swyddfa. Gwasanaeth gwirfoddol oedd hwn a weithredwyd gan swyddogion ar sail ewyllys da. Ni phrofwyd y gwasanaeth y tu allan i oriau swyddfa yn rhan o'r archwiliad.



- 1.18 Yn 2013/14, roedd 1,117 o safleoedd bwyd a 1,082 o sefydliadau bwyd anifeiliaid cofrestredig yn Sir Ddinbych. Yn ogystal, adroddwyd yn y Cynllun Gwasanaeth bod pum safle penodol i gynnyrch a thri safle sy'n storio bwyd wedi'i oeri.
- 1.19 Roedd y Cynllun Gwasanaeth yn datgan bod gan yr awdurdod bum swyddog cyfwerth ag amser llawn (CALI) a oedd yn ymwneud â darparu gwasanaeth hylendid bwyd. Yn ogystal, roedd y Rheolwr Diogelu'r Cyhoedd yn gyfrifol am gynllunio a gwaith monitro mewnol mewn perthynas â diogelwch bwyd. Adroddodd yr awdurdod fod ganddo 0.5 o swyddogion CALI ar gyfer safonau bwyd a 0.3 o swyddogion CALI ar gyfer safonau amaethyddol (gan gynnwys bwyd anifeiliaid). Roedd tri swyddog gweinyddol yn darparu cymorth ar draws y gwasanaethau.
- 1.20 Dywedwyd wrth yr archwilwyr bod yr awdurdod wedi gweithio ar y cyd ag awdurdod cyfagos yn y gorffennol i ymgymryd â gwaith gorfodi cyfraith bwyd. Roedd swyddogion a gyflogwyd gan Gyngor Conwy wedi cyflawni gwaith yn ymwneud â rheolaethau swyddogol yn Sir Ddinbych. Fodd bynnag, nid oedd y trefniant hwn wedi parhau ar ôl mis Mawrth 2013.
- 1.21 Yn ôl Cynllun Gwasanaeth yr Adran Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd ar gyfer 2013/14, *'Rydym ni eisoes wedi gwneud arbedion effeithlonrwydd o oddeutu £320,000, ond yn ystod y ddwy flynedd nesaf mae angen i ni ddod o hyd i o leiaf £220,000 arall o arbedion effeithlonrwydd, ac efallai mwy'.* Roedd arbedion effeithlonrwydd wedi effeithio ar y gwasanaeth gorfodi cyfraith bwyd yn sgil colli Swyddog Safonau Masnach a swydd Rheolwr Bwyd ac Iechyd a Diogelwch.
- 1.22 Roedd adolygiad o'r gwasanaeth wedi'i gynllunio *'i greu gweithlu newydd, deinamig a hyblyg sy'n gallu amlwasgio ac ymateb i flaenoriaethau. Bydd angen i'r Adolygiad ystyried darparu gwasanaethau rheng flaen mewn ffordd wahanol neu beidio â darparu rhai gwasanaethau o gwbl. Disgwylir y bydd costau staffio'n cael eu lleihau drwy beidio ag ail-lenwi swyddi a drwy ddiswyddo gwirfoddol, gyda'r posibilrwydd o ddiswyddo'n orfodol fel dewis olaf'.*
- 1.23 Adroddwyd mai'r gwariant ar y gwasanaeth bwyd yn 2012/13 oedd £211,652. Y gyllideb refeniw flynyddol ar gyfer 2013/14 oedd £214,118.
- 1.24 Roedd yr awdurdod wedi bod yn cymryd rhan yn y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Cenedlaethol a lansiwyd yng Nghymru ym mis Hydref

2010. Ar adeg yr archwiliad, roedd sgoriau hylendid bwyd 701 o sefydliadau bwyd yn Sir Ddinbych ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Cenedlaethol.

## 2 Crynodeb Gweithredol

- 2.1 Cydnabu'r archwilwyr fod yr awdurdod wedi cynnal adolygiad o'i strwythur rheoli yn ddiweddar, gan benodi Rheolwr Diogelu'r Cyhoedd i oruchwyllo'r broses o ddarparu'r holl Wasanaethau Diogelu'r Cyhoedd, gan gynnwys gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid. Ar adeg yr archwiliad, roedd y Rheolwr Diogelu'r Cyhoedd yn adolygu strwythur staffio'r Adran Diogelu'r Cyhoedd ac yn gweithio i ddatblygu'r gwasanaethau gorfodi cyfraith safonau bwyd a bwyd anifeiliaid yn unol â gofynion y Codau Ymarfer Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid.
- 2.2 Yn ystod y ddwy flynedd hyd at 2012, roedd yr awdurdod wedi gweithio ar y cyd ag awdurdod cyfagos i reoli ei wasanaeth hylendid bwyd. Roedd proses ailstrwythuro trefniadau staffio yn 2012/13 wedi arwain at gollu'r swydd reoli hon yn ogystal â swydd Swyddog Safonau Masnach, a oedd wedi effeithio ar allu'r awdurdod i ddarparu gwasanaeth gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid effeithiol. Roedd yr awdurdod wedi sefydlu trefniadau cydweithredol ag awdurdod cyfagos i gyflawni rhywfaint o waith safonau bwyd; fodd bynnag, roedd hyn wedi dod i ben ym mis Mawrth 2013. Yn fwy diweddar, roedd contractwr wedi'i benodi ar sail ran-amser, dros dro i ymgymryd â gwaith gorfodi safonau bwyd a bwyd anifeiliaid.
- 2.3 Roedd yr awdurdod wedi datblygu Cynllun Gwasanaeth Bwyd ar gyfer 2013/14 a oedd yn cyd-fynd yn fras â Chanllawiau Cynllunio Gwasanaeth. Fodd bynnag, nid oedd y cynllun yn manylu'n llawn ar yr ôl-groniad mawr o fusnesau yr oedd eu hymyriadau safonau bwyd a bwyd anifeiliaid yn hwyr, gan gynnwys y nifer o sefydliadau heb eu sgorio yn yr ardal nad oeddent eto wedi derbyn unrhyw fath o ymyrraeth. Roedd hefyd angen i'r cynllun gymharu'r adnoddau staff sy'n ofynnol i ddarparu gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid â'r adnoddau staff sydd ar gael i'r awdurdod. Mae absenoldeb gwybodaeth o'r fath yn ei gwneud hi'n anodd sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i ddarparu gwasanaeth ar lefel briodol.
- 2.4 Roedd gweithdrefn wedi'i datblygu i sicrhau cywirdeb cronfa ddata safleoedd masnachol yr awdurdod. Roedd gwiriadau a gynhaliwyd

yn ystod yr archwiliad yn cadarnhau bod y gronfa ddata hylendid bwyd yn gywir yn gyffredinol, ac roedd yr awdurdod wedi gallu rhoi ffurflen System Monitro Camau Gorfodi Awdurdodau Lleol (LAEMS) i'r Asiantaeth ar ffurf electronig. Yn 2012/13, nid oedd yr awdurdod wedi gallu rhoi'r ffurflen LAEMS safonau bwyd i'r Asiantaeth ar ffurf electronig. Roedd Cynlluniau Gweithredu wedi'u datblygu ac yn cael eu symud ymlaen i wella cywirdeb y cronfeydd data safonau bwyd a bwyd anifeiliaid.

- 2.5 O wirio cofnodion a chronfeydd data, cadarnhawyd bod yr awdurdod yn blaenoriaethu ei raglen o ymyriadau hylendid bwyd ar sail risg yn gyffredinol, gan dargedu busnesau risg uwch. Fodd bynnag, rhoddwyd sgoriau risg i rai busnesau newydd ar sail holiadur hunanasesu heb gynnal arolygiad, yn groes i'r Cod Ymarfer Cyfraith bwyd. Rhoddodd y Rheolwr Diogelu'r Cyhoedd sicrwydd fod y sgoriau risg 'dros dro' hyn wedi'u rhoi i sefydliadau gwely a brecwast cyn digwyddiad mawr, ac y byddent yn cael eu cynnwys yn y rhaglen arolygu. Roedd yr un dull o bennu sgôr risg i'r busnesau newydd hyn yn ymestyn i ymyriadau safonau bwyd a bwyd anifeiliaid.
- 2.6 Nid oedd y cynllun sgorio risg a ddefnyddiwyd gan yr awdurdod ar gyfer safonau bwyd a bwyd anifeiliaid yn cyd-fynd â hwnnw yn y Codau Ymarfer Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid. Felly, nid oedd bob amser yn bosibl i'r archwilwyr sefydlu pa un a oedd busnesau wedi cael ymyriadau ar yr amllder priodol.
- 2.7 Yn gyffredinol, nid oedd cofnodion bwyd a bwyd anifeiliaid yn cael eu cynnal yn ddigonol. Roedd y cofnodion a oedd ar gael yn anghyflawn yn aml. Roedd y diffyg cofnodion cynhwysfawr yn ei gwneud hi'n anodd canfod natur a chwmpas gweithrediadau busnes bwyd, graddau ymyriadau swyddogion neu ba un a gynhaliwyd asesiadau effeithiol o gydymffurfiaeth busnes bwyd/bwyd anifeiliaid. Mae hyn yn gwneud monitro mewnol effeithiol yn anodd ac yn effeithio ar allu swyddogion i fabwysiadu dull graddoledig o orfodi.
- 2.8 Mae'r awdurdod wedi bod yn rhagweithiol o ran rhoi cyngor ac arweiniad i fusnesau bwyd a bwyd anifeiliaid.

- 2.9 Roedd Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Adolygu Bwyd, a oedd yn cynnwys swyddogion allweddol ac Aelodau Etholedig, wedi'i sefydlu i gydlynu ymateb yr awdurdod i'r digwyddiad cig ceffylau.
- 2.10 Er bod rhywfaint o dystiolaeth gyfyngedig o fonitro mewnol ansoddol o'r gwasanaeth hylendid bwyd, roedd gwaith monitro mewnol o safonau bwyd a bwyd anifeiliaid wedi'i gyfyngu i wirio nifer yr arolygiadau a gynhaliwyd yn hytrach nag ansawdd a chysondeb gwasanaethau gorfodi.

## **2.11 Cryfderau'r Awdurdod**

### **Cyngor i Fusnesau**

Roedd yr awdurdod wedi bod yn rhagweithiol o ran rhoi cymorth i fusnesau i'w helpu i gydymffurfio â deddfwriaeth hylendid bwyd, a safonau bwyd a bwyd anifeiliaid. Roedd yr awdurdod wedi ymuno â chynhyrchwr bwyd lleol mawr yn ddiweddar i ddarparu gwybodaeth a hyfforddiant i fusnesau bwyd lleol eraill er mwyn paratoi ar gyfer newidiadau i ddeddfwriaeth labelu bwyd.

### **Hybu Safonau a Diogelwch Bwyd**

Roedd yr awdurdod wedi cynnal nifer o fentrau gyda'r nod o hybu safonau a diogelwch bwyd. Roedd y rhain yn cynnwys hyfforddiant hylendid bwyd, darparu taflenni cyngor, erthyglau rheolaidd yn y wasg leol a darparu cylchlythyr chwemisol i fusnesau lleol.

### **Cwynion am y Gwasanaeth**

Roedd cwynion am y gwasanaeth wedi'u hymchwilio mewn modd trylwyr ac amserol. Roedd cofnodion cwynion wedi'u cynnal gan y Rheolwr Diogelu'r Cyhoedd.

## **2.12 Meysydd Allweddol i'w Gwella ar gyfer yr Awdurdod**

### **Amllder Ymyriadau Hylendid Bwyd, Safonau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid**

Nid oedd yr awdurdod yn cynnal ymyriadau hylendid bwyd, safonau bwyd na bwyd anifeiliaid ar yr amllder sy'n ofynnol yn y Codau Ymarfer. Mae cynnal ymyriadau ar yr amllder sy'n ofynnol yn sicrhau bod risgiau sy'n gysylltiedig â busnesau bwyd yn cael eu hamlygu a'u dilyn mewn modd amserol.

### **Ymyriadau Hylendid Bwyd, Safonau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid**

Nid oedd y cynllun sgorio risg a ddefnyddiwyd ar gyfer safonau bwyd a bwyd anifeiliaid yn gyson nac yn gyfwerth â'r cynllun sgorio risg yn y Codau Ymarfer Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid. Yn ogystal, roedd sgôr risg wedi'i phennu i fusnesau bwyd a bwyd anifeiliaid heb fod arolygiad wedi'i gynnal. Roedd hyn yn effeithio ar y gallu i gyflawni rhaglen ymyriadau seiliedig ar risg.

### **Cofnodion Arolygiadau Hylendid Bwyd, Safonau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid**

Nid oedd cofnodion arolygiadau hylendid bwyd, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid bob amser yn ddigon manwl i allu sefydlu bod ymyriadau effeithiol wedi'u cynnal. Yn ogystal, nid oedd adroddiadau arolygu safonau bwyd a bwyd anifeiliaid yn ddigonol i lywio dull graddoledig a chyson o orfodi a galluogi monitro mewnol effeithiol.

### **Cwynion am Fwyd, Bwyd Anifeiliaid a Sefydliadau Bwyd**

Nid oedd bob amser yn bosibl pennu o'r cofnodion a oedd ar gael pa un a ymatebwyd i gwynion am safonau bwyd a bwyd anifeiliaid o fewn amser ymateb targed yr awdurdod. Mewn rhai achosion, nid oedd digon o dystiolaeth i bennu a oedd ymchwiliadau priodol wedi'u cynnal o gwynion am hylendid bwyd, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid. Gall cwynion ddarparu gwybodaeth werthfawr ac arwydd cynnar o broblem ddifrifol neu gyffredin.

### **Samplu Hylendid Bwyd**

Nid oedd yr awdurdod yn gallu darparu tystiolaeth fod camau wedi'u cymryd mewn ymateb i unrhyw un o'r saith canlyniad samplu microbiolegol anfoddfaol a ddewiswyd ar gyfer yr archwiliad.

### **Monitro Mewnol**

Er bod rhywfaint o waith monitro mewnol ansoddol cyfyngedig yn cael ei gynnal o hylendid bwyd, nid oedd hyn yn ymestyn i orfodi safonau bwyd a bwyd anifeiliaid.

## Canfyddiadau'r Archwiliad

### 3 Trefniadaeth a Rheolaeth

#### *Fframwaith Strategol, Polisi a Chynllunio'r Gwasanaeth*

- 3.1 Roedd yr awdurdod yn gweithredu dull Cabinet o lywodraeth leol gyda Chyfansoddiad a oedd yn amlinellu trefniadau'r awdurdod ar gyfer gwneud penderfyniadau. O dan y Cyfansoddiad, roedd penderfyniadau am rai materion penodol wedi'u dirprwyo i swyddogion.
- 3.2 Roedd yr awdurdod wedi datblygu 'Cynllun Gwasanaeth Bwyd ar gyfer 2013/14' ('y Cynllun Gwasanaeth') a oedd yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â gorfodi cyfraith bwyd. Roedd y cynllun yn cyd-fynd yn gyffredinol â'r Canllaw Cynllunio Gwasanaeth a geir yn y Cytundeb Fframwaith. Ar adeg yr archwiliad, roedd y Cynllun Gwasanaeth yn destun ymgynghoriad mewnol ffurfiol cyn cael ei ystyried ar gyfer ei gymeradwyo gan yr Aelod Cabinet perthnasol. Nodwyd bod Cynllun Gwasanaeth 2012/13 wedi'i gymeradwyo'n ffurfiol gan yr Aelod Cabinet perthnasol.
- 3.3 Roedd cyfraniad y Gwasanaeth Bwyd at un o flaenoriaethau corfforaethol Sir Ddinbych, sef 'Datblygu'r Economi Leol', wedi'i amlygu yn y Cynllun Gwasanaeth, ynghyd â chysylltiadau â chanlyniadau gwasanaeth yr Adran Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd.
- 3.4 Roedd y Cynllun Gwasanaeth yn amlinellu nodau ac amcanion y gwasanaeth bwyd. Y nod oedd "gwella a sicrhau iechyd, diogelwch a lles preswylwyr, gweithwyr, ymwelwyr a chymuned fusnes y sir ym maes diogelwch a safonau bwyd."
- 3.5 Amcanion y gwasanaeth oedd:
- "Sicrhau bod yr holl fwyd a bwyd anifeiliaid sy'n cael ei gynhyrchu, ei fewnforio neu ei ddosbarthu yn Sir Ddinbych yn ddiogel i'w fwyta ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelwch bwyd a safonau bwyd. Cyflawnir hyn drwy arolygu, addysg, rhoi cyngor, gorfodi samplu ac ymchwilio i gwynion.

- Lleihau cymaint â phosibl ar nifer yr achosion o glefydau heintus a'u lledaeniad."

3.6 Roedd y Cynllun Gwasanaeth yn cynnwys proffiliau risg busnesau bwyd yn Sir Ddinbych o ran hylendid bwyd, a safonau bwyd a bwyd anifeiliaid:

**Sgoriau risg hylendid bwyd:**

Categori risg	Cyfanswm nifer y safleoedd	Arolygiadau a gynlluniwyd
A	4	4
B	54	54
C	389	207
D	211	119
E	442	302
Heb sgôr	14	14
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,114</b>	<b>700</b>

**Cyfraddau risg safonau bwyd:**

Categori risg	Cyfanswm nifer y safleoedd	Arolygiadau a gynlluniwyd
Uchel	8	8
Canolig	424	45(10%)
Isel	677	30(5%)
Heb sgôr	-	-

**Amaethyddiaeth/Bwyd Anifeiliaid:**

Categori risg	Cyfanswm nifer y safleoedd	Arolygiadau a gynlluniwyd
Uchel	0	0
Canolig	13	6(50%)
Isel	978	40(50%)
Heb gael sgôr eto	91	45(50%)
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,082</b>	<b>46*</b>

\* cyfanswm nifer yr arolygiadau bwyd anifeiliaid – camgymeriad wedi'i nodi



- 3.7 Sefydliadau bwyd yng nghategori A o ran hylendid bwyd yw'r rhai hynny sy'n cynrychioli'r risg uchaf a dylent fod yn destun ymyrraeth bob chwe mis. O gymryd bod y sgoriau risg wedi aros yr un fath yng nghategori A, roedd wyth ymyrraeth i'w cynnal yn 2013/14.
- 3.8 Amcangyfrifwyd o leiaf 100 o arolygiadau eraill heb eu rhaglennu o safleoedd bwyd mewn ymateb i gofrestru busnesau newydd a chwynion, ynghyd ag oddeutu 50 o ailymweliadau â safleoedd a chanddynt sgôr o 0, 1 neu 2 o dan y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd. Amlygwyd arolygu busnesau newydd "o fewn 28 niwrnod o agor" yn flaenoriaeth yng Nghynllun Gwasanaeth 2013/14.
- 3.9 Nodwyd bod nifer y safleoedd penodol i gynnyrch a amlygwyd yn y Cynllun Gwasanaeth wedi'i datgan yn anghywir, ac nad oedd yn gyson â'r nifer a adroddwyd gan yr awdurdod i'r Asiantaeth Safonau Bwyd.
- 3.10 Manylwyd ar y trefniadau ar gyfer samplu bwyd a bwyd anifeiliaid yn y Cynllun Gwasanaeth. Roedd y rhaglen samplu wedi'i chyfeirio tuag at gynhyrchwyr a gweithgynhyrchwyr lleol. Roedd yr awdurdod yn cymryd rhan yn Arolwg Basged Siopa Cymru a *'rhaglenni samplu LACORS cenedlaethol'*.
- 3.11 Rhoddwyd blaenoriaeth uchel i ymgysylltu â busnesau lleol. Roedd cylchlythyr chwemisol yn cael ei gynhyrchu a chymorthfeydd lleol rheolaidd yn cael eu cynnal ar draws y sir ar gyfer busnesau bwyd.
- 3.12 Roedd y trefniadau ar gyfer monitro mewnol, sef *'asesu ansawdd'*, wedi'u sefydlu yn y Cynllun Gwasanaeth ac yn cynnwys y trefniadau ar gyfer sicrhau cysondeb o ran darparu gwasanaeth.
- 3.13 Roedd y Cynllun Gwasanaeth yn rhoi manylion y staff a oedd ar gael ar gyfer gwaith gorfodi bwyd a bwyd anifeiliaid, ond nid oedd yn amlygu'r union adnoddau yr oedd eu hangen i ddarparu'r gwasanaeth.
- 3.14 Er bod cost gyffredinol darparu gwasanaethau bwyd a bwyd anifeiliaid yn 2012/13 wedi'i rhoi yn y Cynllun Gwasanaeth (£211,652) ynghyd â'r gyllideb ar gyfer 2013/14 (£214,118), ni roddwyd manylion costau ansefydlog, gan gynnwys staffio, cyllidebau samplu, teithio a chynhaliadau, offer a darpariaeth ariannol ar gyfer unrhyw gamau cyfreithiol.

- 3.15 Roedd adolygiad o gyflawniadau 2012/13 a meysydd i'w gwella yn 2013/14 wedi'i gynnwys yn y Cynllun Gwasanaeth. Roedd y meysydd i'w gwella yn cynnwys:-
- Parhau i weithio i wella cywirdeb y gronfa ddata safleoedd bwyd.
  - Gweithio i symud tuag at weithredu Cynllun Sgorio Risg newydd Safonau Masnach ar gyfer 2012.
  - Gweithio i alluogi system lle y gellir lanlwytho data safonau bwyd yn awtomatig i'r Asiantaeth Safonau Bwyd trwy'r llwybr LAEMS.
  - Cychwyn ar raglen hyfforddiant a datblygiad i sicrhau bod swyddogion yn gymwys ym maes gorfodi safonau bwyd a bwyd anifeiliaid.
- 3.16 Yn ogystal â'r Cynllun Gwasanaeth, roedd yr awdurdod wedi datblygu 'Cynlluniau Gwaith' manwl ar gyfer safonau bwyd a bwyd anifeiliaid. Roedd y Cynllun Gwaith Bwyd Anifeiliaid wedi ystyried Adroddiadau Swyddfa Bwyd a Milfeddygol y Comisiwn Ewropeaidd ar Orfodi Cyfraith Bwyd yn y Deyrnas Unedig. Trafododd yr archwilwyr yr angen i'r awdurdod amlygu'r adnoddau y byddai eu hangen i gyflawni'r camau gweithredu a nodwyd yn y cynlluniau gwaith, a manteision atodi'r cynlluniau gwaith i Gynlluniau Gwasanaeth yn y dyfodol.
- 3.17 Sylwodd yr archwilwyr nad oedd y targedau arolygu a osodwyd yng Nghynllun Gwasanaeth 2012/13 ar gyfer safonau bwyd a bwyd anifeiliaid wedi'u cyflawni. Nid oedd yr amrywiannau hyn wedi derbyn sylw yng Nghynllun Gwasanaeth 2013/14.

### ***Argymhellion***

3.18 Dylai'r awdurdod:

- (i) Sicrhau bod Cynlluniau Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd yn y dyfodol yn cael eu datblygu yn unol â'r Canllaw Cynllunio Gwasanaeth yn y Cytundeb Fframwaith. Yn arbennig, dylid cynnwys dadansoddiad cadarn o'r adnoddau sydd eu hangen o gymharu â'r rhai hynny sydd ar

gael, a chynlluniau i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion a amlygir. [Y Safon – 3.1]

- (ii) Mynd i'r afael ag unrhyw amrywiant o ran bodloni'r cynllun darparu gwasanaeth mewn cynlluniau gwasanaeth dilynol. [Y Safon – 3.3]

#### **4 Adolygu a Diweddarau Polisiâu a Gweithdrefnau Cofnodedig**

- 4.1 Roedd gan yr awdurdod weithdrefn rheoli dogfennau ar gyfer hylendid bwyd a ddatblygwyd i *'sichrau bod pob aelod o'r tîm bwyd ac iechyd a diogelwch yn dilyn y gweithdrefnau gorfodi cywir, yn cynnal cofnodion effeithiol ac yn rhoi cyngor cyson'*. Roedd dogfennau rheoledig yn cynnwys polisiâu, gweithdrefnau a dogfennau ymarferol eraill, er enghraifft cynlluniau gwasanaeth, cynlluniau arolygu ac amserlenni monitro mewnol.
- 4.2 Roedd dogfennau rheoledig yn cael eu storio'n electronig ac roedd swyddogion yn gallu cael mynediad atynt ar sail 'darllen yn unig'. Roedd dogfennau wedi'u diogelu gan gyfrinair a gallent gael eu hawdurdodi a'u diwygio gan y cyn Reolwr Bwyd ac Iechyd a Diogelwch a ddynodwyd yn Rheolwr Diogelu'r Cyhoedd yn ddiweddar. Gallai swyddogion ofyn am gael gwneud newidiadau i ddogfennau rheoledig. Lle y gwnaed newidiadau, roedd y manylion a'r rhesymau dros y newidiadau wedi'u cofnodi yn yr adran 'Crynodeb Diwygiadau' ar flaen y dogfennau. Roedd swyddogion yn cael gwybod am gyhoeddiadau newydd o ddogfennau rheoledig drwy neges e-bost. Roedd copïau argraffedig o ddogfennau wedi'u dynodi'n rhai heb eu rheoli.
- 4.3 Roedd yr awdurdod wedi datblygu ystod o bolisiâu a gweithdrefnau cofnodedig mewn perthynas â gorfodi cyfraith bwyd. Roedd rhai o'r rhain wedi'u seilio ar dempledi a gynhyrchwyd ar y cyd gan Banel Technegol Diogelwch Bwyd Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru, ac roedd eraill yn benodol i Sir Ddinbych. Roedd yr awdurdod wedi ymroi i adolygu pob polisi a gweithdrefn o leiaf unwaith y flwyddyn a phryd bynnag y gwnaed newidiadau i ddeddfwriaeth.
- 4.4 Yn gyffredinol, roedd polisiâu a gweithdrefnau wedi'u hadolygu'n flynyddol, er y sylwyd nad oedd Polisi Gorfodi'r awdurdod wedi'i adolygu ers iddo gael ei gymeradwyo gan yr Aelod Cabinet perthnasol ym mis Mehefin 2009.
- 4.5 Sylwodd yr archwilwyr nad oedd system reoli wedi'i sefydlu ar gyfer dogfennau yn ymwneud â safonau bwyd na bwyd anifeiliaid.

### ***Argymhellion***

4.6 Dylai'r awdurdod:

- (i) Sicrhau bod yr holl bolisiau a gweithdrefnau cofnodedig yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a phryd bynnag y gwneir newidiadau i ddeddfwriaeth neu ganllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 4.1]
- (ii) Ymestyn ei system rheoli dogfennau i gynnwys gweithgareddau gorfodi safonau bwyd a bwyd anifeiliaid. [Y Safon – 4.2]

## **5 Swyddogion Awdurdodedig**

- 5.1 Roedd cynllun dirprwyo'r awdurdod wedi'i amlinellu yn ei Gyfansoddiad ac roedd yn rhoi pwerau dirprwyedig i'r Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddio awdurdodi swyddogion. Sylwodd yr archwilwyr nad oedd dynodiad y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol wedi'i ddiweddarau yn y Cyfansoddiad i adlewyrchu teitl swydd y deiliad swydd presennol.
- 5.2 Roedd gan yr awdurdod weithdrefn gofnodedig ar gyfer awdurdodi swyddogion gorfodi bwyd a bwyd anifeiliaid. Roedd yn cynnwys matrices ar gyfer asesu cymhwysedd er mwyn pennu lefelau awdurdodi swyddogion. Roedd y weithdrefn yn mynnu bod yr asesiadau hyn yn cael eu cynnal mewn cyfarfodydd adolygu perfformiad a datblygiad blynyddol o leiaf.
- 5.3 Nid oedd y Weithdrefn Awdurdodi yn nodi pwy oedd yn gyfrifol yn y gwasanaeth am awdurdodi swyddogion. Yn ymarferol, sylwodd yr archwilwyr fod awdurdodiadau wedi'u llofnodi gan y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd yn dilyn asesiad cofnodedig o gymhwysedd gan y Rheolwr Diogelu'r Cyhoedd gan ddefnyddio'r matrices cymhwysedd a grybwyllwyd uchod.
- 5.4 Roedd gan yr awdurdod system o adolygiadau perfformiad blynyddol wedi'i sefydlu. Roedd y broses yn cynnwys trafod ac amlygu anghenion hyfforddiant swyddogion. Gwelodd yr archwilwyr ddogfennau adolygu perfformiad a oedd yn cynnwys asesiadau o anghenion hyfforddiant.
- 5.5 Nid oedd y matrices asesu cymhwysedd wedi'i ddiweddarau i ystyried y gallu i ddefnyddio Hysbysiadau Camau Unioni (RANs) ym mhob sefydliad hylendid bwyd. Yn ogystal, roedd yn cyfeirio at Reoliadau Rheoli Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Swyddogol 2006, a oedd wedi'u dirymu.
- 5.6 Roedd yr awdurdod wedi penodi ac awdurdodi swyddog bwyd arweiniol a chanddo'r wybodaeth, y cymwysterau a'r hyfforddiant arbenigol sy'n ofynnol. Roedd swyddog bwyd anifeiliaid arweiniol wedi'i benodi a'i awdurdodi hefyd o dan y ddeddfwriaeth bwyd anifeiliaid briodol.
- 5.7 Archwiliwyd awdurdodiadau, asesiadau cymhwysedd, cymwysterau a chofnodion hyfforddiant 10 swyddog a oedd yn ymwneud â darparu

rheolaethau swyddogol yn ystod y ddwy flynedd flaenorol ar draws y gwasanaethau hylendid bwyd, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid.

- 5.8 O ran hylendid bwyd a safonau bwyd, roedd y cofnodion ar gyfer saith o naw swyddog yn darparu tystiolaeth o gymwysterau a oedd yn gyson â'u hawdurdodiadau a'u hasesiadau cymhwysedd. Roedd gan un o'r ddau swyddog a oedd yn weddill gymwysterau priodol ar gyfer y dyletswyddau a gynhaliwyd, ond nid oedd yr awdurdod yn gallu darparu tystiolaeth o asesiad cymhwysedd. Nid oedd yr awdurdod yn gallu dangos bod gan yr ail o'r swyddogion hyn gymwysterau i gynnal rheolaethau swyddogol safonau bwyd na'i fod wedi cael asesiad cymhwysedd. Dywedwyd wrth yr archwilwyr bod y swyddog yn cael hyfforddiant strwythuredig er mwyn cynnal gwaith safonau bwyd a'i fod yn mynd i sefyll arholiadau ar ddiwedd 2013.
- 5.9 O ran bwyd anifeiliaid, roedd un swyddog nad oedd ganddo gymwysterau yn unol â'r Cod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid. Dywedwyd wrth yr archwilwyr bod gwaith y swyddog wedi'i gyfyngu i gasglu gwybodaeth a'i hadrodd yn ôl.
- 5.10 Roedd ail swyddog bwyd anifeiliaid, a oedd hefyd yn gymwys i gynnal gwaith safonau bwyd, yn gymwys i gynnal gwaith gorfodi bwyd anifeiliaid ar lefelau 1 a 2.
- 5.11 Roedd trydydd swyddog yn ymgymryd â hyfforddiant strwythuredig i gynnal gwaith bwyd anifeiliaid ar lefel 1. Nid oedd y swyddog hwn wedi cynnal rheolaethau swyddogol.
- 5.12 Nid oedd yr awdurdod wedi awdurdodi unrhyw swyddogion o dan sawl darn o ddeddfwriaeth allweddol yn ymwneud â diogelwch bwyd a rheoli clefydau heintus, y rhoddyd manylion amdanynt i'r Rheolwr Diogelu'r Cyhoedd.
- 5.13 Nid oedd yr awdurdod yn gallu darparu tystiolaeth o hyfforddiant priodol nac asesiad cymhwysedd ar gyfer un swyddog a oedd wedi cynnal rheolaethau swyddogol mewn sefydliadau cymeradwy, na bod swyddog arall yr oedd yr awdurdod yn ystyried ei fod yn gymwys i gynnal ymweliadau hylendid bwyd risg uwch, wedi derbyn hyfforddiant HACCP (Dadansoddi Peryglon a Phwynt Rheoli Critigol).

- 5.14 Nid oedd unrhyw dystiolaeth fod swyddogion a oedd wedi cynnal gwaith safonau bwyd wedi derbyn hyfforddiant mewn alergenau.
- 5.15 Roedd yr holl swyddogion perthnasol wedi derbyn hyfforddiant cysondeb Atodiad 5 ac wedi dilyn hyfforddiant ar Ganllaw Rheoli Croeshalogiad yr Asiantaeth.
- 5.16 Roedd cofnodion hyfforddiant wedi'u cynnal gan yr awdurdod. Canfu adolygiad o hyfforddiant swyddogion fod pawb ond un swyddog wedi derbyn y 10 awr ofynnol o hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus y flwyddyn, fel sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.
- 5.17 Roedd yr Asiantaeth Safonau Bwyd wedi awdurdodi 14 o swyddogion yr awdurdod o dan Ddeddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd 1985. Sylwodd yr archwilyr mai dim ond wyth o'r rhain oedd yn cael eu cyflogi gan yr awdurdod ar adeg yr archwiliad. Nid oedd yr Asiantaeth wedi cael gwybod am y newidiadau hyn.
- 5.18 Roedd cyfyngiadau cyllidebol a osodwyd yn 2012/13 wedi arwain at gollu Swyddog Safonau Masnach a'r swydd Rheolwr Bwyd ac Iechyd a Diogelwch. Roedd hyn wedi effeithio ar allu'r awdurdod i ddarparu gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid effeithiol. Ar adeg yr archwiliad, roedd contractwr wedi'i gyflogi ar sail ran-amser, tymor byr i gyflawni rheolaethau swyddogol o ran safonau bwyd a bwyd anifeiliaid. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn ddigonol i ymdrin â'r ôl-groniad sylweddol o ymyriadau ac i gyflawni'r Cynlluniau Gwaith Safonau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid a oedd wedi'u datblygu. Yn ogystal, roedd colli'r swydd Rheolwr Bwyd ac Iechyd a Diogelwch yn golygu nad oedd digon o waith monitro mewnol yn cael ei wneud o ansawdd y gwasanaeth gorfodi hylendid bwyd ac nid oedd diffygion yn y gwasanaeth a ddarparwyd wedi'u hamlygu.

### ***Argymhellion***

- 5.19 Dylai'r awdurdod:
- (i) Adolygu a diwygio'r cynllun dirprwyo i sicrhau bod yr holl ddeddfwriaeth berthnasol wedi'i chynnwys ac yn gyfredol. [Y Safon – 5.1]



- (ii) Sicrhau bod yr holl swyddogion sy'n cynnal rheolaethau swyddogol wedi'u hawdurdodi'n briodol, ac adolygu, diwygio a gweithredu ei weithdrefn gofnodedig ar gyfer awdurdodi swyddogion er mwyn:
- (a) Nodi dynodiad y swyddog awdurdodi;
  - (b) Nodi bod swyddogion anawdurdodedig wedi'u gwahardd rhag cynnal unrhyw weithgareddau y mae awdurdodiad yn ofynnol ar eu cyfer gan y Codau Ymarfer.
  - (c) Sicrhau bod cymwyseddau swyddogion yn cael eu hasesu a'u cofnodi yn unol â'r weithdrefn awdurdodi.

[Y Safon – 5.1]

- (iii) Adolygu a diweddau'r matrices '*Asesu Cymhwysedd*' i gynnwys yr holl ddeddfwriaeth berthnasol a chosbau rheoleiddiol. [Y Safon – 5.1]
- (iv) Adolygu awdurdodiadau swyddogion i sicrhau eu bod yn gyson â'u cymwysterau, hyfforddiant, profiad a'r Codau Ymarfer perthnasol. [Y Safon – 5.3]
- (v) Sicrhau bod swyddogion awdurdodedig yn derbyn yr hyfforddiant sy'n ofynnol i fod yn gymwys i gyflawni agweddau technegol y gwaith y byddant yn ymwneud ag ef, yn unol â'r Codau Ymarfer. [Y Safon – 5.4]
- (vi) Hysbysu'r Asiantaeth Safonau Bwyd am staff a awdurdodwyd o dan Ddeddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd 1985, ond nad ydynt yn cael eu cyflogi gan yr awdurdod mwyach. [Y Safon – 18.1]
- (vii) Penodi nifer ddigonol o swyddogion awdurdodedig i gynnal y gwaith a amlinellwyd yn y cynllun darparu gwasanaeth. [Y Safon – 5.3]

## 6 Cyfleusterau ac Offer

- 6.1 Roedd gan yr awdurdod y cyfleusterau a'r offer angenrheidiol i ddarparu'r gwasanaeth hylendid bwyd yn effeithiol. Roedd rhai eitemau a ddefnyddir yn anaml nad oeddent yn cael eu cadw mewn stoc ar gael ar gais gan y labordy bwyd a dŵr.
- 6.2 Yn gyffredinol, nid oedd y cyfleusterau a'r offer sy'n ofynnol ar gyfer samplu bwyd anifeiliaid a safonau bwyd ar gael. Dywedwyd wrth yr archwilwyr bod gan yr awdurdod drefniadau anffurfiol wedi'u sefydlu ag awdurdodau cyfagos i ymgymryd â samplu ar ei ran pan fo angen. Trafododd yr archwilwyr fanteision ffurfioli'r trefniant hwn.
- 6.3 Roedd gweithdrefn ar gyfer cynnal a chadw a graddnodi offer wedi'i datblygu er mwyn sicrhau bod offer fel oergelloedd a thermomedrau yn cael eu cynnal a'u cadw'n gywir, eu graddnodi fel y bo'r angen ac yn cael eu symud o wasanaeth pe ganfyddid eu bod yn ddiffygiol. Roedd amllderau profi a lefelau goddefiant wedi'u datgan yn benodol ynghyd â'r camau i'w cymryd pe byddent yn cael eu torri.
- 6.4 Roedd swyddogion awdurdodedig yn gyfrifol am sicrhau bod yr offer a ddyrannwyd iddynt yn cael ei raddnodi bob mis a bod cofnodion graddnodi'n cael eu cynnal, ac offer diffygiol yn cael ei symud o wasanaeth. Roedd y swyddog cymorth gweinyddol yn gyfrifol am sicrhau bod yr offer rhewi'n cael ei wirio bob wythnos a bod cofnodion yn cael eu cadw. Ddwywaith y flwyddyn, roedd hanner yr offer yn cael ei anfon i'r labordy ar gyfer proses raddnodi flynyddol, gan felly sicrhau bod rhywfaint o offer yn dal i fod ar gael i'w ddefnyddio.
- 6.5 Roedd swyddogion wedi cael thermomedrau is-goch a thermomedrau profi. Dywedodd y staff nad oedd thermomedr cyfeirio ar gael, ond bod capiau profi hunanraddnodi'n cael eu defnyddio.
- 6.6 Dewiswyd pum eitem yr oedd angen eu graddnodi o restr o'r offer a ddaliwyd ar y ffeil raddnodi. Sylwyd nad oedd cofnodwyr tymheredd wedi'u cynnwys yn y rhestr ac nad oedd swyddogion wedi llofnodi wrth fynd â rhai darnau o offer, yn groes i'r weithdrefn. Yn gyffredinol, roedd gan yr offer monitro tymheredd a ddefnyddiwyd at ddibenion gorfodi dystysgrifau graddnodi dilys ac roedd cofnodion priodol wedi'u cymryd. Nid oedd tystysgrif raddnodi ar gael ar gyfer un thermomedr is-goch, ac

roedd un o'r capiau profi misol heb ei raddnodi gan labordy yn ystod y tair blynedd cyn yr archwiliad.

- 6.7 Nid oedd cofnodion ar gael i ddangos bod gwiriadau misol gan ddefnyddio capiau profi na gwiriadau wythnosol o offer rhewi wedi'u cynnal.
- 6.8 Roedd gan yr awdurdod system gyfrifiadurol a oedd yn cael ei defnyddio i gynnal y cronfeydd data safleoedd bwyd a bwyd anifeiliaid.
- 6.9 Roedd Swyddog Cymorth Busnes yn sefydlu defnyddwyr newydd ar y system ac yn darparu gwybodaeth reoli ac adroddiadau perfformiad, yn ogystal â chymorth hollbwysig wrth ddarparu data ar gyfer ffurflen LAEMS yr Asiantaeth.
- 6.10 Roedd y system gyfrifiadurol yn gallu lanlwytho data hylendid bwyd yn awtomatig i LAEMS, ac yn 2012/13 roedd y ffurflen LAEMS ar gyfer hylendid bwyd wedi'i darparu i'r Asiantaeth Safonau Bwyd mewn modd amserol.
- 6.11 Roedd data safonau bwyd wedi'i gyflwyno i'r Asiantaeth Safonau Bwyd â llaw gan nad oedd yr awdurdod wedi gallu lanlwytho'r data yn awtomatig i LAEMS. Roedd *'gwaith i alluogi system lle y gellir lanlwytho data safonau bwyd yn awtomatig i'r Asiantaeth Safonau Bwyd trwy'r llwybr LAEMS'* wedi'i amlygu fel maes i'w wella yng Nghynllun Gwasanaeth 2013/14.
- 6.12 Yn 2011/12, roedd y ffurflen bwyd anifeiliaid flynyddol wedi'i chyflwyno i'r Asiantaeth Safonau Bwyd. Ar adeg yr archwiliad, roedd ffurflen 2012/13 yn cael ei pharatoi gan y Rheolwr Safonau Masnach Dros Dro.
- 6.13 Roedd y system gyfrifiadurol wedi'i diogelu gan gyfrinair i atal unigolion anawdurdodedig rhag cael mynediad at y system.
- 6.14 Roedd systemau wrth gefn priodol wedi'u sefydlu i leihau cymaint â phosibl ar y risg o golli gwybodaeth o'r gronfa ddata a ffeiliau electronig a ddefnyddiwyd i gadw gwybodaeth allweddol.

### ***Argymhellion***

6.15 Dylai'r awdurdod:

- (i) Sicrhau bod offer yn cael ei gynnal a'i gadw a'i raddnodi'n briodol. I gefnogi'r dasg hon, dylid cynnal a gweithredu'r weithdrefn gofnodedig ar gyfer cynnal a chadw a graddnodi, gan gynnwys cofnodion graddnodi a gwiriadau eraill. [Y Safon – 6.2]
- (ii) Gweithredu'r gronfa ddata safleoedd a chymryd unrhyw gamau angenrheidiol i sicrhau bod modd darparu gwybodaeth ddibynadwy am safonau bwyd i'r Asiantaeth Safonau Bwyd. [Y Safon – 6.3]

## **7 Ymyriadau ac Arolygiadau Sefydliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid**

### ***Hylendid Bwyd***

- 7.1 Roedd Cynllun Gwasanaeth yr awdurdod ar gyfer 2013/14 yn datgan ar 1 Ebrill 2013 bod 1,117 o fusnesau bwyd cofrestredig yn ei ardal.
- 7.2 Yn 2012/13, roedd yr awdurdod wedi adrodd drwy LAEMS bod 85.49% o fusnesau bwyd categori A-E y dylid bod wedi'u harolygu wedi cael eu harolygu, a bod 94.60% o fusnesau bwyd yn 'cydymffurfio'n gyffredinol' â chyfraith hylendid bwyd (ac eithrio busnesau heb eu sgorio a'r rhai hynny y tu allan i gwmpas y cynllun sgorio risg). Roedd hyn 2.7% yn well na'r 91.92% o fusnesau yr adroddwyd eu bod yn 'cydymffurfio'n gyffredinol' yn y flwyddyn flaenorol.
- 7.3 Roedd yr awdurdod wedi datblygu ystod eang o weithdrefnau cofnodedig yn ymdrin ag arolygiadau bwyd, ailymweliadau, busnesau newydd, strategaethau gorfodi amgen a chymeradwyo sefydliadau penodol i gynnyrch; roeddent i gyd yn cyfeirio at ddeddfwriaeth berthnasol ac yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau perthnasol a gyhoeddir yn ganolog. Diben y dogfennau hyn oedd sefydlu dull unffurf o gynnal yr ystod o ymyriadau hylendid bwyd yr ymgwymerir â hwy gan yr awdurdod.
- 7.4 Sylwodd yr archwilyr fod yr awdurdod wedi mabwysiadu dull seiliedig ar risg o reoli ei raglen arolygiadau cynlluniedig. Ar adeg yr archwiliad, roedd 297 o arolygiadau sefydliadau bwyd yn hwyr, yr oedd 44 ohonynt yn rhai risg uwch. Roedd y safleoedd risg uwch hyn i fod i gael arolygiad yn y ddau fis cyn yr archwiliad. Roedd gweddill yr arolygiadau hwyr yn ymwneud â sefydliadau risg is, yr oedd rhai ohonynt heb fod yn destun ymyrraeth yn ystod y pum mlynedd diwethaf.
- 7.5 Roedd system wedi'i datblygu ar gyfer rheoli ymyriadau mewn busnesau newydd yn rhagweithiol, a oedd yn cynnwys llunio adroddiad bob pythefnos i amlygu busnesau newydd ar gronfa ddata'r awdurdod i'w dyrannu i swyddogion ar gyfer arolygiad. Roedd hyn wedi bod yn llwyddiannus o ran sicrhau bod busnesau newydd yn cael sgôr risg mewn modd amserol. Fodd bynnag, amlygwyd yn ystod yr archwiliad bod rhai sefydliadau gwely a brechwast wedi cael sgôr risg heb arolygiad, yn groes i'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.

- 7.6 Roedd yr awdurdod wedi datblygu Ffurflen Arolygu Hylendid Bwyd gyffredinol, Ffurflen Arolygu Safleoedd Risg Isel a Thaflen Crynodeb o Adroddiad Arolygu. Roedd ffurflenni arolygu wedi'u cynhyrchu ar gyfer safleoedd pysgod, cig a chynnyrch llaeth cymeradwy hefyd.
- 7.7 Edrychwyd ar ffeiliau 10 safle bwyd yn ystod yr archwiliad. Roedd eu hanes arolygu'n cadarnhau, yn y blynyddoedd diweddar, bod cyfran arwyddocaol ohonynt heb gael eu harolygu ar yr amllder sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Roedd safleoedd risg uwch wedi cael eu harolygu hyd at dri mis ar ôl y dyddiadau y dylent fod wedi cael eu harolygu, ac roedd arolygiad safle categori D mwy na 3 blynedd yn hwyr. Mae'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd yn mynnu bod ymyriadau'n cael eu cynnal o fewn 28 niwrnod o'r dyddiadau pryd y dylid eu cynnal.
- 7.8 Er bod cofnodion arolygu'n ddarllenadwy, sylwodd yr archwilwyr nad oedd swyddogion wedi llenwi'r ffurflenni arolygu'n llawn mewn wyth o'r 10 achos. Roedd yr hepgoriadau'n cynnwys gwybodaeth yn ymwneud ag asesiad swyddogion o gydymffurfiaeth â gweithdrefnau yn seiliedig ar egwyddorion Dadansoddi Peryglon a Phwyntiau Rheoli Critigol (HACCP), a gwybodaeth annigonol i gadarnhau bod trafodaethau yn ymwneud â monitro Pwyntiau Rheoli Critigol wedi'u cynnal a bod swyddogion wedi cynnal gwiriadau bwyd wedi'i fewnforio neu iechyd/nod adnabod ar ddeunyddiau crai.
- 7.9 Sylwodd yr archwilwyr, mewn pedwar o bum achos lle y nodwyd tramgwyddau o bwys neu faterion parhaus difrifol, nad oedd manylion wedi'u cofnodi yn adran 'materion o bwys' y ffurflen arolygu. Arweiniodd dri o'r achosion hyn at gyflwyno Hysbysiadau Gwella Hylendid.
- 7.10 Mewn saith achos, roedd y cofnodion yn cadarnhau bod swyddogion wedi cynnal asesiad priodol o effeithiolrwydd rheolaethau croeshalogi. Yn y tri achos a oedd yn weddill, roedd y cofnodion yn annigonol i ddangos bod swyddogion wedi rhoi ystyriaeth lawn i gydymffurfiaeth y busnes o ran diogelu bwyd rhag risgiau croeshalogi.
- 7.11 Roedd y sgoriau risg a roddwyd i safleoedd yn gyson â chanfyddiadau'r arolygiadau mewn saith o'r 10 achos. Mewn tri achos, ar sail yr wybodaeth a oedd ar gael, roedd sgoriau risg anghywir wedi'u rhoi. Roedd hyn yn golygu, mewn dau o'r achosion hyn, y byddai'r safle'n cael ymyriadau'n llai aml nag sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.

- 7.12 Sylwodd yr archwilwyr, mewn chwech o'r 10 sefydliad bwyd lle'r oedd sgoriau risg wedi'u gostwng yn dilyn ymyriadau, nad oedd esboniadau wedi'u rhoi dros y newidiadau. Yn ogystal, nid oedd tystiolaeth ar gael i gadarnhau bod trafodaethau wedi'u cynnal gyda swyddog arall ag awdurdodiad priodol neu reolwr perthnasol ynglŷn â'r sgoriau risg diwygiedig, yn groes i'r Weithdrefn Arolygiadau Bwyd ac Iechyd a Diogelwch.
- 7.13 Roedd y Weithdrefn Ailymweliadau Arolygiad Bwyd yn datgan, yn gyffredinol, y bydd unrhyw fusnes bwyd yr asesir nad yw'n 'cydymffurfio'n gyffredinol' â deddfwriaeth hylendid bwyd yn cael ailymweliad. O ran y 10 achos a archwiliwyd, nid oedd angen ailymweliad ar dri safle. Lle'r oedd angen ailymweliadau, roedd tystiolaeth ar gael mewn tri achos i gadarnhau bod y rhain wedi'u cynnal, ond nid oedd dau o'r ailymweliadau hyn wedi'u cynnal o fewn yr amserlen a nodwyd yng ngweithdrefn yr awdurdod. O ran y pedwar achos a oedd yn weddill, nid oedd unrhyw dystiolaeth ar gael i gadarnhau bod yr ailymweliadau a oedd yn ofynnol wedi'u cynnal.
- 7.14 Nid oedd swyddogion wedi cymryd camau dilynol priodol, yn unol â Pholisi Gorfodi'r awdurdod, mewn pedwar achos lle yr amlygwyd diffyg cydymffurfio. Mewn un o'r achosion hyn, roedd Hysbysiad Gwella Hylendid wedi'i gyflwyno mewn perthynas â threfniadau diogelwch bwyd annigonol, ond nid oedd unrhyw gofnod bod gwiriad wedi'i gynnal i gadarnhau bod y gwaith a oedd yn ofynnol wedi'i gwblhau'n foddhaol ar ôl i gyfnod yr hysbysiad ddod i ben.
- 7.15 Roedd yr awdurdod wedi datgan cyn yr archwiliad bod 13 sefydliad cymeradwy yn ei ardal. Archwiliwyd cofnodion naw o'r rhain. Sylwodd yr archwilwyr, yn gyffredinol, fod y ffeiliau wedi'u trefnu'n dda a bod y rhan fwyaf o'r wybodaeth sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog ar gael. Fodd bynnag, nid oedd crynodeb ar gael yn ffeiliau tri o'r sefydliadau, ac roedd dogfennau, gan gynnwys cynlluniau amrywiol, a rhestrau cyflenwyr a chynhyrchion ar goll mewn achosion eraill.
- 7.16 Roedd hanes arolygu'r sefydliadau cymeradwy yn cadarnhau, yn y blynyddoedd diweddar, bod tri o'r naw heb gael arolygiad ar yr amllder sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Roedd un, sef sefydliad categori B, wedi'i arolygu rhyw dri mis ar ôl y dyddiad y dylai fod wedi cael ei arolygu. Yn ogystal, roedd sefydliad categori C a sefydliad

categori E wedi cael eu harolygu mwy nag 11 a 18 mis ar ôl y dyddiadau y dylent fod wedi cael eu harolygu. Ni roddodd yr awdurdod unrhyw esboniad dros yr oedi hwn.

- 7.17 Roedd ffurflenni arolygu 'penodol i gynnyrch' priodol wedi'u defnyddio ar gyfer arolygiadau sefydliadau cymeradwy ym mhob un ond tri o'r achosion. Fodd bynnag, nid oedd yr wybodaeth a gofnodwyd bob amser yn ddigonol i gadarnhau graddau llawn yr asesiad o gydymffurfiaeth â gweithdrefnau yn seiliedig ar egwyddorion HACCP, bod nodau adnabod ar ddeunyddiau crai wedi'u hystyried gan swyddogion yn ystod arolygiadau nac i bennu a oedd hyfforddiant wedi'i asesu.
- 7.18 Sylwodd yr archwilwyr nad oedd canlyniadau samplu deunyddiau crai yn cael eu cadw ar ffeil ac, mewn tri o naw achos, nad oedd labeli cynnyrch ar gael a oedd yn dangos y nod adnabod.
- 7.19 Roedd cymeradwyaeth wedi'i rhoi mewn modd amserol a phriodol. Fodd bynnag, sylwodd yr archwilwyr fod y ddogfen gymeradwyo a oedd yn ymwneud â chwmni cyfyngedig wedi'i hanfon i'r cyfeiriad lleol yn hytrach na chyfeiriad y cwmni cofrestredig.
- 7.20 Roedd y sgoriau risg a roddwyd i sefydliadau cymeradwy yn gyson â chanfyddiadau'r arolygiad. Mewn un achos, nid oedd y sgôr risg yn adlewyrchu natur gweithgareddau bwyd y busnes, ond nid oedd hyn yn effeithio ar gategori risg cyffredinol y busnes.
- 7.21 Roedd strategaeth orfodi amgen yr awdurdod ar gyfer safleoedd categori E yn datgan mai ei nod oedd lleihau cymaint â phosibl ar nifer yr ymweliadau â busnesau bwyd risg isel. Roedd y strategaeth yn unol â gofynion y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanfuwyd ei bod yn ddigon manwl i gasglu'r wybodaeth sy'n ofynnol.
- 7.22 Archwiliwyd y cofnodion ar gyfer naw safle a fu'n destun strategaethau gorfodi amgen, a oedd yn cynnwys holiaduron post a gwblhawyd gan weithredwyr busnes bwyd. Sylwodd yr archwilwyr fod y strategaeth wedi'i chymhwyso'n amhriodol i fusnesau newydd nad oeddent wedi cael prif arolygiad nac wedi cael sgôr risg yn flaenorol. Yn ogystal, roedd safleoedd wedi cael sgôr risg ar sail gwybodaeth a roddwyd yn yr holiadur.



7.23 Mewn pum achos, roedd y manylion a roddwyd mewn perthynas â 'gweithgareddau bwyd' a 'sylfaen gwsmeriaid' yn awgrymu bod gwaith dilynol yn ofynnol ond nad oedd wedi'i wneud.

### ***Argymhellion***

7.24 Dylai'r awdurdod:

- (i) Sicrhau bod ymyriadau/arolygiadau hylendid bwyd yn cael eu cynnal ar yr amllder sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1]
- (ii) Amlygu pob sefydliad sydd wedi cael sgôr risg heb arolygiad llawn, arolygiad rhannol nac archwiliad, a'u blaenoriaethu ar gyfer arolygiad; cynnal ymyriadau/arolygiadau hylendid, a chymeradwyo sefydliadau yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 7.2]
- (iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau yn ei ardal â'r safonau a ragnodwyd yn gyfreithiol; a chymryd camau priodol ynglŷn ag unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth a ganfyddir, yn unol â Pholisi Gorfodi'r awdurdod. [Y Safon – 7.3]
- (iv) Rhoi gweithdrefnau cofnodedig ar waith yn llawn ar gyfer yr ystod o ymyriadau/arolygiadau y mae'n eu cynnal. [Y Safon – 7.4]
- (v) Sicrhau bod arsylwadau a wneir wrth gynnal ymyrraeth/arolygiad yn cael eu cofnodi mewn modd amserol er mwyn atal colli gwybodaeth berthnasol. [Y Safon – 7.5]

### ***Ymweliadau Dilysu Hylendid Bwyd â Safleoedd Bwyd***

7.25 Yn ystod yr archwiliad, cynhaliwyd dau ymweliad dilysu â sefydliadau bwyd gyda'r swyddogion awdurdodedig a gynhaliodd yr arolygiadau hylendid bwyd diwethaf. Prif amcan yr ymweliadau oedd asesu effeithiolrwydd asesiad yr awdurdod o gydymffurfiaeth busnes bwyd â gofynion cyfraith bwyd.

- 7.26 Roedd gan y swyddogion lawer o wybodaeth am y safleoedd, ac roeddent yn dangos dealltwriaeth o'r risgiau diogelwch bwyd sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau yn y safleoedd. Yn gyffredinol, roedd y swyddogion wedi cynnal arolygiadau trylwyr ac wedi asesu'n briodol cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog, ac roeddent yn cynnig cyngor defnyddiol i'r gweithredwyr busnes bwyd.
- 7.27 Yn ystod un o'r ymweliadau, trafododd yr archwilydd gyda'r swyddog yr angen i ystyried gweithdrefnau'r busnes o ran golchi eitemau salad a allai fod wedi'u halogi.

### ***Safonau Bwyd***

- 7.28 Roedd gan yr awdurdod raglen ymyriadau safonau bwyd ar gyfer 2013/14 a oedd wedi'i manylu yn y Cynllun Gwasanaeth. Roedd rhyw 83 o arolygiadau wedi'u cynllunio – wyth ar gyfer sefydliadau risg uchel, 45 ar gyfer sefydliadau risg ganolig a 30 ar gyfer sefydliadau risg isel. Nid oedd y trefniadau a gynlluniwyd yn cydymffurfio â gofynion y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.
- 7.29 Yn 2012/13, roedd yr awdurdod wedi adrodd drwy LAEMS bod un ymyrraeth categori A, 414 ymyrraeth categori B a 680 ymyrraeth categori C yn hwyr ar gyfer safonau bwyd.
- 7.30 Roedd y Cynllun Gwaith Safonau Bwyd ar gyfer 2013/14, a ddatblygwyd yn ychwanegol at y Cynllun Gwasanaeth, yn cynnwys targed i *'arolygu ac asesu risg o ran safonau bwyd ym mhob busnes newydd'* a dangosydd perfformiad cyfatebol i *'ddatblygu holiadur busnes newydd fel bod busnesau newydd yn cael cysylltiad gan y TSS'*.
- 7.31 Er bod yr awdurdod wedi datblygu Gweithdrefn Ailymweld ar gyfer safonau bwyd, nid oedd wedi datblygu polisïau a gweithdrefnau ehangach ar ymyrraeth.
- 7.32 Roedd yr awdurdod yn defnyddio Cynllun Asesu Risg Safonau Masnach 2004 LACORS ar gyfer safonau bwyd. Nid oedd bob amser yn bosibl pennu a oedd y sgoriau risg a roddwyd i fusnesau yn ymwneud ag elfen safonau bwyd y busnes neu ryw fath arall o weithgarwch Safonau

Masnach. O ganlyniad, mae'n bosibl nad oedd amlder ymyriadau'n briodol i'r gweithgareddau safonau bwyd a oedd yn cael eu cynnal.

- 7.33 Roedd cymorth cof wedi'i ddatblygu ar gyfer arolygiadau yn seiliedig ar Gymorth Cof Gweithgynhyrchu LACORS. Nid oedd yr awdurdod yn gallu dangos bod system ar waith i alluogi swyddogion i amlygu unrhyw bryderon i'w hystyried yn yr ymyrraeth nesaf. Gallai hyn effeithio ar allu swyddogion i ymgymryd â gorfodi graddoledig yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.
- 7.34 Nid oedd yn bosibl sefydlu a oedd arolygiadau wedi bod yn ddirybudd.
- 7.35 Roedd ffurflenni cofrestru ar gael yng nghofnodion saith o'r naw sefydliad bwyd a archwiliwyd, er nad oedd pedwar yn cynnwys y dyddiad yn unol â gofynion y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Nid oedd chwe sefydliad wedi cael ymyriadau ar yr amlder sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, ac mewn dau achos nid oedd digon o wybodaeth ar gael i bennu a oedd ymyriadau wedi'u cynnal ar yr amlder sy'n ofynnol.
- 7.36 Roedd yr awdurdod wedi darparu taenlen cyn yr archwiliad a oedd yn manylu'r sgoriau risg a roddwyd i bob sefydliad ar ei gronfa ddata safonau bwyd ar adeg yr arolygiad diwethaf. Mewn pedwar o'r naw sefydliad a ddewiswyd ar gyfer yr archwiliad, nid oedd y sgoriau risg o'r arolygiadau diweddaraf ar gael ar y gronfa ddata safleoedd nac ar ffeiliau copi caled. Dywedwyd wrth yr archwilwyr bod y sefydliadau hyn wedi cael asesiad risg bwrdd gwaith a bod yr wybodaeth wedi'i chofnodi ar y daenlen â llaw. Mewn tri achos arall, sefydlwyd bod sgoriau risg safonau bwyd wedi'u rhoi i sefydliadau gan swyddog gweinyddol heb fod arolygiad llawn, arolygiad rhannol nac archwiliad wedi'i gynnal, yn groes i'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.
- 7.37 Mewn pump o'r naw achos, nid oedd cofnodion cyfoes swyddogion o arolygiadau yn cael eu storio mewn modd a oedd yn golygu y gallai pobl eraill gael gafael arnynt. Roedd swyddogion yn cadw copïau caled o gofnodion ymyrraeth yn eu desgiau neu'n eu cadw'n electronig mewn ffeiliau personol. Dywedwyd wrth yr archwilwyr nad oedd modd adalw cofnodion ymyriadau a gynhaliwyd gan swyddog a oedd wedi gadael yr awdurdod. Byddai hyn yn ei gwneud hi'n anodd i swyddogion dilynol ddangos dull graddoledig o orfodi.

- 7.38 Yn gyffredinol, nid oedd digon o wybodaeth yn cael ei chasglu yn ystod arolygiadau. Felly, nid oedd yn bosibl pennu a oedd swyddogion wedi asesu cydymffurfiaeth busnes yn ddigonol â safonau a ragnodwyd yn gyfreithiol. Roedd yr wybodaeth a oedd ar goll o ffurflenni arolygu yn cynnwys manylion cyflenwyr a chwsmeriaid, cadarnhad o olrheiniadwyedd a manylion trefniadau galw yn ôl/tynnu'n ôl.
- 7.39 Roedd cofnodion arolygu yn ymwneud â'r arolygiadau mwyaf diweddar ar gael mewn pedwar achos. Roedd y cofnodion yn ddarllenadwy ym mhob un o'r pedwar achos. Fodd bynnag, mewn tri o'r achosion, nid oedd camau dilynol priodol wedi'u cymryd mewn perthynas â labelu, olrheiniadwyedd a throedd bosibl yn ymwneud â pheccynnu.

### ***Argymhellion***

- 7.40 Dylai'r awdurdod:
- (i) Sicrhau bod ymyriadau safonau bwyd yn cael eu cynnal ar amlder nad yw'n llai na hwnnw a bennir o dan y cynllun sgorio ymyrraeth a amlinellir yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1]
  - (ii) Amlygu pob sefydliad sydd wedi cael sgôr risg heb arolygiad llawn, arolygiad rhannol nac archwiliad, a'u blaenoriaethu ar gyfer arolygiad; cynnal ymyriadau/arolygiadau safonau bwyd yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, Codau Ymarfer a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 7.2]
  - (iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau a systemau â'r safonau a ragnodwyd yn gyfreithiol. [Y Safon – 7.3]
  - (iv) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefnau cofnodedig ar gyfer yr ystod o ymyriadau y mae'n eu cynnal. [Y Safon – 7.4]
  - (v) Sicrhau bod cofnodion cyfoes swyddogion o ymyriadau yn cael eu storio mewn ffordd sy'n golygu bod modd eu hadalw. [Y Safon – 7.5]

## *Ymweliadau Dilysu*

- 7.41 Yn ystod yr archwiliad, cynhaliwyd ymweliad dilysu â busnes gweithgynhyrchu bwyd gyda'r swyddog awdurdodedig a gynhaliodd yr arolygiad safonau bwyd diwethaf. Prif amcan yr ymweliad oedd asesu effeithiolrwydd asesiad yr awdurdod o gydymffurfiaeth busnes bwyd â gofynion cyfraith bwyd. Roedd gan y swyddog lawer o wybodaeth am y busnes ac, yn gyffredinol, roedd y cofnod o'r arolygiad yn ddigon manwl.

## ***Bwyd Anifeiliaid***

- 7.42 Roedd Cynllun Gwasanaeth yr awdurdod ar gyfer 2013/14 yn datgan bod cyfanswm o 1,082 o fusnesau bwyd anifeiliaid yn ei ardal a oedd yn destun ymyriadau bwyd anifeiliaid, ac nad oedd gan 779 ohonynt godau gweithgarwch cysylltiedig.
- 7.43 Nid oedd yn eglur o'r Cynllun Gwasanaeth sawl ymyrraeth bwyd anifeiliaid a oedd wedi'u cynllunio ar gyfer 2013/14. Datganwyd mai'r cyfanswm oedd 46, ond nid oedd hyn yn cyfateb i'r 91 a amlygwyd yn y dadansoddiad o broffil risg. Adroddodd yr awdurdod mewn gwybodaeth a ddarparwyd cyn yr archwiliad nad oedd unrhyw arolygiadau bwyd anifeiliaid wedi'u cynnal yn ystod 2012/13.
- 7.44 Yn y rhestr o sefydliadau bwyd anifeiliaid a ddarparwyd cyn yr archwiliad, roedd arolygiadau 494 yn hwyr ac roedd 91 heb gael sgôr. Fodd bynnag, amlygwyd yn ystod yr archwiliad nad oes llawer o hyder mewn sgoriau sefydliadau bwyd anifeiliaid o ganlyniad i'r defnydd o gynllun sgorio 2004 LACORS nad yw'n benodol i fwyd anifeiliaid, sy'n golygu bod sgoriau'n cael eu dosrannu ar sail arolygiadau nad ydynt yn ymwneud â bwyd anifeiliaid. Ni ellid canfod y nifer wirioneddol o sefydliadau bwyd anifeiliaid nad oeddent erioed wedi cael arolygiad, ond mae'n debygol bod nifer y sefydliadau sydd angen prif arolygiad yn fwy o lawer na'r 494 yr adroddwyd eu bod yn hwyr, a'r 91 yr adroddwyd eu bod heb gael sgôr.
- 7.45 Nid yw'r rhaglen o 91 arolygiad cynlluniedig ar gyfer 2013/14 yn ddigonol i ymdrin â'r ôl-groniad o arolygiadau a chydymffurfio â'r Cod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid.

- 7.46 Roedd yr awdurdod wedi mabwysiadu protocol yn ddiweddar ar gyfer arolygiadau bwyd anifeiliaid a oedd yn cyd-fynd yn gyffredinol â'r Cod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Bwyd. Fodd bynnag, roedd y protocol yn cyfeirio at arolygiadau lle rhoddwyd rhybudd o weithgynhyrchwyr bwyd anifeiliaid a chymysgwyr ar y fferm, sy'n groes i ofynion y Cod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid ac Erthygl 3 Rheoliad 882/2004. Nid oedd unrhyw bolisi na gweithdrefn wedi'u cofnodi ar ddefnyddio strategaethau gorfodi amgen mewn sefydliadau bwyd anifeiliaid.
- 7.47 Archwiliwyd ffeiliau naw sefydliad bwyd anifeiliaid a fu'n destun ymyrraeth. Roedd y cod ar gyfer degfed ffeil safle a ddewiswyd i'w harchwilio cyn yr archwiliad wedi'i gofnodi ar gam fel sefydliad bwyd anifeiliaid ar y gronfa ddata. Roedd arolygiadau bwyd anifeiliaid wedi'u cynnal gan swyddog a chanddo gymwysterau ac awdurdodiad priodol. Sylwyd y rhoddwyd rhybudd ar gyfer un o'r arolygiadau o weithgynhyrchwr bwyd anifeiliaid. Roedd chwech o'r naw busnes heb gael eu cofrestru, ac yn achos y tri a oedd wedi'u cofrestru, nid oedd dyddiad derbyn y ffurflen gofrestru ar gael.
- 7.48 Roedd pump o'r naw arolygiad a ddewiswyd ar gyfer yr archwiliad wedi'u cynnal ar yr amllder priodol, ond nid oedd hynny'n wir am un. O ran y tri a oedd yn weddill, nid oedd yn bosibl pennu a oedd y sgoriau risg a gofnodwyd ar y gronfa ddata yn ymwneud ag agweddau bwyd anifeiliaid y busnes neu ryw fath arall o weithgarwch Safonau Masnach.
- 7.49 Roedd y sgôr risg wedi'i phennu'n gywir ar gyfer pump o'r naw sefydliad. O ran yr achosion a oedd yn weddill, roedd sgoriau risg naill ai heb eu rhoi yn dilyn arolygiad, wedi'u darparu yn dilyn strategaeth orfodi amgen, neu, mewn dau achos ar sail y dystiolaeth a oedd ar gael, roedd sgoriau risg anghywir wedi'u rhoi.
- 7.50 Yn gyffredinol, nid oedd yn bosibl cadarnhau nac asesu cwmpas arolygiadau na bod arolygiadau priodol wedi'u cynnal ym mhob achos gan nad oedd swyddogion yn cynnal cofnodion digon manwl ar y ffurflenni arolygu, yn eu llyfrau nodiadau a/neu ar y gronfa ddata. Nid oedd pump o'r naw ffeil a archwiliwyd yn cofnodi maint a graddfa'r busnes na'r math o fusnes. Nid oedd wyth o'r naw ffeil yn cofnodi gwybodaeth am HACCP, hyfforddiant, cyfansoddiad, labelu, cyflwyniad, cyflenwyr nac olrheiniadwyedd.

- 7.51 Roedd camau dilynol wedi'u cymryd mewn perthynas ag un sefydliad ar ffurf llythyr. O ran sefydliad arall, roedd y ffurflen arolygu'n awgrymu y dylai camau dilynol gael eu cymryd. Nid oedd unrhyw dystiolaeth ar y ffeil fod unrhyw gamau dilynol wedi'u cymryd.
- 7.52 Yn gyffredinol, nid oedd yr wybodaeth a gasglwyd ar ffurflenni arolygu yn ddigon manwl i gynorthwyo i lywio arolygiadau dilynol, dull graddoledig a chyson o orfodi na monitro mewnol effeithiol.
- 7.53 Er nad oedd polisi na gweithdrefn cofnodedig ar ddefnyddio strategaethau gorfodi amgen mewn busnesau bwyd anifeiliaid, roedd rhaglen o ymweliadau strategaethau gorfodi amgen yn cael ei chynnal er mwyn casglu gwybodaeth am weithgareddau bwyd anifeiliaid; yn bennaf mewn busnesau cynhyrchu cynradd. Roedd yr awdurdod yn casglu gwybodaeth drwy adran fach yn ymwneud â bwyd anifeiliaid ar Ffurflen Arolygu Iechyd Anifeiliaid. Cynhaliodd yr archwilwyr drafodaeth gyda'r Swyddog Arweiniol ynglŷn â'u pryderon nad oedd hyn yn ddigonol i gasglu'r wybodaeth sy'n ofynnol er mwyn pennu a ddylai arolygiad cynradd gael ei gynnal.
- 7.54 Yn groes i'r Cod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid, roedd strategaethau gorfodi amgen wedi'u cymhwyso i sefydliadau nad oeddent wedi cael sgôr yn flaenorol yn dilyn arolygiad cynradd ac na ellid tybio o reidrwydd eu bod yn rhai risg isel. Yn ogystal, roedd safleoedd bwyd anifeiliaid wedi cael sgôr risg ar sail strategaethau gorfodi amgen, sydd hefyd yn groes i ofynion y Cod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid. Roedd un busnes a oedd yn destun strategaethau gorfodi amgen wedi'i amlygu fel cymysgydd ar y fferm, sy'n golygu bod angen iddo gael arolygiad cynradd gan swyddog cymwysedig, ond nid oedd arolygiad wedi'i gynnal. Roedd safle arall a oedd yn destun strategaethau gorfodi amgen wedi cael ymchwiliad yn dilyn cwyn ynghylch gwenwyn copr. O ystyried hanes y safle, roedd yr archwilwyr o'r farn y dylai hyn fod wedi ysgogi arolygiad cynradd. Yn ogystal, roedd y sefydliad hwn yn safle gweithgynhyrchu bwyd anifeiliaid, a oedd yn cael ei ystyried gan yr awdurdod ar gyfer cymeradwyaeth. Roedd yn annhebygol o fod yn safle risg isel nac yn addas ar gyfer strategaethau gorfodi amgen.

### **Argymhellion**

- 7.55 Dylai'r awdurdod:
- (i) Sicrhau bod ymyriadau ac arolygiadau sefydliadau bwyd anifeiliaid yn cael eu cynnal ar yr amllder a nodir yn y Cod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid. [Y Safon – 7.1]
  - (ii) Amlygu pob sefydliad sydd wedi cael sgôr risg heb arolygiad llawn, arolygiad rhannol nac archwiliad, a'u blaenoriaethu ar gyfer arolygiad; cynnal ymyriadau/arolygiadau a chymeradwyo neu gofrestru sefydliadau bwyd anifeiliaid yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, y Cod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 7.2]
  - (iii) Sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd ynglŷn ag unrhyw ddiffyg cydymffurfio a ganfyddir, yn unol â'i Bolisi Gorfodi. [Y Safon – 7.3]
  - (iv) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefnau cofnodedig ar gyfer yr ystod o ymyriadau/arolygiadau y mae'n eu cynnal; gan gynnwys strategaethau gorfodi amgen. [Y Safon – 7.4]
  - (v) Cofnodi arsylwadau a wneir a data a geir wrth gynnal ymyriadau mewn modd amserol er mwyn atal colli'r wybodaeth a sicrhau bod cofnodion cyfoes yn ddarllenadwy ac y gellir eu hadalw. [Y Safon – 7.5]

### *Ymweliad Dilysu â Sefydliad Bwyd Anifeiliaid*

- 7.56 Yn ystod yr archwiliad, cynhaliwyd ymweliad dilysu â busnes bwyd gyda'r swyddog awdurdodedig a gynhaliodd yr ymyrraeth bwyd anifeiliaid ddiwethaf yn y sefydliad. Prif amcan yr ymweliad oedd asesu effeithiolrwydd asesiad yr awdurdod o gydymffurfiaeth busnes bwyd anifeiliaid â gofynion cyfraith bwyd.
- 7.57 Roedd y swyddog yn gallu dangos digon o wybodaeth am y safle a'r gweithrediadau a wnaed yno. Roedd yn amlwg bod y swyddog yn gymwys i gynnal arolygiad bwyd anifeiliaid trylwyr. Roedd yr ymyrraeth wedi'i chofnodi fel ymweliad monitro ac nid oedd sgôr risg wedi'i rhoi.



Roedd nodyn ar gopi carbon y daflen ymweliad yn dangos y byddai arolygiad yn cael ei gynnal ym mis Medi 2013, er gwaethaf y ffaith y dylai arolygiad fod wedi cael ei gynnal ym mis Gorffennaf 2013 ac ymweliad ym mis Mehefin 2013. Nid oedd y ffeil yn cynnwys gwybodaeth allweddol am y busnes fel rhestrau cynhyrchion neu labeli cynhyrchion.

## **8 Cwynion am Fwyd, Bwyd Anifeiliaid a Sefydliadau Bwyd**

- 8.1 Roedd gan yr awdurdod weithdrefn gofnodedig ar gyfer ymdrin â chwynion am fwyd/bwyd anifeiliaid a safleoedd bwyd/bwyd anifeiliaid cysylltiedig.
- 8.2 Nid oedd y ffurflen ymchwilio a oedd wedi'i chynnwys yn y weithdrefn yn casglu gwybodaeth allweddol gan gynnwys dyddiad ac amser y gŵyn, er y nodwyd bod yr wybodaeth hon wedi'i chofnodi ar y gronfa ddata.
- 8.3 Roedd y weithdrefn yn datgan mai'r amser ymateb targed ar gyfer ymateb i gwynion oedd 'tri diwrnod'. Nid oedd yn eglur pa un a oedd hyn yn golygu tri diwrnod gwaith. Byddai'n ddefnyddiol pe byddai hyn yn cael ei egluro yn y weithdrefn.
- 8.4 Gofynnwyd am weld cofnodion 10 cwyn am hylendid bwyd, 10 cwyn am safonau bwyd a phob un o'r tri chŵyn am fwyd anifeiliaid a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol er mwyn eu harchwilio. Nid oedd cofnodion ar gael ynglŷn ag un o'r cwynion hylendid bwyd, ac roedd y cod ar gyfer cwyn arall wedi'i gofnodi ar gam fel cwyn safonau bwyd ar y gronfa ddata.

### ***Hylendid Bwyd***

- 8.5 Ymatebwyd i chwech o'r naw cwyn o fewn yr amser ymateb targed a chynhaliwyd ymchwiliadau priodol mewn pedwar achos.
- 8.6 Yn gyffredinol, roedd cofnodion cwynion yn cael eu cynnal ar y gronfa ddata safleoedd. Fodd bynnag, nid oedd gwybodaeth am gwynion yn bresennol yng nghopiâu caled saith ffeil sefydliad bwyd, yn groes i'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. Roedd hyn yn ei gwneud hi'n anodd i swyddogion amlygu gweithgarwch cwyno o bwys cyn ymyrraeth, gan eu bod yn dibynnu ar ffeiliau copi caled yn hytrach na'r gronfa ddata i gael gwybodaeth cyn cynnal ymyriadau. Mewn un achos, roedd diffyg cofnodion ar y ffeil a'r gronfa ddata yn ei gwneud hi'n anodd nodi a oedd cyswllt wedi'i wneud â'r cyflenwr/gweithgynhyrchwr neu a fu angen cymryd camau pellach.
- 8.7 Bu'n rhaid cymryd camau pellach mewn tri achos. Roedd y camau a gymerwyd yn yr achosion hyn yn briodol.

- 8.8 Nid oedd unrhyw gofnod i ddangos bod achwynwyr wedi cael gwybod am ganlyniad ymchwiliadau i gŵyn mewn pum achos.

### ***Safonau Bwyd***

- 8.9 O ran y naw cwyn a dderbyniwyd, ymatebwyd i dair o fewn yr amser ymateb targed, ond nid oedd hynny'n wir am dair arall. Yn y tri achos a oedd yn weddill, nid oedd dyddiad ymateb wedi'i nodi ar y cofnod.
- 8.10 Yn gyffredinol, roedd cofnodion cwynion wedi'u cynnal ar y gronfa ddata safleoedd. Nid oedd gwybodaeth am gwynion ar gael yng nghopiâu caled ffeiliau sefydliadau bwyd, yn groes i'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. Roedd hyn yn ei gwneud hi'n anodd i swyddogion amlygu gweithgarwch cwyno o bwys cyn ymyrraeth, gan eu bod yn gwirio'r ffeiliau hyn yn hytrach na'r gronfa ddata cyn cynnal ymyriadau. Mewn un achos, roedd diffyg cofnodion ar y ffeil a'r gronfa ddata yn ei gwneud hi'n anodd nodi a oedd cyswllt wedi'i wneud â'r cyflenwr/gweithgynhyrchwr neu'r awdurdod cartref. Mewn dau o'r naw achos, roedd absenoldeb gwybodaeth yn golygu nad oedd yn bosibl dangos bod ymchwiliadau priodol wedi'u cynnal na pha un a oedd angen cymryd unrhyw gamau pellach.
- 8.11 Mewn un achos yn ymwneud â'r posibilrwydd o dwyll bwyd, nid oedd yn ymddangos bod yr ymchwiliad yn briodol o ganlyniad i oedi cychwynnol o oddeutu pythefnos cyn ymateb, a hynny heb esboniad, ac oedi arall o sawl wythnos cyn cynnal ymweliad â'r safle. Nid oedd llawer o hyder yng nghanlyniad yr ymchwiliad hwn o ganlyniad i'r posibilrwydd y gallai tystiolaeth gael ei symud neu ei dinistrio. Mewn tri achos, nid oedd cofnodion o gwsmeriaid yn cael gwybod am ganlyniad ymchwiliadau, ac mewn achos arall nid oedd cofnod o'r cyflenwr yn cael gwybod am y canlyniad.

### ***Bwyd Anifeiliaid***

- 8.12 Roedd dwy gŵyn yn ymwneud â cheisiadau am gyngor ar lenwi ffurflenni. Nid oedd unrhyw wybodaeth ar y gronfa ddata nac ar ffeiliau papur i bennu a ymatebwyd i'r rhain mewn pryd neu a roddwyd ymateb boddhaol i'r cwsmer. Nid oedd unrhyw gofnod o'r canlyniad na pha un a roddwyd unrhyw gyngor.

- 8.13 Ymdriniwyd â'r drydedd gŵyn yn gywir ac mewn pryd, ond nid oedd unrhyw dystiolaeth ar gael ar y ffeil i ddangos bod y cwsmer neu'r masnachwr wedi cael gwybod am ganlyniad yr ymchwiliad.

***Argymhellion***

8.14 Dylai'r awdurdod:

- (i) Adolygu a diweddarau'r Weithdrefn Gwyno er mwyn rhoi arweiniad i swyddogion ar gasglu gwybodaeth allweddol. [Y Safon – 8.1]
- (ii) Ymchwilio i gwynion a dderbynnir yn unol â'r Codau Ymarfer, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a'i bolisi a'i weithdrefnau ei hun. [Y Safon – 8.2]

## **9 Cynllun y Prif Awdurdod a'r Egwyddor Awdurdod Cartref**

- 9.1 Roedd ymrwymiad yr awdurdod i Gynllun y Prif Awdurdod a'r Egwyddor Awdurdod Cartref wedi'i amlinellu yn y Cynllun Gwasanaeth.
- 9.2 Ar adeg yr archwiliad, nid oedd yr awdurdod yn gweithredu fel Prif Awdurdod ac nid oedd wedi derbyn unrhyw geisiadau i wneud hynny.
- 9.3 Roedd allbrint o system 'Interlink' Safonau Masnach yn ystod yr archwiliad yn cadarnhau bod yr awdurdod yn gweithredu fel Awdurdod Cartref ar gyfer wyth gweithgynhyrchwr bwyd lleol.
- 9.4 Roedd y cofnodion yr edrychwyd arnynt yn ystod yr archwiliad yn dangos bod yr awdurdod yn gweithredu'r Egwyddor Awdurdod Cartref, gan ymateb i geisiadau am wybodaeth gan fusnesau ac awdurdodau eraill.
- 9.5 Roedd ystyriaethau Prif Awdurdod wedi'u cynnwys mewn rhai gweithdrefnau gwaith, er enghraifft gweithdrefnau gorfodi. Yn ogystal, roedd swyddogion yn gallu cael mynediad at wefan y Prif Awdurdod a chronfa ddata'r Awdurdod Cartref, ac felly gallent ganfod cysylltiadau Prif Awdurdod, Awdurdod Cartref ac awdurdod lleol. Fodd bynnag, o'r ffeiliau a ystyriwyd yn ystod yr archwiliad, nid oedd yr archwilwyr yn gallu gweld tystiolaeth bod yr awdurdod, yn rhinwedd ei swyddogaeth fel awdurdod gorfodi, yn rhoi ystyriaeth i faterion Prif Awdurdod.

## 10 Cyngor i Fusnesau

- 10.1 Roedd yr awdurdod wedi bod yn rhagweithiol o ran rhoi cyngor i fusnesau ar hylendid bwyd, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid. Dangosodd ei ymrwymiad i gynorthwyo busnesau lleol i gydymffurfio â'r gyfraith drwy gyflwyno nifer o fentrau, a oedd yn cynnwys:
- Pecynnau cyngori i bob busnes newydd
  - Bod yn bresennol yn seminar Grŵp Busnes y Rhyl
  - Sesiynau cyngor busnes
  - Cylchlythyr chwemisol i fusnesau bwyd
  - Rhoi taflen Gwybodaeth am Fwyd Anifeiliaid i bob busnes bwyd anifeiliaid
- 10.2 Roedd yr awdurdod wedi gweithio gyda chynhyrchwr bwyd lleol mawr i ddarparu gwybodaeth a hyfforddiant i fusnesau bwyd lleol er mwyn paratoi ar gyfer newidiadau i ddeddfwriaeth labelu bwyd.
- 10.3 Roedd cyngor technegol yn cael ei roi i fusnesau yr oedd yn gweithredu fel Awdurdod Cartref ar eu cyfer.
- 10.4 Roedd cyngor busnes yn cael ei ddarparu ar wefan yr awdurdod, gan gynnwys gwybodaeth am:
- Reoli Diogelwch Bwyd
  - Sefydliadau Cymeradwy
  - Rhybuddion Bwyd
  - Cwynion am Fwyd
  - Samplu Bwyd
  - Cofrestru Safleoedd Bwyd
  - Arolygiadau Hylendid Bwyd
  - Cychwyn Busnes Bwyd
  - Y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Cenedlaethol
- 10.5 Roedd yr awdurdod wedi cael cyllid gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd i gynorthwyo busnesau i ddatblygu eu systemau rheoli diogelwch bwyd.
- 10.6 Roedd tystiolaeth fod cyngor yn cael ei roi i fusnesau yn ystod arolygiadau yn ogystal ag ar gais.

- 11 Cronfa Ddata Sefydliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid**
- 11.1 Roedd gan yr awdurdod weithdrefn gofnodedig wedi'i sefydlu i sicrhau bod ei gronfa ddata safleoedd hylendid bwyd yn gyfredol ac yn gywir.
- 11.2 Dewisodd yr archwilwyr 10 busnes bwyd ar hap o'r rhyngwyd a oedd wedi'u lleoli yn ardal yr awdurdod. Canfuwyd eu bod i gyd namyn un wedi'u cynnwys ar gronfa ddata safleoedd hylendid bwyd yr awdurdod. Roedd y sefydliad nad oedd ar y gronfa ddata wedi agor yn ddiweddar. O wirio, cadarnhawyd bod y safle wedi gweithredu fel busnes bwyd yn flaenorol, ond bod enw'r busnes a'r gweithredwr busnes bwyd wedi newid. Sylwodd yr archwilwyr y dylai'r busnes blaenorol fod wedi cael arolygiad cynlluniedig ym mis Medi 2013.
- 11.3 Nid oedd unrhyw weithdrefnau cofnodedig i sicrhau bod y cronfeydd data safonau bwyd a bwyd anifeiliaid yn cael eu cadw'n gyfredol ac yn gywir. Dewiswyd cyfanswm o 10 sefydliad safonau bwyd a naw sefydliad bwyd anifeiliaid ar hap i wirio eu bod wedi'u cynnwys ar y cronfeydd data safonau bwyd a bwyd anifeiliaid. Er bod naw o'r 10 sefydliad bwyd wedi'u cynnwys ar y gronfa ddata safonau bwyd, sylwyd nad oedd pedwar wedi bod yn destun arolygiadau sgorio risg. Roedd saith o'r naw busnes bwyd anifeiliaid a wiriwyd wedi'u cynnwys ar gronfa ddata bwyd anifeiliaid yr awdurdod, ond sylwyd mai dim ond un oedd wedi'i gofrestru yn unol â'r Cod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid.
- 11.4 Roedd yr awdurdod wedi amlygu gwella'r cronfeydd data safonau bwyd a bwyd anifeiliaid fel blaenoriaeth yn flaenorol. Roedd cynnydd da wedi'i wneud ac roedd gwaith yn parhau i gynnal cywirdeb y cronfeydd data hyn. Mae absenoldeb cronfa ddata gywir yn golygu nad yw'r awdurdod yn gallu cynllunio na monitro'n effeithiol y gwasanaeth safonau bwyd a bwyd anifeiliaid a ddarperir.

### ***Argymhelliad***

11.5 Dylai'r awdurdod:

- (i) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefn gofnodedig i sicrhau bod ei gronfeydd data safonau bwyd a safleoedd bwyd anifeiliaid yn gywir, yn ddibynadwy ac yn gyfredol. [Y Safon – 11.2]



## **12 Arolygu a Samplu Bwyd a Bwyd Anifeiliaid**

- 12.1 Roedd Gweithdrefn Arolygiadau Bwyd ac Iechyd a Diogelwch yr awdurdod yn cynnwys arolygu bwyd. Nid oedd gweithdrefnau cyfatebol ar gael ar gyfer bwyd anifeiliaid.
- 12.2 Roedd yr awdurdod wedi datblygu polisi a gweithdrefn samplu bwyd yr oedd angen eu datblygu ymhellach i gynnwys cyfeiriad at gyswllt Awdurdod Cynradd, Cartref a Gwreiddiol, a'r trefniadau samplu y tu allan i oriau swyddfa.
- 12.3 Nid oedd y weithdrefn yn rhoi digon o fanylion am y fethodoleg samplu a chaffael samplau, nac yn cyfeirio at ffynhonnell gwybodaeth ar wahân.
- 12.4 Roedd rhaglenni samplu ar wahân wedi'u sefydlu ar gyfer hylendid bwyd, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid, a oedd yn unol â pholisi samplu'r awdurdod. Roedd blaenoriaethau gorfodi cenedlaethol wedi'u hystyried ac roedd y rhaglenni samplu'n cael eu rhoi ar waith.
- 12.5 Sylwodd yr archwilwyr fod y rhaglen samplu safonau bwyd a amlygwyd yn y Cynllun Gwaith ar gyfer 2013/14 yn fwy uchelgeisiol na'r flwyddyn flaenorol, ac yn cynnwys targed o 30 o samplau i'w hariannu drwy grant gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.
- 12.6 Roedd y Cynllun Gwaith Bwyd Anifeiliaid ar gyfer 2013/14 yn cynnwys targed o chwe sampl, o gymharu â'r tair a gymerwyd yn 2012/13.
- 12.7 Roedd y labordai a ddefnyddiwyd gan yr awdurdod ar gyfer archwilio samplau bwyd a bwyd anifeiliaid wedi'u hachredu'n briodol ac roeddent ar y rhestr o Labordai Swyddogol yr oedd Llywodraeth y DU wedi'i chyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd.

### ***Hylendid Bwyd***

- 12.8 Archwiliwyd cofnodion saith sampl ficrobiolegol anfoddhaol. Roedd pob un ohonynt wedi'u cymryd gan swyddog a awdurdodwyd yn briodol.

- 12.9 Nid oedd camau a gymerwyd mewn ymateb i ganlyniadau samplu anfoddhaol wedi'u cofnodi yn unrhyw un o'r achosion. Mewn un o'r achosion, roedd bacteria pathogenaidd wedi'u harunigo mewn cynnyrch parod i'w fwyta.
- 12.10 Nid oedd yr awdurdod yn gallu dangos bod busnesau bwyd wedi cael gwybod am y canlyniadau anfoddhaol mewn tri o saith achos.

### ***Safonau Bwyd***

- 12.11 Archwiliwyd cofnodion pob un o'r pum sampl a gymerwyd i'w dadansoddi/archwilio yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd un o'r samplau hyn wedi cynhyrchu canlyniad anfoddhaol.
- 12.12 Roedd pob un o'r samplau wedi'u cymryd gan swyddog a awdurdodwyd yn briodol. Fodd bynnag, o ran y sampl anfoddhaol, nid oedd yr awdurdod yn gallu dangos bod camau dilynol priodol wedi'u cymryd na bod y busnes bwyd wedi cael gwybod am y canlyniad anfoddhaol.

### ***Bwyd Anifeiliaid***

- 12.13 Archwiliwyd cofnodion pob un o'r tair sampl a gymerwyd i'w dadansoddi yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd un o'r samplau hyn wedi cynhyrchu canlyniad anfoddhaol.
- 12.14 Roedd pob un o'r samplau wedi'u cymryd gan swyddog a awdurdodwyd yn briodol, ac roedd y canlyniadau wedi'u cadw ar ffeil. Roedd y busnes wedi cael gwybod am y canlyniadau, roedd camau priodol wedi'u cymryd, a chysylltwyd â'r Awdurdod Cartref, fel sy'n briodol.

### ***Argymhellion***

- 12.15 Dylai'r awdurdod:
- (i) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefnau cofnodedig ar gyfer arolygu bwyd anifeiliaid. [Y Safon – 12.3]

- (ii) Adolygu a diweddarau'r gweithdrefnau samplu cofnodedig yn unol â'r Codau Ymarfer perthnasol a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 12.5]
- (iii) Cymryd camau priodol pan ystyrir bod canlyniadau sampl yn anfoddhaol. [Y Safon – 12.7]

- 13 Rheoli ac Ymchwilio i Achosion a Chlefydau Heintus sy'n Gysylltiedig â Bwyd**
- 13.1 Roedd yr awdurdod wedi dynodi Swyddog Arweiniol ar gyfer Clefydau Trosglwyddadwy a oedd wedi mynychu digwyddiadau fel rhan o raglen Hyfforddi Swyddogion Arweiniol Cymru.
- 13.2 Roedd gan yr awdurdod Gynllun Rheoli Achosion a ddatblygwyd mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid perthnasol. Roedd y Cynllun yn seiliedig ar dempled a gynhyrchwyd gan grŵp amlasiantaethol a oedd yn cynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru. Sylwodd yr archwilwyr fod angen diweddarau'r rhestr 'Deddfwriaeth a Chanllawiau Perthnasol' yn yr atodiadau.
- 13.3 Roedd yr awdurdod hefyd wedi datblygu gweithdrefn ar gyfer ymchwilio i achosion o glefydau hysbysadwy a gadarnhawyd neu a amheuir. Ategwyd y weithdrefn gan ystod o ddogfennau canllaw a holiaduron. Roedd y weithdrefn yn cyfeirio at ymchwilio i fwydydd dan amheuaeth ac roedd yr awdurdod wedi datblygu taenlen ganolog ar gyfer cofnodi manylion safleoedd bwyd lle y cafwyd achosion. Cydnabu'r archwilwyr fod y daenlen yn darparu system ddefnyddiol ar gyfer amlygu safleoedd bwyd a allai fod yn gysylltiedig. Fodd bynnag, nid oedd y weithdrefn yn cynnwys cyfeiriad at arolygu'r sefydliadau bwyd cysylltiedig hynny.
- 13.4 Cadarnhaodd y Rheolwr Diogelu'r Cyhoedd fod trefniadau ewyllys da wedi'u sefydlu i ymateb i hysbysiadau y tu allan i oriau swyddfa, a'u bod wedi cael eu profi'n ddiweddar. Roedd canolfan gyswllt yr awdurdod wedi cysylltu â'r Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd y tu allan i oriau swyddfa. Cysylltodd y Pennaeth Gwasanaeth â'r Rheolwr Diogelu'r Cyhoedd ar unwaith, yr oedd ganddo'r cymwysterau a'r cymhwysedd i ymdrin â'r achos.
- 13.5 Yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad, roedd yr awdurdod wedi ymchwilio i un achos a oedd yn gysylltiedig â sefydliad bwyd yn ei ardal. Archwiliwyd y cofnodion yn ymwneud â'r achos, a gadarnhaodd fod yr awdurdod wedi defnyddio ei weithdrefn. Sylwodd yr archwilwyr fod swyddogion wedi ymweld â'r safle cysylltiedig a bod samplau wedi'u cymryd o fwydydd dan amheuaeth. Roedd yr awdurdod hefyd yn gallu dangos y cysylltwyd â'r asiantaethau priodol ac awdurdodau lleol cyfagos.

- 13.6 Yn ystod y digwyddiad, roedd swyddogion wedi defnyddio holiaduron priodol i gyfweld achosion a amheuir. Fodd bynnag, nid oedd y rhain wedi'u cwblhau'n drylwyr. Yn arbennig, roedd rhannau yn ymwneud â theithiau dramor, risgiau gartref, cysylltiadau ar yr aelwyd a hanes bwyd wedi'u gadael yn wag. Nid oedd digon o wybodaeth ar gael i bennu graddau'r ymchwiliad a gynhaliwyd.
- 13.7 Dewiswyd hysbysiadau yn ymwneud â deg achos achlysurol o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd i'w harchwilio cyn yr archwiliad, ac roedd cofnodion naw achos ar gael. Mewn pum achos yr ystyriwyd eu bod yn rhai '*risg isel*', yn unol â gweithdrefn yr awdurdod, cadarnhaodd yr archwilywyr fod ymchwiliadau priodol wedi'u cynnal. Fodd bynnag, mewn tri achos yn ymwneud â hysbysiadau yr ystyriwyd eu bod yn rhai '*risg uchel*', nid oedd digon o dystiolaeth i gadarnhau bod ymchwiliadau trylwyr wedi'u cynnal a/neu fod camau priodol wedi'u cymryd. Mewn dau o'r achosion hyn, nid oedd digon o wybodaeth i gadarnhau bod ystyriaeth wedi'i rhoi i ba un a oedd yr unigolyn mewn grŵp risg ac, mewn un arall, nid oedd unrhyw dystiolaeth y cysylltwyd â'r achos.

### **Argymhellion**

- 13.8 Dylai'r awdurdod:
- (i) Sicrhau bod y cynllun ar gyfer rheoli achosion o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd yn cael ei gynnal a'i weithredu'n llawn. [Y Safon – 13.1]
  - (ii) Sicrhau bod y weithdrefn ar gyfer ymchwilio i achosion a gadarnhawyd neu a amheuir o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd yn cael ei rhoi ar waith. [Y Safon – 13.2]
  - (iii) Sicrhau bod yr holl gofnodion sy'n ymwneud â rheoli ac ymchwilio i achosion o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd yn cael eu cadw am o leiaf chwe blynedd. [Y Safon – 13.3]

## **14 Digwyddiadau Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid**

- 14.1 Roedd gan yr awdurdod Weithdrefn Rhybuddion a Digwyddiadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid gofnodedig. Fe'i diwygiwyd ym mis Chwefror 2013 er mwyn sicrhau ei bod yn gyson â'r weithdrefn a ddatblygwyd gan Banel Technegol Diogelwch Bwyd Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru. Roedd y weithdrefn yn cofnodi sut yr oedd yr awdurdod yn ymateb i Ddigwyddiadau Bwyd, Rhybuddion Bwyd – Angen Gweithredu, Hysbysiadau Gwybodaeth am Dynnu Cynnyrch yn Ôl a Hysbysiadau Gwybodaeth am Alw Cynnyrch yn Ôl, gan gynnwys y rhai hynny a dderbynnir y tu allan i oriau swyddfa.
- 14.2 Roedd gan yr awdurdod system gyfrifiadurol a oedd yn gallu derbyn hysbysiadau, ac roedd y weithdrefn yn datgan *'y dylai camau a gymerir mewn ymateb i Rybuddion – Angen Gweithredu gael eu cofnodi fel bod modd eu hadalw ar gyfer camau dilynol posibl neu archwiliad gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd'*.
- 14.3 Roedd y weithdrefn yn datgan mai'r Rheolwr Bwyd ac Iechyd a Diogelwch oedd yn gyfrifol am ei gweithredu'n effeithiol, a bod hyn yn cynnwys trefniadau'r awdurdod ar gyfer rhybuddio'r Asiantaeth Safonau Bwyd pe byddai perygl bwyd gwirioneddol neu bosibl yn cael ei amlygu'n lleol.
- 14.4 Edrychodd yr archwilwyr ar gofnodion mewn perthynas â phum Rhybudd Bwyd – Angen Gweithredu a roddwyd yn ystod y tair blynedd flaenorol. Derbyniwyd pob un ohonynt yn brydlon ac ymatebwyd iddynt yn unol â chyngor yr Asiantaeth Safonau Bwyd.
- 14.5 Roedd y camau a gymerwyd gan yr awdurdod wedi'u manylu ar gopi caled o'r rhybudd bwyd neu nodyn a atodwyd wrtho. Roedd yr holl ohebiaeth, gan gynnwys negeseuon e-bost swyddogion ynglŷn â rhybuddion bwyd, wedi'i chynnal ar ffeil a gellid ei hadalw'n rhwydd.
- 14.6 Roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau bod yr awdurdod wedi cymryd camau i hysbysu'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn brydlon am berygl bwyd nad oedd yn lleol, a bod yr hysbysiad hefyd wedi'i gadarnhau yn ysgrifenedig yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.

## 15 Gorfodi

- 15.1 Roedd Gwasanaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd yr awdurdod wedi datblygu "Protocol Gorfodi a Pholisi Cysylltiedig" a gymeradwywyd gan yr Aelod Cabinet perthnasol ym mis Mehefin 2009. Roedd Rhybudd Syml a Gweithdrefn Gorfodi Diogelwch Bwyd wedi'u datblygu hefyd a fu'n destun adolygiad yn ddiweddar. Roedd y Weithdrefn Gorfodi Diogelwch Bwyd yn rhoi manylion y dewisiadau gorfodi hylendid bwyd a oedd ar gael i swyddogion. Roedd hyn yn cynnwys canllawiau i swyddogion lle yr amlygwyd tramgwyddau mewn safleoedd a gynhelir gan yr awdurdod lleol. Roedd Gweithdrefn Erlyn yn cael ei llunio ar adeg yr archwiliad.
- 15.2 Nid oedd "Protocol Gorfodi a Pholisi Cysylltiedig" yr awdurdod yn cyfeirio at Gynllun y Prif Awdurdod. Yn ogystal, nid oedd y trefniadau ar gyfer adolygu a amlinellwyd yn y ddogfen wedi'u rhoi ar waith ers 2009.
- 15.3 Roedd y Weithdrefn Gorfodi Diogelwch Bwyd wedi bod yn destun adolygiad blynyddol ac roedd yn cynnwys cyfeiriad at Gynllun y Prif Awdurdod. Roedd yn ymdrin â Chamau Anffurfiol, Hysbysiadau Gwella Hylendid (HIN), Hysbysiadau Camau Unioni (RAN), Hysbysiadau Gwahardd Brys at Ddibenion Hylendid (HEPN), Cau'n Wirfoddol, Ildio'n Wirfoddol ac Atafaelu a Chadw bwyd. Roedd atodiad i'r weithdrefn yn rhoi ychydig mwy o arweiniad i swyddogion ar orfodi deddfwriaeth bwyd a bwyd anifeiliaid wedi'u mewnforio.
- 15.4 Roedd yr awdurdod wedi dangos ymrwymiad i ddefnyddio'r ystod lawn o offer gorfodi sydd ar gael i sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth diogelwch bwyd, ac adroddodd mewn dogfennau a gyflwynwyd cyn yr archwiliad fod ystod eang o gamau gorfodi ffurfiol wedi'u cymryd yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad:
- 31 Hysbysiad Gwella Hylendid (HIN);
  - 2 Hysbysiad Gwahardd Brys at Ddibenion Hylendid (HEPN);
  - 4 achos o Gau'n Wirfoddol;
  - 2 achos o Atafaelu/Cadw;
  - 6 Rhybudd Syml;
  - 3 Erlyniad
- 15.5 Nid oedd unrhyw gamau gorfodi ffurfiol wedi'u cymryd o ran safonau bwyd na bwyd anifeiliaid.

- 15.6 Gofynnwyd am weld cofnodion 10 HIN, dau HEPN, un achos o lldio'n Wirfoddol, dau achos o Atafaelu/Cadw, pedwar achos o Gau'n Wirfoddol, dau Rybudd Syml a thri Erlyniad. Gwiriwyd y rhain yn erbyn canllawiau swyddogol, Polisi Gorfodi'r awdurdod a gweithdrefnau cofnodedig.
- 15.7 Dewiswyd cyfanswm o 10 HIN i'w harchwilio cyn yr archwiliad. Ni ellid dod o hyd i ddau ohonynt yn ystod yr archwiliad; daethpwyd o hyd i un o'r rhain yn ddiweddarach ond ni chafodd ei archwilio. O ran yr wyth achos a oedd yn weddill, HIN oedd y ffordd briodol o weithredu, ac fe'u cyflwynwyd gan swyddogion a chanddynt yr awdurdodiad cywir ac a fu'n dyst i'r tramgwyddau. Roedd yr hysbysiadau'n eglur ac roedd terfynau amser wedi'u gosod ar gyfer cydymffurfio. Roedd y weithdrefn apelio, ac enw a chyfeiriad y llys ynadon perthnasol, wedi'u rhoi gyda'r hysbysiadau, er nad oedd tystiolaeth fod hysbysiadau wedi'u cyflwyno'n briodol. Sylwodd yr archwilwyr nad oedd geiriad dau o'r hysbysiadau yn gyson â'r geiriad ar yr atodlenni cysylltiedig. Roedd un hysbysiad wedi'i gyflwyno i un yn unig o'r ddau weithredwr busnes bwyd a nodwyd ar y ffurflen cofrestru sefydliad bwyd ac, mewn achos arall, cafodd yr hysbysiad ei ymestyn ar ôl i'r terfyn amser ar gyfer cydymffurfio fynd heibio, a hynny'n groes i ganllawiau a gyhoeddir yn ganolog. Ni chofnodwyd unrhyw benderfyniad i wyro o ganllawiau a gyhoeddir yn ganolog.
- 15.8 Roedd ailymweliadau amserol wedi'u cynnal mewn pump o'r wyth achos i wirio y cydymffurfiwyd â'r hysbysiadau. Yn y tri achos a oedd yn weddill, bu oedi o fwy na mis cyn cynnal ailymweliadau. Nid oedd llythyrau yn cadarnhau cydymffurfiaeth wedi'u darparu mewn tri achos.
- 15.9 Archwiliwyd cofnodion dau HEPN. Yn y ddau achos, HEPN oedd y ffordd briodol o weithredu ac roedd yr hysbysiadau wedi'u llofnodi gan swyddogion a awdurdodwyd yn briodol. Mewn un achos, roedd y gweithredwr busnes bwyd wedi gadael y safle ar ôl i'r HEPN gael ei gyflwyno. Cyflwynwyd cais am Orchymyn Gwahardd Brys at Ddibenion Hylendid (HEPO) i'r llys o fewn tri diwrnod o ddyddiad cyflwyno'r HEPN, er nad oedd tystiolaeth y cafodd ei roi. Rhoddodd y Rheolwr Diogelu'r Cyhoedd sicrwydd i'r archwilwyr fod yr HEPO wedi'i gadarnhau yn absenoldeb y gweithredwr busnes bwyd a bod y safle wedi aros ar gau. Yn yr achos arall, nid oedd tystiolaeth fod cyfeiriad y llys wedi'i roi i'r gweithredwr busnes bwyd, er bod yr HEPO wedi'i ganiatáu wedi hynny.



Nid oedd tystiolaeth ar gael i gadarnhau bod ymweliadau monitro wedi'u cynnal i sicrhau bod y sefydliad bwyd wedi aros ar gau hyd nes i'r cyflwr risg iechyd beidio â bodoli mwyach.

- 15.10 Roedd tystysgrif wedi'i chyflwyno yn codi un HEPO, ond nid oedd tystiolaeth ar gael fod y gweithredwr busnes bwyd wedi cyflwyno cais ysgrifenedig i godi'r gorchymyn.
- 15.11 Archwiliwyd cofnodion pedwar safle bwyd a oedd wedi cytuno i gau'n wirfoddol. Roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau ym mhob achos mai hon oedd y ffordd briodol o weithredu. Mewn tri achos, roedd tystiolaeth fod y gweithredwr busnes bwyd wedi cael cadarnhad ysgrifenedig o'r cam cau'n wirfoddol drwy ffurflenni cau'n wirfoddol. Nid oedd ffurflen cau'n wirfoddol ar gael mewn un achos. Roedd y ffurflenni cau'n wirfoddol a ddefnyddiwyd yn gyson â'r rhai hynny a fanylir yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, ac roedd y rheswm dros gau'n wirfoddol wedi'i fanylu ar y ffurflenni. Sylwodd yr archwilwyr fod un o'r tair ffurflen cau'n wirfoddol heb ei llofnodi gan y gweithredwr busnes bwyd. Nid oedd tystiolaeth fod unrhyw un o'r sefydliadau bwyd wedi cael eu monitro ar ôl cau i gadarnhau eu bod wedi aros ar gau.
- 15.12 Rhoddwyd gwybod i'r archwilwyr na fu unrhyw achosion o ildio bwyd yn wirfoddol yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad. Fodd bynnag, amlygwyd tystiolaeth o Ildio'n Wirfoddol yn ystod yr archwiliad. Nid oedd yr achos o Ildio'n Wirfoddol wedi'i gofnodi ar gronfa ddata'r awdurdod, a oedd yn codi pryderon am gywirdeb y ffurflen fonitro gorfodi a gyflwynwyd i'r Asiantaeth Safonau Bwyd. Roedd cofnodion yn dangos bod y swyddog a'r gweithredwr busnes bwyd wedi llofnodi'r ffurflen Ildio'n Wirfoddol. Fodd bynnag, nid oedd cofnod o amser, lleoliad a dull dinistrio'r bwyd, na bod y bwyd wedi'i anffurfio i'w atal rhag ymuno â'r gadwyn fwyd ddynol.
- 15.13 Archwiliwyd cofnodion yn ymwneud â dau achos lle y cafodd bwyd ei atafaelu'n ffurfiol a'i gadw gan yr awdurdod. Yn y ddau achos, roedd y cofnodion yn awgrymu mai hon oedd y ffordd briodol o weithredu. Roedd fformat yr hysbysiadau a gyflwynwyd yn gyson â'r templedi hysbysiadau a geir yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, ac roedd yr wybodaeth a roddwyd yn eglur, yn rhwydd ei deall ac yn gywir. Mewn un achos, roedd y cofnodion yn cadarnhau bod cadarnhad ysgrifenedig wedi'i roi i'r gweithredwr busnes bwyd yn dilyn atafaelu, a bod cais llwyddiannus wedi'i gyflwyno am Orchymyn Condemnio. Yn yr achos arall, nid oedd

digon o gofnodion ar gael i gadarnhau bod y swyddog wedi dilyn y broses gyfreithiol briodol, na bod y bwyd a atafaelwyd wedi'i ddwyn gerbron Ynad. Nid oedd unrhyw dystiolaeth i gadarnhau bod trefniadau priodol wedi'u gwneud ar gyfer dinistrio neu waredu'r bwyd.

- 15.14 Archwiliwyd cofnodion pum Rhybudd Syml. Fe'u rhoddwyd yn dilyn diffyg cydymffurfio â HIN. Roedd y Rhybuddion Syml wedi'u cymeradwyo gan y Pennaeth Gwasanaeth yn dilyn argymhelliad gan y Rheolwr Diogelu'r Cyhoedd. Sylwodd yr archwilyr nad oedd ffeiliau achos cynhwysfawr wedi'u paratoi cyn i'r Rhybuddion Syml gael eu rhoi.
- 15.15 Dewiswyd tair ffeil erlyniad i'w harchwilio. Ym mhob achos, erlyniad oedd y ffordd briodol o weithredu ac fe'i hawdurdodwyd gan y Pennaeth Gwasanaeth. Roedd ffeiliau achos cynhwysfawr wedi'u paratoi ar gyfer erlyniad, ac roedd dystiolaeth i ddangos y rhoddwyd ystyriaeth i Bolisi Gorfodi'r awdurdod a gofynion Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol (PACE) a'r Ddeddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol (CPIA). Sylwyd bod y swyddog datgelu wedi'i enwi mewn un o'r pum achos yn unig, ac nad oedd y swyddog erlyn wedi'i enwi yn unrhyw un o'r achosion. Yn gyffredinol, nid oedd ffeiliau erlyniad wedi'u symud ymlaen mewn modd amserol.

### **Argymhellion**

- 15.16 Dylai'r awdurdod:
- (i) Sicrhau bod ei Bolisi Gorfodi yn cael ei gynnal a'i weithredu'n llawn yn unol â'r Codau Ymarfer perthnasol a chanllawiau swyddogol eraill. [Y Safon – 15.1]
  - (ii) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefnau cofnodedig ar gyfer gwaith dilynol a chamau gorfodi mewn perthynas ag erlyniadau, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid. [Y Safon – 15.2 ]
  - (iii) Sicrhau bod gwaith gorfodi'r gyfraith hylendid bwyd yn cael ei wneud yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a gweithdrefnau cofnodedig yr awdurdod ei hun. Dylai'r rhesymau dros

unrhyw wyriadau gael eu cofnodi. [Y Safon – 15.3 a 15.4]

## 16 Cofnodion ac Ymyriadau/Adroddiadau Arolygu

### *Hylendid Bwyd*

- 16.1 Roedd yr awdurdod yn cadw cofnodion busnes bwyd, gan gynnwys dogfennau cofrestru a chymeradwyo, ffurflenni arolygu, taflenni crynodeb o adroddiad arolygu a gohebiaeth, ar ffurf copi caled mewn ffeiliau safle. Roedd manylion dyddiad yr ymyrraeth a'r math o ymyrraeth a oedd yn gysylltiedig â busnesau bwyd, yn ogystal â phroffil risg y safle, yn cael eu cadw ar gronfa ddata electronig yr awdurdod. Sylwodd yr archwilywyr fod yr holl ffeiliau safle a archwiliwyd wedi'u trefnu'n dda, a bod y cofnodion yn cael eu cadw mewn trefn gronolegol. Lle y bo'n berthnasol, roedd modd adalw gwybodaeth yn ymwneud â'r tri arolygiad diwethaf, ac roedd cofnodion yn cael eu cadw am chwe blynedd.
- 16.2 Roedd swyddogion yn defnyddio taflenni crynodeb o adroddiad arolygu a llythyrau i gyfleu canfyddiadau arolygiad i fusnesau bwyd, a oedd yn gwahaniaethu'n eglur rhwng gofynion cyfreithiol ac argymhellion arfer da. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw dystiolaeth fod gweithredwyr busnes bwyd yn cael syniad o'r graddfeydd amser ar gyfer ymgymryd â gwaith unioni yn dilyn arolygiad/ymyrraeth.
- 16.3 Yn gyffredinol, roedd y cofnodion ar y ffeiliau safle a'r gronfa ddata electronig yn gywir. Roedd yr holl ffeiliau safle a archwiliwyd yn cynnwys ffurflen gofrestru wedi'i hatodi wrth y clawr, ac roedd y manylion arni'n cyfateb i'r rhai hynny mewn gohebiaeth a chofnodion arolygu diweddar. Fodd bynnag, nid oedd y dyddiad derbyn wedi'i gofnodi ar bedair ffurflen gofrestru. Felly, nid oedd bob amser yn bosibl pennu a oedd arolygiadau amserol wedi'u cynnal o fusnesau newydd.
- 16.4 O wirio yn ystod yr archwiliad, cadarnhawyd bod ffurflenni adroddiad arolygu a gohebiaeth yn cynnwys manylion y gweithredwr busnes bwyd, dyddiadau arolygu, y math o fusnes, y gyfraith bwyd a'r meysydd penodol a archwiliwyd, enw a dynodiad y swyddog arolygu, a chyfeiriad yr awdurdod. Ni ellid pennu graddau'r asesiad o gydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog ym mhob achos gan nad oedd digon o wybodaeth wedi'i chofnodi ar ffurflenni arolygu, fel y manylwyd yn flaenorol. Yn ogystal, nid oedd unrhyw dystiolaeth fod gweithredwyr busnes bwyd yn cael manylion y dogfennau a/neu'r cofnodion a archwiliwyd yn ystod arolygiadau, ac mewn saith o'r

10 ffeil safle a archwiliwyd, nid oedd unrhyw gofnod o bwyntiau allweddol a drafodwyd gyda'r gweithredwr busnes bwyd ar adeg yr arolygiad.

- 16.5 Wrth groesgyfeirio gwybodaeth yn ymwneud ag arolygiadau/ymyriadau a ddelir ar y ffeiliau safle â'r wybodaeth ar y gronfa ddata electronig, roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau bod y system yn gyfredol a bod y sgoriau risg yn gywir.

### ***Argymhellion***

- 16.6 Dylai'r awdurdod:
- (i) Gynnal cofnodion cyfredol sy'n cynnwys adroddiadau ar yr holl ymyriadau/arolygiadau, penderfyniadau ynghylch gofynion cyfreithiol a wnaed gan swyddogion awdurdodedig, manylion camau a gymerwyd pan amlygwyd diffyg cydymffurfio, manylion unrhyw gamau gorfodi a gymerwyd, canlyniadau unrhyw samplu, manylion unrhyw gwynion a chamau a gymerwyd, a hefyd gwybodaeth gofrestru a chymeradwyo berthnasol am fwyd a/neu fwyd anifeiliaid. Yn ogystal, dylid cofnodi unrhyw wyriadau o weithdrefnau penodol ynghyd â'r rhesymau drostynt. [Y Safon – 16.1]

### ***Safonau Bwyd***

- 16.7 O ran pump o'r naw ffeil sefydliad a archwiliwyd, nid oedd yr awdurdod yn gallu dangos bod adroddiad ymyrraeth wedi'i anfon neu ei adael yn y safle.
- 16.8 Mewn dau achos, nid oedd manylion y gweithredwr busnes bwyd ar gyfer busnesau bwyd presennol yn gyfredol ar y gronfa ddata safonau bwyd, er bod copïau caled o'r ffurflenni cofrestru ar gael yn y ffeiliau hylendid bwyd.
- 16.9 O ran y pedwar adroddiad arolygu a anfonwyd neu a adawyd yn y safle, nid oedd yr un ohonynt yn cynnwys manylion unrhyw dull i ganiatáu ar

gyfer trafod unrhyw faterion dadleuol, nac yn cynnwys manylion cyswllt swyddog uwch.

- 16.10 Roedd dau o'r pedwar adroddiad nad oeddent yn gwahaniaethu'n eglur rhwng gofynion cyfreithiol ac argymhellion, ac roedd un o'r ddau adroddiad a oedd yn weddill nad oedd yn nodi'n ddigonol y tramgwyddau neu'r gwaith a oedd yn ofynnol. Nid oedd graddfeydd amser ar gyfer cyflawni cydymffurfiaeth wedi'u darparu mewn unrhyw adroddiadau arolygu.
- 16.11 Yn niffyg rhai cofnodion, nid oedd yr awdurdod yn gallu dangos ei fod yn cynnal cofnodion yn gyson am 6 blynedd.

### ***Argymhellion***

- 16.12 Dylai'r awdurdod:
- (i) Gynnal cofnodion cyfredol mewn ffurf y gellir ei hadalw ar yr holl sefydliadau bwyd yn ei ardal yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. Rhaid i'r cofnodion hyn gynnwys adroddiadau ar yr holl ymyriadau/arolygiadau, penderfyniadau ynghylch cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a wnaed gan y swyddog awdurdodedig, manylion camau a gymerwyd pan amlygwyd diffyg cydymffurfio, a gwybodaeth berthnasol am gofrestru sefydliad bwyd. [Y Safon – 16.1]
- (ii) Sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw am o leiaf 6 blynedd. [Y Safon – 16.2]

### ***Bwyd Anifeiliaid***

- 16.13 Roedd gwybodaeth hanesyddol am y nifer gyfyngedig o ymyriadau bwyd anifeiliaid a gynhaliwyd yn ystod ymweliadau iechyd anifeiliaid â sefydliadau cynhyrchu cynradd ar gael yn y ffeiliau iechyd anifeiliaid. Nid oedd hyn yn wir yn gyson o ran sefydliadau bwyd anifeiliaid eraill, ac

roedd gwybodaeth yn ymwneud ag arolygiadau bwyd anifeiliaid hanesyddol yn amrywio'n sylweddol o un ffeil i'r llall. Nid oedd yn bosibl, yn unrhyw un o'r 10 ffeil a archwiliwyd, i swyddog nad oedd wedi ymweld â busnes yn flaenorol sefydlu ei hanes cydymffurfiaeth llawn ac felly sicrhau dull graddoledig o orfodi.

- 16.14 Roedd gweithredwyr busnes bwyd anifeiliaid wedi cael adroddiadau a ysgrifennwyd â llaw yn dilyn arolygiadau, ac roedd copïau carbon o'r adroddiadau'n cael eu cadw mewn ffeil. Roedd y rhain yn ddarllenadwy at ei gilydd ac yn rhestru meysydd trafod allweddol â gweithredwyr busnes bwyd anifeiliaid. Fodd bynnag, nid oeddent bob amser yn nodi cwmpas yr arolygiad nac yn gwahaniaethu'n eglur rhwng gofynion cyfreithiol ac argymhellion arfer da. Nid oedd adroddiadau'n cynnwys y lleiafswm gwybodaeth sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid. Roedd llythyr wedi'i anfon yn dilyn un arolygiad, ond nid oedd yr atodlen gysylltiedig yn gwahaniaethu'n eglur rhwng gofynion cyfreithiol ac argymhellion, ac nid oedd unrhyw arwydd o'r raddfa amser ar gyfer cydymffurfio wedi'i ddarparu. Mewn achos arall, nid oedd yn eglur a anfonwyd llythyr yn dilyn yr arolygiad.

### ***Argymhellion***

16.15 Dylai'r awdurdod:

- (i) Gynnal cofnodion cyfredol a chywir mewn ffurf y gellir ei hadalw ar yr holl sefydliadau bwyd anifeiliaid perthnasol a bwyd anifeiliaid wedi'i fewnforio yn unol â'r Cod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. Dylai'r cofnodion hyn gynnwys adroddiadau ar yr holl ymyriadau/arolygiadau, penderfyniadau ynghylch cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a wnaed gan y swyddog a manylion camau a gymerwyd. [Y Safon – 16.1]
- (ii) Sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw am o leiaf 6 blynedd. [Y Safon – 16.2]

## **17 Cwynion am y Gwasanaeth**

- 17.1 Roedd yr awdurdod wedi sefydlu, gweithredu a chyhoeddi gweithdrefn gwyno dri cham a oedd ar gael i'r cyhoedd a busnesau bwyd ar ei wefan.
- 17.2 Roedd dwy gŵyn ynglŷn â hylendid bwyd wedi'u derbyn yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad. Roedd gwybodaeth fanwl am y ddwy wedi'i chadw gan y Rheolwr Diogelu'r Cyhoedd. Roedd yr archwilwyr yn gallu sefydlu bod ymchwiliadau amserol a thrylwyr wedi'u cynnal a bod yr achwynwyr wedi cael gwybod am ganlyniad yr ymchwiliadau.
- 17.3 Nid oedd unrhyw gwynion am wasanaethau safonau bwyd na bwyd anifeiliaid yr awdurdod wedi'u derbyn yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad.



## 18 Cyswllt â Sefydliadau Eraill

- 18.1 Roedd gan yr awdurdod drefniadau cyswllt wedi'u sefydlu ag awdurdodau cyfagos ac roedd yn cyfrannu at ddatblygu agenda gydweithredu gogledd Cymru, sef "Cydweithredu â Mwy".
- 18.2 Roedd trefniadau cyswllt wedi'u sefydlu â chyrrff priodol eraill er mwyn hwyluso gorfodi cyson. Roedd hyn yn cynnwys cymryd rhan yn y canlynol:
- Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru;
  - Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru;
  - Penaethiaid Safonau Masnach Gogledd Cymru;
  - Panel Technegol Diogelwch Bwyd Gogledd Cymru;
  - Fforwm Microbiolegol Bwyd Cymru;
  - Panel Bwyd a Mesureg Gogledd Cymru
- 18.3 Roedd cofnodion ar gael o gyfarfodydd grwpiau cyswllt ac roeddent yn cadarnhau bod cynrychiolwyr priodol o'r gwasanaeth yn bresennol ynddynt yn rheolaidd.
- 18.4 Roedd gan yr awdurdod drefniadau cyswllt â'r canlynol hefyd:
- Yr Asiantaeth Safonau Bwyd
  - Iechyd Cyhoeddus Cymru
  - Y Gyfarwyddiaeth Filfeddygaeth
- 18.5 Roedd trefniadau cyswllt wedi'u sefydlu ag adrannau eraill yn yr awdurdod hefyd. Roedd y rhain yn cynnwys cynrychiolaeth ar Grŵp Cynllunio Gweithredu *E. coli* O157 yr awdurdod, a'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Adolygu Bwyd a sefydlwyd mewn ymateb i'r digwyddiad cig ceffylau.

## 19 Monitro Mewnol

19.1 Roedd yr awdurdod wedi datblygu fframwaith monitro perfformiad corfforaethol. Roedd y mesurau a'r targedau perfformiad meintiol canlynol wedi'u hamlygu ar gyfer y gwasanaethau hylendid bwyd, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid:

Mesurau perfformiad ar gyfer hylendid bwyd:

- Canran y sefydliadau bwyd sy'n 'cydymffurfio'n gyffredinol' â safonau hylendid bwyd (Mesur Atebolrwydd Cyhoeddus Llywodraeth Cymru)
- Canran y busnesau risg uchel a oedd yn agored i gael arolygiad wedi'i raglennu ac a gafodd eu harolygu
- Canran y busnesau newydd a amlygwyd a oedd yn destun ymweliad asesiad risg neu a ddychwelodd holiadur hunanasesu
- Canran y samplau bwyd sy'n cydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol
- Nifer yr ailymweliadau yn dilyn arolygiadau a raglennwyd
- Nifer yr Erlyniadau
- Nifer y llythyrau rhybudd a roddwyd
- Nifer yr achosion o Gau'n Wirfoddol a Chau'n Ffurfiol
- Nifer yr Hysbysiadau Gwella a gyflwynwyd
- Nifer y Rhybuddion Syml a roddwyd
- Canran y busnesau risg isel (categori D) a oedd yn agored i gael arolygiad a raglennwyd ac a gafodd eu harolygu

Mesur perfformiad ar gyfer safonau bwyd:

- Canran y busnesau risg uchel a oedd yn agored i gael arolygiad wedi'i raglennu ac a gafodd eu harolygu

Mesur perfformiad ar gyfer bwyd anifeiliaid:

- Nifer y safleoedd yr ymwelwyd â hwy o dan ofynion hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid ar y fferm

19.2 Sylwodd yr archwilwyr nad oedd y targedau perfformiad meintiol a osodwyd yn y fframwaith monitro perfformiad corfforaethol ar gyfer busnesau newydd yn ddigonol i fodloni gofynion y Codau Ymarfer Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid.

- 19.3 Roedd perfformiad yn unol â'r mesurau a amlygwyd yn y fframwaith monitro perfformiad corfforaethol yn cael ei adrodd bob tri mis i'r Pennaeth Gwasanaeth, y Cyfarwyddwr Corfforaethol a'r Aelod Cabinet perthnasol. Roedd yr wybodaeth hefyd yn cael ei hystyried gan Dîm Rheolaeth Gorfforaethol ehangach yr awdurdod ac Aelodau Etholedig mewn Heriau Gwasanaeth Blynyddol.
- 19.4 Roedd yr awdurdod yn ymrwymedig i sicrhau ansawdd y gwasanaethau a ddarperir, ac roedd wedi defnyddio holiaduron i bennu bodlonrwydd cwsmeriaid. Anfonwyd holiaduron at 25% o fusnesau a oedd yn destun arolygiad bob tri mis, yn ogystal ag at 25% o gwsmeriaid a ofynnodd am wasanaethau. Roedd yr adborth o'r arolygon bodlonrwydd cwsmeriaid wedi bod yn gadarnhaol, a thrafododd yr archwilwyr y manteision a allai ddod yn sgil rhannu'r canlyniadau hyn yn ehangach o fewn y sefydliad a'r tu allan iddo.
- 19.5 Roedd swyddogion wedi dilyn hyfforddiant a ddarparwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd er mwyn sicrhau bod sgoriau ymyrraeth hylendid bwyd yn cael eu hasesu'n gyson.
- 19.6 Roedd gweithdrefn monitro mewnol gofnodedig wedi'i datblygu ar gyfer safonau a diogelwch bwyd ar y cyd ag awdurdod cyfagos, a oedd yn ymdrin ag agweddau meintiol ac ansoddol ar y gwasanaeth.
- 19.7 Sylwyd nad oedd y weithdrefn wedi'i diweddarau i adlewyrchu newidiadau strwythurol yn y gwasanaeth bwyd, a'i bod yn cyfeirio at y ffaith bod gwaith monitro mewnol yn cael ei wneud gan y Rheolwr Bwyd ac Iechyd a Diogelwch. Roedd y swydd hon wedi'i dileu. Yn ymarferol, roedd gwaith monitro mewnol yn cael ei wneud gan y Rheolwr Diogelu'r Cyhoedd.
- 19.8 Roedd arolygiadau, cwynion, hysbysiadau, erlyniadau, samplu, clefydau heintus a gwaith prosiect wedi'u cynnwys yng nghwmpas y weithdrefn fonitro fewnol. Nid oedd awdurdodiadau swyddogion, strategaethau gorfodi amgen, rhybuddion bwyd a monitro'r gronfa ddata er mwyn sicrhau cyfanrwydd a chywirdeb data wedi'u cynnwys.
- 19.9 Roedd gweithgareddau monitro mewnol a gynlluniwyd yn cynnwys:
- Adolygiadau gwaith swyddogion
  - Monitro arolygiadau a chymau dilynol yn ansoddol ar fwrdd gwaith

- Arolygiadau dilysu
- Arolygiadau yng nghwmni rhywun arall
- Adolygiadau ffurfiol o benderfyniadau gorfodi
- Cyfarfodydd adolygu prosiect misol
- Holiaduron bodlonrwydd cwsmeriaid

- 19.10 Roedd rhai cofnodion monitro mewnol ansoddol cyfyngedig ar gyfer hylendid bwyd wedi'u cynnal gan y Rheolwr Diogelu'r Cyhoedd. Roeddent yn cynnwys ffurflenni monitro mewnol ar gyfer arolygiadau a llythyrau/gwaith papur ôl-arolygiad. Roedd camau unioni wedi'u hamlygu a'u cynnwys yn yr adborth a roddwyd i swyddogion.
- 19.11 Er bod rhywfaint o dystiolaeth o waith monitro mewnol mewn perthynas ag ymyriadau mewn sefydliadau cymeradwy, a bod adroddiadau erlyn wedi'u hadolygu gan y Rheolwr Diogelu'r Cyhoedd, nid oedd unrhyw fonitro mewnol wedi'i gynnal mewn perthynas â rheoli clefydau heintus, samplu na chwynion. Yn ogystal, nid oedd gwaith monitro mewnol ansoddol wedi'i gynnal mewn perthynas â gwaith safonau bwyd.
- 19.12 Nid oedd y weithdrefn fonitro fewnol gofnodedig yn cynnwys bwyd anifeiliaid, a chadarnhawyd nad oedd gwaith bwyd anifeiliaid yn cael ei fonitro'n ansoddol.

### ***Argymhellion***

- 19.13 Dylai'r awdurdod:
- (i) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefn fonitro fewnol gofnodedig ar gyfer bwyd anifeiliaid, a datblygu ymhellach a gweithredu'n llawn y weithdrefn fonitro fewnol ar gyfer hylendid bwyd a safonau bwyd er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â phob agwedd ar y Cytundeb Fframwaith. [Y Safon – 19.1]
- (ii) Cadarnhau ei gydymffurfiaeth â'r Safon, deddfwriaeth berthnasol, y Codau Ymarfer perthnasol, canllawiau perthnasol a gyhoeddir yn ganolog a pholisïau a gweithdrefnau cofnodedig yr awdurdod ei hun. [Y Safon – 19.2]

## **20 Adolygiad gan Drydydd Parti neu Gymheiriaid**

- 20.1 Nid oedd y gwasanaeth wedi bod yn destun unrhyw adolygiadau gan gymheiriaid nac archwiliadau gan drydydd parti yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad.
  
- 20.2 Roedd archwiliad penodol gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, sef 'Rheolaethau Swyddogol Awdurdodau Lleol a Rheolaethau Gweithredwyr Busnes Bwyd mewn Sefydliadau Cymeradwy', wedi'i gynnal yn 2010 ac roedd materion a amlygwyd ar gyfer gweithredu wedi'u cwblhau.

## **21 Hybu Safonau a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid**

- 21.1 Roedd yr awdurdod wedi cynnal nifer o fentrau gyda'r nod o hybu safonau a diogelwch bwyd. Roedd 'Cylchlythyr Safonau a Diogelwch Bwyd' chwemisol yn cael ei gynhyrchu a'i ddosbarthu i bob sefydliad bwyd yn Sir Ddinbych. Roedd y Cylchlythyr, gan gynnwys hen rifynnau, ar gael ar wefan yr awdurdod.
- 21.2 O ran diogelwch bwyd, roedd yr awdurdod wedi cychwyn neu gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau hyrwyddol, gan gynnwys:
- Sioeau teithiol ar draws y Sir yn ystod yr Wythnos Genedlaethol Diogelwch Bwyd;
  - Hyrwyddo'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Cenedlaethol
  - Darparu taflen cyngor ar ddiogelwch bwyd i bobyddion cartref sy'n cynhyrchu cacennau ar gyfer ffeiriau ysgol
  - Hyrwyddo hylendid dwylo da mewn seminarau busnes
  - Hwyluso hyfforddiant hylendid bwyd (lefelau 2, 3 a 4) a HACCP lefel sylfaen
  - Darparu hyfforddiant HACCP wedi'i deilwra ar gyfer staff arlwyio ysgolion
- 21.3 Roedd cofnodion hybu safonau a diogelwch bwyd yn cael eu cynnal gan y Rheolwr Diogelu'r Cyhoedd.
- 21.4 Nid oedd bwyd anifeiliaid wedi bod yn destun unrhyw weithgareddau hyrwyddol.

### ***Argymhelliad***

- 21.5 Dylai'r awdurdod:
- (i) Ddatblygu gweithgareddau hyrwyddol i gynnwys diogelwch bwyd anifeiliaid. [Y Safon – 21.1]

Archwilwyr:

**Archwilydd Arweiniol: Kate Thompson**

Archwilwyr: Alun Barnes  
Craig Sewell  
Daniel Morelli

Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru  
11eg Llawr  
Tŷ Southgate  
Wood Street  
Caerdydd  
CF10 1EW

**Cynllun Gweithredu ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych**

Dyddiad yr Archwiliad: 15 – 19 Gorffennaf 2013

<p><b>I DDERBYN SYLW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL</b></p>	<p><b>ERBYN (DYDDIAD)</b></p>	<p><b>GWELLIANNAU ARFAETHEDIG</b></p>	<p><b>CAMAU A GYMERWYD HYD YN HYN</b></p>
<p>3.18 (i) Sicrhau bod Cynlluniau Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd yn y dyfodol yn cael eu datblygu yn unol â'r Canllaw Cynllunio Gwasanaeth yn y Cytundeb Fframwaith. Yn arbennig, dylid cynnwys dadansoddiad cadarn o'r adnoddau sydd eu hangen o gymharu â'r rhai hynny sydd ar gael, a chynlluniau i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion a amlygir. [Y Safon – 3.1]</p>	<p>Mawrth 2015</p>	<p>Bydd Cynlluniau yn y dyfodol yn cynnwys holl ofynion y Safon ar gyfer hylendid bwyd, safonau a bwyd anifeiliaid, gan gynnwys nifer y sefydliadau cymeradwy i'w datgan yn gywir, manylion llawn y costau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau, cynlluniau gwaith ar gyfer safonau bwyd a bwyd anifeiliaid i gael eu hatodi, bydd cymhariaeth o'r adnoddau sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid yn erbyn y rheiny sydd ar gael yn cael eu manylu. Bydd y Cynlluniau hefyd yn mynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion.</p>	
<p>3.18 (ii) Mynd i'r afael ag unrhyw amrywiant o ran bodloni'r cynllun darparu gwasanaeth mewn cynlluniau gwasanaeth dilynol. [Y Safon – 3.3]</p>	<p>Medi 2014</p>	<p>Bydd adolygiad manwl o ddarparu gwasanaeth cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid yn cael ei gynnal yn erbyn y targedau a bennir yn y Cynllun Gwasanaeth 2013/14. Rhoddir sylw i unrhyw amrywiant yng Nghynllun</p>	<p>Cynllun cyflawni ar gyfer Gwasanaeth Bwyd Anifeiliaid Gogledd Cymru wrthi'n cael ei ddatblygu.</p>



I DDERBYN SYLW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL	ERBYN (DYDDIAD)	GWELLIANNAU ARFAETHEDIG	CAMAU A GYMERWYD HYD YN HYN
		Gwasanaeth 2014/15.	
4.6 (i) Sicrhau bod yr holl bolisiâu a gweithdrefnau cofnodedig yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a phryd bynnag y gwneir newidiadau i ddeddfwriaeth neu ganllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 4.1]	Mawrth 2015	Bydd yr awdurdod yn adolygu ei Bolisi Gorfodi. Bydd yr awdurdod hefyd yn adolygu pob polisi a gweithdrefn arall mewn dull amserol i sicrhau eu bod yn parhau'n gyfredol ac yn ddilys.	Rydym yn cyfrannu at broses Grŵp Bwyd Anifeiliaid Cymru Gyfan o goladu polisiâu bwyd anifeiliaid ar gyfer Cymru.
4.6 (ii) Ymestyn ei system rheoli dogfennau i gynnwys gweithgareddau gorfodi safonau bwyd a bwyd anifeiliaid. [Y Safon – 4.2]	Mawrth 2015	Cwmpas Gweithdrefn Rheoli Dogfennau i gael ei hehangu i gynnwys safonau bwyd a bwyd anifeiliaid.	
5.19 (i) Adolygu a diwygio'r cynllun dirprwyo i sicrhau bod yr holl ddeddfwriaeth berthnasol wedi'i chynnwys ac yn gyfredol. [Y Safon – 5.1]	Rhagfyr 2014	Bydd y cynllun dirprwyo a chyfansoddiad yn cael ei adolygu i sicrhau bod yr holl ddeddfwriaeth berthnasol, gyfoes yn cael ei chynnwys.	
5.19 (ii) Sicrhau bod yr holl swyddogion sy'n cynnal rheolaethau swyddogol wedi'u hawdurdodi'n briodol, ac adolygu, diwygio a gweithredu ei weithdrefn gofnodedig ar gyfer awdurdodi swyddogion er mwyn:  (d) Nodi dynodiad y swyddog awdurdodi; (e) Nodi bod swyddogion	Rhagfyr 2014	Bydd yr awdurdod yn adolygu ei Gweithdrefn Awdurdodi a gwneud y newidiadau angenrheidiol a nodwyd yn ystod yr archwiliad.	

<b>I DDERBYN SYLW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL</b>	<b>ERBYN (DYDDIAD)</b>	<b>GWELLIANNAU ARFAETHEDIG</b>	<b>CAMAU A GYMERWYD HYD YN HYN</b>
<p>anawdurdodedig wedi'u gwahardd rhag cynnal unrhyw weithgareddau y mae awdurdodiad yn ofynnol ar eu cyfer gan y Codau Ymarfer.</p> <p>(f) Sicrhau bod cymhwyseddau swyddogion yn cael eu hasesu a'u cofnodi yn unol â'r weithdrefn awdurdodi.</p> <p>[Y Safon – 5.1]</p>			
<p>5.19(iii) Adolygu a diweddau'r matrics 'Asesu Cymhwysedd' i gynnwys yr holl ddeddfwriaeth berthnasol a chosbau rheoleiddiol. [Y Safon – 5.1]</p>	Rhagfyr 2014	Bydd y Matrics Asesu Cymhwysedd yn cael ei adolygu i sicrhau ei fod yn cynnwys yr holl ddeddfwriaeth berthnasol, cosbau/camau gorfodi ac yn cynnwys gorfodi bwyd anifeiliaid hefyd.	
<p>5.19 (iv) Adolygu awdurdodiadau swyddogion i sicrhau eu bod yn gyson â'u cymwysterau, hyfforddiant, profiad a'r Codau Ymarfer perthnasol. [Y Safon – 5.3]</p>	Rhagfyr 2014	Bydd pob awdurdodiad yn cael eu hadolygu ac yn parhau i gael eu hadolygu'n ffurfiol yn ystod pob arfarniad perfformiad blynyddol i sicrhau eu bod yn ddilys/cywir a phan fo newidiadau i ddeddfwriaeth.	
<p>5.19 (v) Sicrhau bod swyddogion awdurdodedig yn derbyn yr hyfforddiant sy'n ofynnol i fod yn gymwys i gyflawni agweddau technegol y gwaith y byddant yn ymwneud ag ef, yn unol â'r Codau</p>	Parhaus	Bydd yr awdurdod yn adolygu'r gofynion hyfforddi ar gyfer swyddogion sy'n gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid a sicrhau bod holl ofynion y Cod Ymarfer yn cael eu bodloni.	Mae'r hyfforddiant sydd eisoes wedi'i gynnal hyd yn hyn yn cynnwys alergenau, hysbysiadau gwella, swyddogion safonau

<b>I DDERBYN SYLW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL</b>	<b>ERBYN (DYDDIAD)</b>	<b>GWELLIANNAU ARFAETHEDIG</b>	<b>CAMAU A GYMERWYD HYD YN HYN</b>
Ymarfer. [Y Safon – 5.4]			a diogelwch bwyd, a hyfforddiant ar gyfer Swyddogion Iechyd Anifeiliaid ar HACCP Bwyd Anifeiliaid. Mae un o'n swyddogion hefyd wedi cael y cymhwyster cyfraith bwyd anifeiliaid angenrheidiol.
5.19 (vi) Hysbysu'r Asiantaeth Safonau Bwyd am staff a awdurdodwyd o dan Ddeddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd 1985, ond nad ydynt yn cael eu cyflogi gan yr awdurdod mwyach. [Y Safon – 18.1]	Gorffennaf 2014		Cafodd yr ASB wybod am bob swyddog yn yr awdurdod ar hyn o bryd sydd angen awdurdodiad FEPA .
5.19 (vii) Penodi nifer ddigonol o swyddogion awdurdodedig i gynnal y gwaith a amlinellwyd yn y cynllun darparu gwasanaeth. [Y Safon – 5.3]	Mawrth 2015	Bydd yr awdurdod yn parhau i flaenoriaethu gorfodi cyfraith bwyd o fewn yr adnoddau sydd ar gael iddo. Bydd adolygiad o'r adnoddau sydd eu hangen yn cael ei gynnal. Gweithio gydag awdurdodau Gogledd Cymru i gyflenwi bwyd anifeiliaid mewn cydweithrediad – cynllun gwasanaeth ar y cyd i gael ei ddatblygu, gan gynnwys amcangyfrif o'r adnoddau sydd eu hangen. Bydd	Yn sgil ailstrwythuro'r gwasanaeth, mae Rheolwr Busnes wedi'i benodi gyda chyfrifoldeb rheoli arweiniol dros orfodi diogelwch bwyd. Datblygu cynllun bwyd anifeiliaid ar gyfer y rhanbarth (gyda Grŵp Bwyd

<b>I DDERBYN SYLW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL</b>	<b>ERBYN (DYDDIAD)</b>	<b>GWELLIANNAU ARFAETHEDIG</b>	<b>CAMAU A GYMERWYD HYD YN HYN</b>
		<p>y camau sy'n cael eu cymryd gan yr awdurdod yn seiliedig ar risg a rhoddir blaenoriaeth i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o ymyriadau a safleoedd risg uchel.</p>	<p>Anifeiliaid Cymru ar gyfer coladu a lledaenu i'r ASB). Hyfforddiant yn y dosbarth i Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd ar safonau bwyd wedi'i gwblhau – rhaglen yn cael ei datblygu i ganiatáu asesu gallu. Proses o drosglwyddo i gynllun sgorio risg NTSB wedi dechrau a dal yn mynd rhagddo i ganiatáu ar gyfer proffil cywir o fusnesau. Prosiect gwaith cydweithredol yn mynd rhagddo i adolygu a diweddarau'r proffil ar fusnesau bwyd anifeiliaid.</p>
6.15 (i) Sicrhau bod offer yn cael ei	Medi 2014	Nodi swyddog i gymryd cyfrifoldeb	Mae Swyddog

<b>I DDERBYN SYLW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL</b>	<b>ERBYN (DYDDIAD)</b>	<b>GWELLIANNAU ARFAETHEDIG</b>	<b>CAMAU A GYMERWYD HYD YN HYN</b>
gynnal a'i gadw a'i raddnodi'n briodol. I gefnogi'r dasg hon, dylid cynnal a gweithredu'r weithdrefn gofnodedig ar gyfer cynnal a chadw a graddnodi, gan gynnwys cofnodion graddnodi a gwiriadau eraill. [Y Safon – 6.2]		dros sicrhau bod prosesau cynnal a graddnodi yn cael eu rhoi ar waith a bod cofnodion priodol yn cael eu cynnal. Gwella monitro mewnol i gynnwys ystyried offer.	Cymorth Technegol wedi'i benodi gyda chyfrifoldeb dros sicrhau bod gwaith cynnal a graddnodi offer yn cael ei gynnal yn unol â'r weithdrefn.
6.15 (ii) Gweithredu'r gronfa ddata safleoedd a chymryd unrhyw gamau angenrheidiol i sicrhau bod modd darparu gwybodaeth ddibynadwy am safonau bwyd i'r Asiantaeth Safonau Bwyd. [Y Safon – 6.3]	Mawrth 2015	Parhau i weithredu Cynllun Gweithredu/Gwaith Safonau Bwyd i sicrhau y gall gwybodaeth ddibynadwy am safonau bwyd gael ei darparu i'r ASB.	Myfyriwr dros yr haf i ddechrau'r gwaith, ond yn aros am adborth unffurf ar allu i ysgrifennu sgrïpt i gwblhau'n electronig. Adroddiad yn barod ar gyfer tasg â llaw.
7.24 (i) Sicrhau bod ymyriadau/arolygiadau hylendid bwyd yn cael eu cynnal ar yr amllder sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1]	Parhaus	Adolygu'r ffordd y caiff ymyriadau hylendid bwyd eu cynnal i sicrhau bod arolygiadau, gan gynnwys y rheiny mewn sefydliadau cymeradwy, yn cael eu cynnal ar yr amllder gofynnol. Gwella monitro mewnol i fonitro amllder ymyriadau a chymryd camau yn unol â hynny.	
7.24 (ii) Amlygu pob sefydliad sydd wedi cael sgôr risg heb arolygiad llawn, arolygiad rhannol nac	Mawrth 2015	Bydd sefydliadau bwyd sydd wedi cael sgôr risg DTRR yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer arolygiad.	Adrodd am fodolaeth safleoedd â DTRR ( <i>desk top risk rating</i> )

<b>I DDERBYN SYLW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL</b>	<b>ERBYN (DYDDIAD)</b>	<b>GWELLIANNAU ARFAETHEDIG</b>	<b>CAMAU A GYMERWYD HYD YN HYN</b>
<p>archwiliad, a'u blaenoriaethu ar gyfer arolygiad; cynnal ymyriadau/arolygiadau hylendid, a chymeradwyo sefydliadau yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 7.2]</p>		<p>Atgoffa swyddogion o'r gofyniad i gadw cofnod o'r rhesymau dros roi sgôr risg llai a thrafod â'r rheolwr perthnasol.</p> <p>Atgoffa swyddogion o'r gofyniad i ail-ymweld â sefydliadau bwyd yn unol â'r Polisi Ail-ymweld a chadw cofnod o'r darganfyddiadau.</p> <p>Ffeiliau sefydliadau cymeradwy i gael eu hadolygu i sicrhau bod yr holl wybodaeth yn Atodiad 10 y Canllawiau Arfer Cyfraith Bwyd wedi'i chynnwys.</p> <p>Hyfforddiant swyddogion i gael ei ddarparu i sicrhau bod digon o wybodaeth yn cael ei chofnodi ar ffurflenni arolygiadau i ddangos bod swyddogion wedi ystyried systemau rheoli diogelwch bwyd seiliedig ar HACCP, asesiad digonol o fesurau rheoli croeshalogi a hyfforddiant sydd wedi'i ddarparu i staff, gan dynnu sylw at faterion sydd angen sylw neu gamau dilynol, a'r defnydd cywir o sgoriau risg. Holiaduron AES sy'n cael eu dychwelyd i gael eu hadolygu gan swyddog awdurdodedig er mwyn</p>	<p>– cronfa ddata i gael ei ddiweddarau. Pob DTRR i gael ei nodi fel bod ymweliad heb gael ei gynnal.</p> <p>Cysylltiadau wedi'u sefydlu eisoes gyda EH a TS i ganiatáu ar gyfer diweddariadau misol ar fusnesau sydd ar agor/wedi'u cau.</p> <p>Swyddogion i gynnal archwiliadau cyfoed o nifer sampl o adroddiadau/ffurflenni /llythyrau arolygu a rhoi adborth i'r swyddogion a hefyd y tîm. Mae hyn yn cael ei wneud yn rheolaidd.</p>

I DDERBYN SYLW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL	ERBYN (DYDDIAD)	GWELLIANNAU ARFAETHEDIG	CAMAU A GYMERWYD HYD YN HYN
		nodi'r rheiny lle mae angen camau dilynol.	
7.24 (iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau yn ei ardal â'r safonau a ragnodwyd yn gyfreithiol; a chymryd camau priodol ynglŷn ag unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth a ganfyddir, yn unol â Pholisi Gorfodi'r awdurdod. [Y Safon – 7.3]	Mawrth 2015	Bydd yr awdurdod yn sicrhau bod trefniadau arfaethedig ar gyfer ymyriadau hylendid bwyd yn cydymffurfio â gofynion y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Bydd yr awdurdod yn nodi'r sefydliadau hynny sydd wedi'i sgorio o ran risg heb gael y fantais o arolygiad a'u hail-dynodi fel sefydliadau heb sgôr.	
7.24 (iv) Rhoi gweithdrefnau cofnodedig ar waith yn llawn ar gyfer yr ystod o ymyriadau/arolygiadau y mae'n eu cynnal. [Y Safon – 7.4]	Mawrth 2015	Bydd adolygiad o weithdrefnau yn cael ei gynnal i sicrhau bod gweithdrefnau gwaith yn cydymffurfio â gofynion y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd ac yn cael eu gweithredu'n llawn ar gyfer yr ystod o ymyriadau hylendid bwyd gan gynnwys AES.	
7.24 (v) Sicrhau bod arsylwadau a wneir wrth gynnal ymyrraeth/arolygiad yn cael eu cofnodi mewn modd amserol er mwyn atal colli gwybodaeth berthnasol. [Y Safon – 7.5]	Medi 2014	Bydd pob swyddog yn cael eu hatgoffa o'r angen i gofnodi arsylwadau mewn dull amserol. Hyfforddiant i gael ei ddarparu i swyddogion ar y lefel o fanylder sydd ei hangen i ddangos bod asesiad digonol o gydymffurfiaeth wedi'i	Mae swyddogion bellach yn cynnal archwiliadau cyfoed o nifer sampl o adroddiadau/ffurflenni /llythyrau arolygu ac yn darparu adborth i'r

<b>I DDERBYN SYLW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL</b>	<b>ERBYN (DYDDIAD)</b>	<b>GWELLIANNAU ARFAETHEDIG</b>	<b>CAMAU A GYMERWYD HYD YN HYN</b>
		gynnal. Bydd gwaith monitro gwell yn cael ei gynnal.	swyddogion a hefyd y tîm. Mae hyn yn cael ei wneud yn rheolaidd.
7.40 (i) Sicrhau bod ymyriadau safonau bwyd yn cael eu cynnal ar amllder nad yw'n llai na hwnnw a bennir o dan y cynllun sgorio ymyrraeth a amlinellir yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1]	Mawrth 2015	Bydd yr awdurdod yn adolygu gofynion yr adnoddau ar gyfer cynnal ymyriadau safonau bwyd yn unol â gofynion y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a'r sgiliau a'r cymwyseddau sy'n bodoli eisoes neu a allai gael eu datblygu yn yr awdurdod. Bydd yr awdurdod yn blaenoriaethu'r adnoddau sydd ar gael iddo yn unol â risg. Bydd gwaith monitro mewnol gwell yn cael ei gynnal hefyd i sicrhau bod ymyriadau'n cael eu cynnal yn ôl yr angen.	Rydym wedi dechrau datblygu gallu swyddogion diogelwch bwyd i gynnal ymyriadau safonau bwyd. Hyfforddiant dosbarth i swyddogion wedi'i gwblhau a gwaith yn dechrau ar raglen ar gyfer asesu gallu.
7.40 (ii) Amlygu pob sefydliad sydd wedi cael sgôr risg heb arolygiad llawn, arolygiad rhannol nac archwiliad, a'u blaenoriaethu ar gyfer arolygiad; cynnal ymyriadau/arolygiadau safonau bwyd yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, Codau Ymarfer a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 7.2]	Mawrth 2015	Bydd y sefydliadau hyn i gyd yn cael eu hadolygu a'u diwygio ar y cronfa ddata sefydliadau. Bydd y rhain yn cael eu cynnwys yn y rhaglen er mwyn cael ymyriad perthnasol.  Bydd cynllun sgorio risg amgen ar gyfer safonau bwyd sy'n gyfystyr â chynllun Atodiad 5 yn cael ei weithredu.	Wedi dechrau ar y broses o symud at gynllun sgorio risg NTSB – ar hyn o bryd yn aros am adroddiad rhaglennydd y cronfa ddata.



I DDERBYN SYLW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL	ERBYN (DYDDIAD)	GWELLIANNAU ARFAETHEDIG	CMAU A GYMERWYD HYD YN HYN
		Bydd adolygiad o'r aide-memoire ar gyfer safonau bwyd yn cael ei gynnal er mwyn sicrhau bod gwybodaeth ddigonol yn cael ei chofnodi i gynorthwyo dull graddedig i orfodi.	
7.40 (iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau a systemau â'r safonau a ragnodwyd yn gyfreithiol. {Y Safon – 7.3]	Mawrth 2015	Adolygu a diwygio taflenni ymweliad ac aide-memoire er mwyn sicrhau cwrdd â phob agwedd o'r gofynion.  Monitro'r broses o gwblhau ffurflenni drwy gynllun monitro safonau mewnol (i'w datblygu).	Wedi mabwysiadu ffurflen arolygu busnes bwyd anifeiliaid fel y'i cytunwyd yng Ngrŵp Prif Swyddogion Bwyd Anifeiliaid Cymru.  Wedi adolygu taflen ymweliad Diogelwch Bwyd ochr yn ochr â gwaith ar gymhwysedd EHO. Heb ei brofi yn y maes hyd yma.
7.40 (iv) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefnau cofnodedig ar gyfer yr ystod o ymyriadau y mae'n eu cynnal. [Y Safon – 7.4]	Mawrth 2015	Bydd adolygiad o safonau bwyd a gweithdrefnau bwyd anifeiliaid yn cael ei gynnal a bydd gweithdrefnau gofynnol yn cael eu datblygu a'u cadw ar system rheoli dogfennau.	

<b>I DDERBYN SYLW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL</b>	<b>ERBYN (DYDDIAD)</b>	<b>GWELLIANNAU ARFAETHEDIG</b>	<b>CAMAU A GYMERWYD HYD YN HYN</b>
		Bydd hyn yn cynnwys datblygu polisiau a gweithdrefnau yn ranbarthol/cenedlaethol.	
7.40 (v) Sicrhau bod cofnodion cyfoes swyddogion o ymyriadau yn cael eu storio mewn ffordd sy'n golygu bod modd eu hadalw. [Y Safon – 7.5]	Mawrth 2015	Bydd yr awdurdod yn datblygu system cadw cofnodion ac yn hyfforddi swyddogion ar y system newydd. Bydd system fonitro hefyd yn cael ei datblygu.	
<p>7.55 (i) Sicrhau bod ymyriadau ac arolygiadau sefydliadau bwyd anifeiliaid yn cael eu cynnal ar yr amllder a nodir yn y Cod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid. [Y Safon – 7.1]</p> <p>(ii) Amlygu pob sefydliad sydd wedi cael sgôr risg heb arolygiad llawn, arolygiad rhannol nac archwiliad, a'u blaenoriaethu ar gyfer arolygiad; cynnal ymyriadau/arolygiadau a chymeradwyo neu gofrestru sefydliadau bwyd anifeiliaid yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, y Cod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 7.2]</p>	Mawrth 2015	Bydd yr awdurdod yn adolygu gofynion yr adnoddau ar gyfer ymgymryd ag ymyriadau bwyd anifeiliaid yn unol â gofynion y Cod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid a'r sgiliau a chymwyseddau sy'n bodoli eisoes neu a allai gael eu datblygu o fewn yr awdurdod. Bydd yr awdurdod yn blaenoriaethu'r adnoddau sydd ar gael yn ôl risg. Mae hyn yn cynnwys datblygu gallu swyddogion iechyd anifeiliaid i ymgymryd ag ymyriadau bwyd anifeiliaid.	Prosiect cydweithredol i adolygu a diweddarau proffil sefydliadau i ganiatáu data safleoedd cywir. Swyddogion Iechyd Anifeiliaid a swyddogion cymwysedig eraill i dargedu nifer y cytunwyd arno o safleoedd heb sgôr fel prosiect.

<b>I DDERBYN SYLW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL</b>	<b>ERBYN (DYDDIAD)</b>	<b>GWELLIANNAU ARFAETHEDIG</b>	<b>CAMAU A GYMERWYD HYD YN HYN</b>
<p>(iii) Sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd ynglŷn ag unrhyw ddiffyg cydymffurfio a ganfyddir, yn unol â'i Bolisi Gorfodi. [Y Safon – 7.3]</p> <p>(iv) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefnau cofnodedig ar gyfer yr ystod o ymyriadau/arolygiadau y mae'n eu cynnal; gan gynnwys strategaethau gorfodi amgen. [Y Safon – 7.4]</p> <p>(v) Cofnodi arsylwadau a wneir a data a geir wrth gynnal ymyriadau mewn modd amserol er mwyn atal colli'r wybodaeth a sicrhau bod cofnodion cyfoes yn ddarllenadwy ac y gellir eu hadalw. [Y Safon – 7.5]</p>			
<p>8.14 (i) Adolygu a diweddarau'r Weithdrefn Gwyno er mwyn rhoi arweiniad i swyddogion ar gasglu gwybodaeth allweddol. [Y Safon – 8.1]</p>	<p>Medi 2014</p>	<p>Bydd y broses gwyno yn cael ei hadolygu i hwyluso cofnodi dyddiad ac amser y gwyn a bydd yr amser ymateb targed (3 diwrnod neu 3 diwrnod gwaith) yn cael ei egluro. Bydd pob swyddog yn cael ei hyfforddi ar ofynion y weithdrefn newydd, gan gynnwys sut y mae'n rhaid storio gwybodaeth.</p>	

<b>I DDERBYN SYLW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL</b>	<b>ERBYN (DYDDIAD)</b>	<b>GWELLIANNAU ARFAETHEDIG</b>	<b>CAMAU A GYMERWYD HYD YN HYN</b>
8.14 (ii) Ymchwilio i gwynion a dderbynnir yn unol â'r Codau Ymarfer, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a'i bolisi a'i weithdrefnau ei hun. [Y Safon – 8.2]	Medi 2014	Ymgymryd â monitro mewnol gwell er mwyn sicrhau y caiff cwynion eu harchwilio'n ddigonol, gweithredoedd eu cofnodi'n ddigonol a bod cwsmeriaid yn ymwybodol o'r canlyniadau.	
11.5 (i) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefn gofnodedig i sicrhau bod ei gronfeydd data safonau bwyd a safleoedd bwyd anifeiliaid yn gywir, yn ddibynadwy ac yn gyfredol. [Y Safon – 11.2]	Mawrth 2015	Bydd yr awdurdod yn cynnwys cywirdeb cronfa data safonau bwyd a sefydliadau bwyd anifeiliaid o fewn y weithdrefn ddiogelwch bwyd bresennol a chaiff hyn ei weithredu'n unol â hynny. Bydd gwaith monitro hefyd yn cael ei gynnal i wirio cywirdeb y data.	
12.15 (i) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefnau cofnodedig ar gyfer arolygu bwyd anifeiliaid. [Y Safon – 12.3]	Rhagfyr 2015	Datblygu gweithdrefn gwaith sy'n cael ei chofnodi ar gyfer arolygu bwyd anifeiliaid. Mae'r Grŵp Prif Swyddog Bwyd Anifeiliaid Cymru yn datblygu polisiau cyson a gweithdrefnau a bydd swyddogion bwyd anifeiliaid yn cynorthwyo gyda gwybodaeth am y broses hon. Dogfennau'n cael eu cadw'n ganolog fel 'dogfen wedi'i rheoli' – un ai ar fewnrwyd neu drwy fynediad gwe cenedlaethol.	Wedi mabwysiadu ffurflenni arolygu bwyd anifeiliaid Cymru.
12.15 (ii) Adolygu a diweddarau'r	Rhagfyr 2014	Bydd yr awdurdod yn diwygio'i	

<b>I DDERBYN SYLW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL</b>	<b>ERBYN (DYDDIAD)</b>	<b>GWELLIANNAU ARFAETHEDIG</b>	<b>CAMAU A GYMERWYD HYD YN HYN</b>
gweithdrefnau samplu cofnodedig yn unol â'r Codau Ymarfer perthnasol a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 12.5]		gweithdrefn samplu bwyd er mwyn cynnwys cyfeiriad at Awdurdod Sylfaenol/Cartref, trefniadau tu allan i oriau swyddfa, a methodoleg samplu, yn cynnwys gwybodaeth am gaffaeliad samplau.	
12.15 (iii) Cymryd camau priodol pan ystyrir bod canlyniadau sampl yn anfoddfaol. [Y Safon – 12.7]	Rhagfyr 2014	Bydd monitro mewnol yn cael ei wella er mwyn sicrhau y gweithredir yn briodol ar ganlyniadau samplu annigonol.	
13.8 (i) Sicrhau bod y cynllun ar gyfer rheoli achosion o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd yn cael ei gynnal a'i weithredu'n llawn. [Y Safon – 13.1]	Mawrth 2015	Adolygu a diweddarau Cynllun Rheoli Achosion er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth sy'n cael ei darparu'n talu sylw penodol i ddeddfwriaeth.	
13.8 (ii) Sicrhau bod y weithdrefn ar gyfer ymchwilio i achosion a gadarnhawyd neu a amheuir o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd yn cael ei rhoi ar waith. [Y Safon – 13.2]	Rhagfyr 2014	Bydd cyfeiriad at archwilio sefydliadau bwyd cysylltiedig yn cael ei gynnwys yn y broses ar gyfer ymchwilio i achosion dan amheuaeth neu wedi'u cadarnhau o glefydau hysbysadwy. Bydd monitro mewnol o weithredoedd swyddogion mewn ymateb i hysbysiadau o ID yn cael ei wella er mwyn sicrhau y caiff gweithdrefnau'u dilyn a bod cofnodion digonol yn cael eu cadw.	

<b>I DDERBYN SYLW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL</b>	<b>ERBYN (DYDDIAD)</b>	<b>GWELLIANNAU ARFAETHEDIG</b>	<b>CAMAU A GYMERWYD HYD YN HYN</b>
13.8 (iii) Sicrhau bod yr holl gofnodion sy'n ymwneud â rheoli ac ymchwilio i achosion o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd yn cael eu cadw am o leiaf chwe blynedd. [Y Safon – 13.3]	Mawrth 2015	Bydd monitro mewnol o weithredoedd mewn ymateb i hysbysiadau ac achosion o ID yn cael ei wella er mwyn sicrhau y caiff cofnodion digonol eu cadw.	
15.16 (i) Sicrhau bod ei Bolisi Gorfodi yn cael ei gynnal a'i weithredu'n llawn yn unol â'r Codau Ymarfer perthnasol a chanllawiau swyddogol eraill. [Y Safon – 15.1]	Mawrth 2015	Cynnal adolygiad o Bolisi Gorfodi ar y cyd gyda phob P a PP er mwyn sicrhau cysondeb eang ac i gynnwys cyfeiriad at Awdurdod Sylfaenol.	
15.16 (ii) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefnau cofnodedig ar gyfer gwaith dilynol a chamau gorfodi mewn perthynas ag erlyniadau, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid. [Y Safon – 15.2 ]	Mawrth 2015	Bydd unrhyw weithdrefn sydd ddim yn ei lle yn ystod yr archwiliad yn cael ei chynhyrchu a'i chyfathrebu i'r holl swyddogion. Datblygu a chynnal proses erlyn wedi'i dogfennu a sicrhau y caiff ei rhoi ar waith yn effeithiol. Datblygu gweithdrefnau ar gyfer gorfodi safonau bwyd a bwyd anifeiliaid ar y cyd gyda phob P a PP er mwyn sicrhau cysondeb ar draws y gwasanaeth.	
15.16 (iii) Sicrhau bod gwaith gorfodi'r gyfraith hylendid bwyd yn cael ei wneud yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir	Mawrth 2015	Bydd proses fonitro mewnol yr awdurdod yn cael ei hadolygu a'i datblygu er mwyn sicrhau y caiff camau gweithredu eu cymryd yn unol	

<b>I DDERBYN SYLW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL</b>	<b>ERBYN (DYDDIAD)</b>	<b>GWELLIANNAU ARFAETHEDIG</b>	<b>CAMAU A GYMERWYD HYD YN HYN</b>
yn ganolog a gweithdrefnau cofnodedig yr awdurdod ei hun. Dylai'r rhesymau dros unrhyw wyriadau gael eu cofnodi. [Y Safon – 15.3 a 15.4]		â'r ddeddfwriaeth a chanllawiau perthnasol.	
16.6 (i) Cynnal cofnodion cyfredol sy'n cynnwys adroddiadau ar yr holl ymyriadau/arolygiadau, penderfyniadau ynghylch gofynion cyfreithiol a wnaed gan swyddogion awdurdodedig, manylion camau a gymerwyd pan amlygwyd diffyg cydymffurfio, manylion unrhyw gamau gorfodi a gymerwyd, canlyniadau unrhyw samplu, manylion unrhyw gwynion a champau a gymerwyd, a hefyd gwybodaeth gofrestru a chymeradwyo berthnasol am fwyd a/neu fwyd anifeiliaid. Yn ogystal, dylid cofnodi unrhyw wyriadau o weithdrefnau penodol ynghyd â'r rhesymau drostynt. [Y Safon – 16.1]	Mawrth 2015	Bydd hyfforddiant pellach yn cael ei ddarparu ar gyfer swyddogion am bwysigrwydd cadw cofnodion manwl a bydd archwiliadau o gofnodion/ffeiliau swyddogion yn parhau.	
16.12 (i) Cynnal cofnodion cyfredol mewn ffurf y gellir ei hadalw ar yr holl sefydliadau bwyd yn ei ardal yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. Rhaid i'r cofnodion hyn gynnwys	Mawrth 2015	Bydd hyfforddiant pellach yn cael ei ddarparu ar gyfer swyddogion am bwysigrwydd cadw cofnodion manwl ac arferion storio ffeiliau a bydd archwiliadau o system storio ffeiliau/cofnodion swyddogion.	

<b>I DDERBYN SYLW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL</b>	<b>ERBYN (DYDDIAD)</b>	<b>GWELLIANNAU ARFAETHEDIG</b>	<b>CAMAU A GYMERWYD HYD YN HYN</b>
adroddiadau ar yr holl ymyriadau/arolygiadau, penderfyniadau ynghylch cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a wnaed gan y swyddog awdurdodedig, manylion camau a gymerwyd pan amlygwyd diffyg cydymffurfio, a gwybodaeth berthnasol am gofrestru sefydliad bwyd. [Y Safon – 16.1]			
16.12 (ii) Sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw am o leiaf 6 blynedd. [Y Safon – 16.2]	Mawrth 2015	Bydd pob cofnod yn cael ei gadw am chwe blynedd a bydd gweithdrefnau'n cael eu diwygio i adlewyrchu hyn.	
16.15 (i) Cynnal cofnodion cyfredol a chywir mewn ffurf y gellir ei hadalw ar yr holl sefydliadau bwyd anifeiliaid perthnasol a bwyd anifeiliaid wedi'i fewnforio yn unol â'r Cod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. Dylai'r cofnodion hyn gynnwys adroddiadau ar yr holl ymyriadau/arolygiadau, penderfyniadau ynghylch cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a wnaed gan y swyddog a manylion camau a gymerwyd. [Y Safon – 16.1]	Mawrth 2015	Byddwn yn mabwysiadu'r adroddiadau 'Cymru Gyfan'. Caiff y rhain eu cadw'n ffisegol ac yn electroneg drwy ddull adferadwy llwyr.	



<b>I DDERBYN SYLW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL</b>	<b>ERBYN (DYDDIAD)</b>	<b>GWELLIANNAU ARFAETHEDIG</b>	<b>CAMAU A GYMERWYD HYD YN HYN</b>
16.15 (ii) Sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw am o leiaf 6 blynedd. [Y Safon – 16.2]	Mawrth 2015	Bydd pob cofnod yn cael ei gadw am chwe blynedd a bydd gweithdrefnau'n cael eu diwygio i adlewyrchu hyn.	
<p>19.13 (i) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefn fonitro fewnol gofnodedig ar gyfer bwyd anifeiliaid, a datblygu ymhellach a gweithredu'n llawn y weithdrefn fonitro fewnol ar gyfer hylendid bwyd a safonau bwyd er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â phob agwedd ar y Cytundeb Fframwaith. [Y Safon – 19.1]</p> <p>19.13 (ii) Cadarnhau ei gydymffurfiaeth â'r Safon, deddfwriaeth berthnasol, y Codau Ymarfer perthnasol, canllawiau perthnasol a gyhoeddir yn ganolog a pholisïau a gweithdrefnau cofnodedig yr awdurdod ei hun. [Y Safon – 19.2]</p>	Mawrth 2015	Rhoi proses fonitro mewnol ar waith ar gyfer pob mesur rheoli swyddogol sy'n ymwneud â bwyd anifeiliaid. Adolygu prosesau monitro mewnol ar gyfer hylendid a safonau bwyd er mwyn sicrhau y caiff pob agwedd o'r Safon ei chynnwys.	
21.5 (i) Datblygu gweithgareddau hyrwyddol i gynnwys diogelwch bwyd anifeiliaid. [Y Safon – 21.1]	Mawrth 2015	Bydd yr awdurdod yn datblygu gweithgareddau hyrwyddo priodol i'w cyfleu ar lefel lleol a rhanbarthol.	

**Dull/Methodoleg yr Archwiliad**

Cynhaliwyd yr archwiliad gan ddefnyddio ystod o wahanol fathau o ddulliau a methodoleg, fel a ganlyn:

**(1) Archwilio Polisiâu a Gweithdrefnau'r Awdurdod Lleol**

Archwiliwyd y polisiâu, y gweithdrefnau a'r dogfennau cysylltiedig canlynol:

- Cynllun Gwasanaeth Bwyd Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer 2013/14, adroddiad cysylltiedig y Cabinet a chofnod o benderfyniad gan yr aelod o'r cabinet
- Cynllun Gwaith y Gwasanaeth Hylendid Bwyd a Bwyd Anifeiliaid 2013-2014
- Cynllun Gwaith y Gwasanaeth Hylendid Bwyd a Bwyd Anifeiliaid 2012-2013
- Cynllun Safonau Bwyd 2013-2014
- Cynllun Safonau Bwyd 2012-2013
- Taenlen monitro perfformiad o ran hylendid bwyd ar gyfer 2012/2013
- Cynllun Gwasanaeth 2013-2014 Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer Gwasanaethau Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd
- Cynllun Gwasanaeth 2012-2013 Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer Gwasanaethau Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd
- Cynllun Gwasanaeth Bwyd Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer 2012/2013 ac adroddiad cysylltiedig y cabinet
- Agenda ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 26 Mai 2010, sy'n cynnwys cyfeiriad at archwiliad penodol yr Asiantaeth Safonau Bwyd o sefydliadau cymeradwy
- Cofnodion cyfarfodydd y Tîm Bwyd ac Iechyd a Diogelwch, dyddiedig; 18.03.2013 am 9.30am, 31.01.2013 am 10am, 25.10.2012 am 10am a 26.06.2012 am 10am
- Cofnodion cyfarfod blynyddol Cyngor Sir Ddinbych a gynhaliwyd ar 15 Mai 2012
- Gweithdrefn Is-adran Bwyd ac Iechyd a Diogelwch Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer Rheoli Dogfennau
- Gweithdrefn Is-adran Bwyd ac Iechyd a Diogelwch Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer Cynnal Adolygiad Strwythuredig o Bolisiâu a Gweithdrefnau
- Cynllun Gweithredu o Gyfarfod Tîm 23 Mai 2013
- Cynllun Gweithredu o Gyfarfod Tîm 10 Ebrill 2013
- Gweithdrefnau Is-adran Bwyd, Iechyd a Diogelwch ac Iechyd Anifeiliaid Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer Ymdrin â Hysbysiadau o Golli Statws Swyddogol Rhydd rhag Twbercwlosis yn y Fuches

- Gweithdrefn Is-adran Bwyd/Bwyd Anifeiliaid ac Iechyd a Diogelwch Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer Awdurdodi Swyddogion Gorfodi Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid
- Awdurdodiad Swyddogion Cyngor Sir Ddinbych
- Rhestr Wirio Asesu Cymhwysedd i Bennu Awdurdodiad ar gyfer Gorfodi Cyfraith Bwyd
- Cynllun Dysgu a Datblygu ar gyfer yr Is-adran Iechyd Anifeiliaid a Thrwyddedu
- Gweithdrefn Is-adran Bwyd ac Iechyd a Diogelwch Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer Cynnal a Chadw a Graddnodi Offer
- Taenlen arolygiadau diogelwch bwyd categori D a oedd i fod i gael eu cynnal yn 2012/13
- Taenlen arolygiadau diogelwch bwyd risg uchel a oedd i fod i gael eu cynnal yn ystod chwarter 1 – 2013/14
- Taenlen safleoedd heb sgôr ar gyfer diogelwch bwyd 2013/14
- Rhestr Safleoedd Cymeradwy
- Ffurflen Adroddiad Arolygiad Safonau Bwyd Cyngor Sir Ddinbych
- Ffurflen Cymorth Cof Arolygiad Safonau Bwyd
- Gweithdrefn Is-adran Bwyd ac Iechyd a Diogelwch Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer Arolygiadau Bwyd ac Iechyd a Diogelwch
- Gweithdrefn Is-adran Bwyd ac Iechyd a Diogelwch Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer Ailymweliad Arolygiad Bwyd
- Ffurflen Arolygiad Hylendid Bwyd Cyngor Sir Ddinbych
- Ffurflen Arolygiad / Sgôr Arolygiad Risg Isel Cyngor Sir Ddinbych
- Ffurflen Adroddiad Arolygiad Cyngor Sir Ddinbych
- Ffurflen Ymweliad Hylendid Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Cyngor Sir Ddinbych
- Gweithdrefn Is-adran Bwyd ac Iechyd a Diogelwch Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer Strategaeth Arolygu Amgen mewn perthynas â Safleoedd Risg Isel
- Rhestr Wirio Gorfodi Amgen Safleoedd Risg Isel Cyngor Sir Ddinbych
- Llythyr enghreifftiol Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer arolygiadau hylendid bwyd
- Gweithdrefn Is-adran Bwyd ac Iechyd a Diogelwch Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer Busnes Newydd
- Gweithdrefn Is-adran Bwyd ac Iechyd a Diogelwch Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer Cwynion ynghylch Safleoedd Bwyd a Bwyd / Bwyd Anifeiliaid
- Cylchlythyr Safonau a Diogelwch Bwyd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Sir Ddinbych – Rhagfyr 2011, Rhifyn 4
- Cynllun Prosiect Ymarfer Cwsmer Cudd Diogelwch Bwyd Sir Ddinbych a Chonwy
- Prosiect Rheoli Diogelwch Bwyd Sir Ddinbych a Chonwy a llythyr cyngor cysylltiedig at fusnesau
- Canlyniadau Holiadur Bodlonrwydd Cwsmeriaid Is-adran Bwyd ac Iechyd a Diogelwch Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer 4<sup>ydd</sup> Chwarter 2012 2013
- Gweithdrefn Is-adran Bwyd ac Iechyd a Diogelwch Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer Cywirdeb y Gronfa Ddata

- Gweithdrefn Is-adran Bwyd ac Iechyd a Diogelwch Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer Samplu Bwyd a Bwyd Anifeiliaid
- Gweithdrefn Is-adran Bwyd ac Iechyd a Diogelwch Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer Ymchwilio i Glefydau Trosglwyddadwy a'u Rheoli
- Cynllun Achosion o Glefydau Trosglwyddadwy ar gyfer Cymru ('Cynllun Achosion Cymru')
- Gweithdrefn Is-adran Bwyd ac Iechyd a Diogelwch Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer Rhybuddion a Digwyddiadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid
- Protocol Gorfodi a Pholisi Cysylltiedig Gwasanaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir Ddinbych
- Gweithdrefn Is-adran Bwyd ac Iechyd a Diogelwch Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer Gorfodi Diogelwch Bwyd
- Gweithdrefn Is-adran Bwyd ac Iechyd a Diogelwch Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer Rhybudd Syml
- Gweithdrefn Is-adran Bwyd ac Iechyd a Diogelwch Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer Erlyn
- Polisi Cyngor Sir Ddinbych 'Eich Llais Chi – Eich Cyfle Chi i Roi Adborth ar Wasanaethau'r Cyngor ac Ysgolion'
- Cofnodion cyfarfodydd Panel Technegol Diogelwch Bwyd Gogledd Cymru, dyddiedig; 06.09.2012 a 06.12.2012
- Cofnodion cyfarfodydd Panel Bwyd a Mesureg Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 22.10.2012 a 07.03.2013
- Cynllun Gweithredu Cyngor Sir Ddinbych mewn Ymateb i Gyhoeddi Adroddiad Ymchwiliad Cyhoeddus Pennington (ym mis Mawrth 2009) ynglŷn â'r Achosion *E. coli* 0157 yn Ne Cymru yn 2005 ac adroddiad cryno cysylltiedig
- Agenda cyfarfod Pwyllgor Craffu ar Gymunedau Cyngor Sir Ddinbych a gynhaliwyd ar 23 Mai 2013
- Gweithdrefn Is-adran Bwyd ac Iechyd a Diogelwch Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer Monitro Gorfodi a Chamau Anffurfiol
- Taenlen Monitro Perfformiad Iechyd Anifeiliaid ar gyfer 2012/2013
- Taflen Wybodaeth – Cacennau Cartref
- Erthygl ar Lwyddiant Wythnos Diogelwch Bwyd Cyngor Sir Ddinbych yn 2013
- Gweithdrefn Is-adran Bwyd ac Iechyd a Diogelwch Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer Cywirdeb y Gronfa Ddata
- Cynllun Gweithredu Bwyd / Bwyd Anifeiliaid ar gyfer Materion TGCh 2013
- Cofnodion cyfarfod i drafod canllawiau LAEMS/yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar 1 Mehefin 2012

## **(2) Adolygu ffeiliau**

Adolygwyd nifer o gofnodion yr awdurdod lleol yn ystod yr archwiliad, gan gynnwys:

- Ffeiliau arolygu safleoedd bwyd cyffredinol
- Ffeiliau sefydliadau cymeradwy
- Cofnodion cwynion am fwyd a safleoedd bwyd
- Cofnodion gorfodi ffurfiol
- Awdurdodiadau swyddogion, rhestrau gwirio cymhwysedd a chofnodion hyfforddiant
- Cofnodion monitro mewnol
- Cofnodion graddnodi
- Cofnodion digwyddiadau bwyd

### **(3) Adolygu Cofnodion ar y Gronfa Ddata:**

Ystyriwyd detholiad o gofnodion ar y gronfa ddata yn ystod yr archwiliad er mwyn:

- Adolygu ac asesu cyflawnrwydd cofnodion ar y gronfa ddata am arolygiadau bwyd/bwyd anifeiliaid, ymchwiliadau i gwynion am fwyd/bwyd anifeiliaid a safleoedd bwyd/bwyd anifeiliaid, samplau a gymerwyd gan yr awdurdod, gorfodi ffurfiol a gweithgareddau eraill, ac i gadarnhau cysondeb â chofnodion ffeil:
- Asesu cyflawnrwydd a chywirdeb y gronfa ddata safleoedd bwyd a bwyd anifeiliaid
- Asesu gallu'r system i gynhyrchu adroddiadau ar weithgarwch gorfodi cyfraith bwyd/bwyd anifeiliaid a'r wybodaeth fonitro sy'n ofynnol gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

### **(4) Cyfweld Swyddogion**

Cynhaliwyd cyfweiliadau â swyddogion er mwyn cael mwy o wybodaeth am sut yr oedd trefniadau'r awdurdod ar gyfer rheoli bwyd/bwyd anifeiliaid yn gweithredu'n ymarferol. Cyfwelwyd y swyddogion canlynol:

Y Rheolwr Diogelu'r Cyhoedd  
 Y Rheolwr Safonau Masnach Dros Dro  
 Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd, gan gynnwys y swyddog sydd â chyfrifoldeb arweiniol am glefydau trosglwyddadwy  
 Swyddog Diogelwch Bwyd  
 Swyddog Safonau Masnach  
 Swyddog Safonau Masnach Dan Hyfforddiant  
 Swyddog Iechyd Anifeiliaid

Mae'r farn a'r safbwyntiau a fynegwyd yn ystod cyfweiliadau â swyddogion yn gyfrinachol ac ni chyfeirir atynt yn uniongyrchol yn yr adroddiad.

**(5) Gwiriadau dilysu ar y safle:**

Cynhaliwyd ymweliadau dilysu â thri busnes bwyd lleol ac un busnes bwyd anifeiliaid gyda swyddogion. Diben yr ymweliadau hyn oedd dilysu canlyniad yr arolygiadau diwethaf a gynhaliwyd gan yr Awdurdod Lleol ac asesu i ba raddau yr oedd penderfyniadau a gweithgareddau gorfodi yn bodloni gofynion deddfwriaeth berthnasol, y Codau Ymarfer perthnasol a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog.

## Rhestr Termau

Archwilio Rhyng-awdurdod	System lle y gallai awdurdodau lleol archwilio eu gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd ei gilydd yn unol â safon ansawdd gytunedig.
Archwiliwr Bwyd	Unigolyn â chymwysterau rhagnodedig sy'n cynnal dadansoddiad microbiolegol ar ran yr awdurdod lleol.
Arolygiad	Archwilio sefydliad bwyd neu fwyd anifeiliaid er mwyn cadarnhau cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid.
Asiantaeth Safonau Bwyd	Rheoleiddiwr y Deyrnas Unedig ar gyfer diogelwch bwyd, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid.
Awdurdod Cartref	Awdurdod lle y mae canolfan benderfynu berthnasol menter wedi'i lleoli ac sydd wedi ymgymryd â'r cyfrifoldeb o gynghori'r busnes hwnnw ar faterion diogelwch bwyd/safonau bwyd. Mae'n gweithredu fel pwynt cyswllt canolog ar gyfer ymholiadau awdurdodau gorfodi eraill ynglŷn â pholisïau a gweithdrefnau bwyd y cwmni hwnnw.
Awdurdod Gwreiddiol	Awdurdod y mae busnes yn cynhyrchu neu'n pecynnu nwyddau neu wasanaethau o fewn ei ardal, ac y mae'r awdurdod yn gweithredu fel pwynt cyswllt canolog ar ei gyfer o ran ymholiadau awdurdodau gorfodi eraill ynglŷn â'r cynhyrchion hynny.
Awdurdod Unedol	Awdurdod lleol lle y mae'r holl swyddogaethau wedi'u cyfuno, er enghraifft Awdurdodau Cymru a Bwrdeistrefi Llundain. Bydd cyfrifoldebau Awdurdod Unedol yn cynnwys gorfodi hylendid bwyd, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid.
Busnes Heb Sgôr	Busnes bwyd a amlygwyd gan awdurdod nad yw wedi bod yn destun asesiad sgôr risg rheoleiddiol.
Bwrdd Safonau Masnach Cenedlaethol (NTSB)	Corff atebol i'r llywodraeth sy'n darparu arweinyddiaeth, dylanwad, cefnogaeth ac adnoddau i helpu i oresgyn niwed defnyddwyr a busnesau yn lleol, yn rhanbarthol ac yn

	genedlaethol.
Codau Ymarfer	Codau Ymarfer y Llywodraeth a gyhoeddwyd o dan Adran 40 Deddf Diogelwch Bwyd 1990 fel canllawiau i awdurdodau lleol ar orfodi deddfwriaeth fwyd.
Cofrestru	Proses gyfreithiol sy'n mynnu bod pob gweithredwr busnes bwyd yn hysbysu'r awdurdod bwyd priodol pan fydd yn sefydlu busnes bwyd.
CPIA	Deddf Gweithdrefnau ac Ymchwiliadau Troseddol 1996 – mae'n llywodraethu'r gweithdrefnau ar gyfer ymgymryd ag ymchwiliadau ac achosion troseddol.
Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru	Sefydliad o swyddogion awdurdodau lleol sy'n arwain gwasanaethau diogelu iechyd y cyhoedd yng Nghymru.
Cyferwerth ag Amser Llawn	Ffigur sy'n cynrychioli'r rhan honno o amser swyddog unigol sydd ar gael i gyflawni rôl benodol neu gyfres benodol o ddyletswyddau. Mae'n adlewyrchu'r ffaith y gallai unigolion weithio'n rhan-amser, neu y gallai fod ganddynt gyfrifoldebau eraill yn y sefydliad nad ydynt yn gysylltiedig â gorfodi bwyd.
Cynllun Gwasanaeth	Dogfen a gynhyrchir gan awdurdod lleol sy'n amlinellu ei gynlluniau ar gyfer darparu a chyflwyno gwasanaeth bwyd i'r gymuned leol.
Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd	Cynllun sy'n sgorio busnesau bwyd er mwyn rhoi gwybodaeth i ddefnyddwyr am eu safonau hylendid.
Cytundeb Fframwaith	Mae'r Cytundeb Fframwaith yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> <li>· Safon Gorfodi Cyfraith Bwyd</li> <li>· Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth</li> <li>· Cynllun Monitro</li> <li>· Cynllun Archwilio</li> </ul> <p>Mae'r <b>Safon</b> a'r <b>Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth</b> yn amlinellu disgwyliadau'r Asiantaeth o ran cynllunio a darparu gwasanaeth gorfodi cyfraith bwyd.</p>



Mae'r **Cynllun Monitro** yn mynnu bod awdurdodau lleol yn cyflwyno ffurflenni i'r Asiantaeth bob tri mis ar eu gweithgareddau gorfodi bwyd h.y. nifer yr arolygiadau, samplau ac erlyniadau.

O dan y **Cynllun Archwilio**, bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn cynnal archwiliadau o wasanaethau gorfodi cyfraith bwyd awdurdodau lleol yn unol â'r meini prawf a osodwyd yn y Safon.

Dadansoddwr Cyhoeddus	Swyddog sydd â'r cymwysterau rhagnodedig a benodir yn ffurfiol gan yr awdurdod lleol i gynnal dadansoddiad cemegol o samplau bwyd.
Fforwm aelodau	Fforwm awdurdod lleol lle y mae Aelodau Cyngor sy'n cael eu hethol yn lleol yn trafod a gwneud penderfyniadau am wasanaethau gorfodi cyfraith bwyd.
Ffurflenni OCD	Ffurflenni ar weithgareddau gorfodi cyfraith bwyd lleol y mae'n rhaid eu cyflwyno i'r Undeb Ewropeaidd o dan y Gyfarwyddeb Rheolaeth Swyddogol ar Fwyd.
Gweithiwr Proffesiynol / Swyddog Iechyd yr Amgylchedd	Swyddog a gyflogir gan yr awdurdod lleol i orfodi deddfwriaeth diogelwch bwyd.
HACCP	Dadansoddi Peryglon a Phwynt Rheoli Critigol – system rheoli diogelwch bwyd a ddefnyddir mewn busnesau bwyd i amlygu pwyntiau yn y broses gynhyrchu lle y mae'n hollbwysig, o safbwynt diogelwch bwyd, bod y mesur rheoli'n cael ei gynnal yn gywir, gan felly ddileu neu leihau'r perygl i lefel ddiogel.
Hylendid bwyd/bwyd anifeiliaid	Y gofynion cyfreithiol sy'n ymwneud â diogelwch ac iachusrwydd bwyd/bwyd anifeiliaid.
Hysbysiad Camau Unioni	Hysbysiad a gyflwynir gan Swyddog Awdurdodedig yr awdurdod lleol o dan Reoliad 9 Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 (fel y'u diwygiwyd) i weithredwr busnes bwyd er mwyn gosod cyfyngiadau ar sefydliad, offer neu broses hyd nes y bydd gwaith penodol wedi'i wneud i gydymffurfio â gofynion hylendid bwyd.

Hysbysiad Gwella Hylendid	Hysbysiad a roddir gan un o Swyddogion Awdurdodedig yr awdurdod lleol o dan Reoliad 6 Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, sy'n mynnu bod perchennog busnes bwyd yn cyflawni gwaith addas er mwyn sicrhau bod y busnes yn cydymffurfio â rheoliadau hylendid.
LAEMS	System electronig yw'r System Fonitro Gorfodi Awdurdodau Lleol a ddefnyddir gan awdurdodau lleol i adrodd ar eu gweithgareddau gorfodi cyfraith bwyd i'r Asiantaeth Safonau Bwyd.
PACE	Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 – mae'n llywodraethu'r gweithdrefnau ar gyfer casglu tystiolaeth mewn ymchwiliadau troseddol.
Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru	Grŵp o uwch-weithwyr proffesiynol Iechyd yr Amgylchedd mewn awdurdodau lleol sy'n cefnogi a hybu Iechyd yr Amgylchedd ac Iechyd y Cyhoedd yng Nghymru.
Penaethiaid Safonau Masnach Cymru	Grŵp o uwch-weithwyr proffesiynol Safonau Masnach mewn awdurdodau lleol sy'n cefnogi a hybu Safonau Masnach yng Nghymru.
Prif Awdurdod	Awdurdod lleol sydd wedi datblygu partneriaeth â busnes sy'n masnachu ar draws ffiniau awdurdod lleol ac sy'n rhoi cyngor i'r busnes hwnnw.
Pwynt Rheoli Critigol	Cam yng ngweithrediadau busnes bwyd lle y mae rheolaeth yn hollbwysig er mwyn atal neu ddileu perygl bwyd neu ei leihau i lefelau derbyniol.
Rheolaethau Swyddogol	Unrhyw fath o reolaeth ar gyfer cadarnhau cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid.
Rhybuddion Perygl Bwyd/ Rhybuddion Bwyd	System a weithredir gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd i rybuddio'r cyhoedd ac awdurdodau lleol am broblemau cenedlaethol neu ranbarthol yn ymwneud â diogelwch bwyd.
Safle cymeradwy	Safle gweithgynhyrchu bwyd a gymeradwywyd gan yr awdurdod lleol, o fewn cyd-destun deddfwriaeth benodol, ac y rhoddwyd cod adnabod unigryw iddo sy'n berthnasol ym maes masnach genedlaethol

a/neu ryngwladol.

Safonau bwyd	Y gofynion cyfreithiol sy'n ymdrin ag ansawdd, cyfansoddiad, labelu, cyflwyniad a hysbysebu bwyd, a deunyddiau sy'n dod i gysylltiad â bwyd.
Safonau Masnach	Y gwasanaeth mewn awdurdod lleol sy'n gorfodi deddfwriaeth safonau bwyd a bwyd anifeiliaid, ymhlith cyfrifoldebau eraill.
Sgôr risg	System sy'n rhoi sgôr i safle bwyd yn ôl risg ac sy'n pennu pa mor aml y dylid arolygu'r safle hwnnw. Er enghraifft, dylai safle risg uchel o ran hylendid gael ei arolygu o leiaf bob 6 mis.
Swyddog awdurdodedig	Swyddog â chymwysterau addas sydd wedi'i awdurdodi gan yr awdurdod lleol i weithredu ar ei ran wrth orfodi deddfwriaeth, er enghraifft.
Swyddog Safonau Masnach	Swyddog a gyflogir gan yr awdurdod lleol a allai orfodi deddfwriaeth safonau bwyd a bwyd anifeiliaid, ymhlith cyfrifoldebau eraill.
Ymyrraeth (Intervention)	Dull neu dechneg a ddefnyddir gan awdurdod i gadarnhau bod busnes yn cydymffurfio â chyfraith bwyd neu fwyd anifeiliaid, neu ei gynorthwyo i wneud hynny.